# Diffygion yn Nhrefniadau Llywodraethu a Phrosesau Penderfynu Cyngor Sir Penfro Mewn Perthynas ag Ymadawiad ei Brif Weithredwr blaenorol gyda Thaliad Terfynu

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2746A2021-22

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion yn nhrefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu Cyngor Sir Penfro mewn perthynas ag ymadawiad ei Brif Weithredwr yn 2020 gyda thaliad terfynu. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 5

Fy ngwaith archwilio a'i gwmpas 6

Casgliad ar y cyfan 7

Casgliadau manwl 7

Argymhellion 9

Y camau nesaf 11

Adroddiad manwl

Cyflwyniad 12

Daeth Arweinydd y Cyngor a'i Brif Weithredwr ar y pryd i gytundeb y byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth gyda thaliad o £95,000, ond ni chofnodwyd yn iawn ar ba sail yr oedd yn gadael nac am ba reswm yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu 14

Rhoddodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyfarwyddyd i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol ddrafftio Cytundeb Setlo mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu a oedd wedi'i negodi, ond nid oedd y cyfarwyddiadau'n seiliedig ar ffeithiau cadarn 29

Fe wnaeth methiant i egluro a dogfennu'r rheswm pam y gadawodd y Prif Weithredwr ei gyflogaeth, a pham yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu adael y Cyngor yn agored i rwymedigaeth bosibl o ran treth 31

Roedd diffyg eglurder cyffredinol ynghylch pwy oedd yn cynghori pwy yn y negodiadau cyfreithiol ynglŷn â'r Cytundeb Setlo ac fe gafodd hyn ei waethygu am bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhannu cyngor cyfreithiol allanol y Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd gydag ef 44

Cafodd y penderfyniad i wneud taliad terfynu o £95,000 i Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor ei wneud fel penderfyniad gweithredol, a oedd yn anghywir, ac yn fy marn i roedd y taliad yn erbyn y gyfraith 46

Fe gododd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor bryder gyda Swyddog Monitro'r Cyngor efallai nad oedd y taliad arfaethedig i Brif Weithredwr y Cyngor yn cydymffurfio â datganiad ar bolisi tâl statudol y Cyngor, ond nid ymdriniwyd â'r pryder hwn ac ymddengys fod y Cyngor wedi gwyro oddi wrth ei ddatganiad ar bolisi tâl heb allu dangos rheswm da dros fod wedi gwneud hynny 51

Roedd proses benderfynu'r Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad ei Brif Weithredwr gyda thaliad terfynu'n sylfaenol ddiffygiol ac ni chydymffurfiodd â gofynion deddfwriaethol 53

Cafodd y Prif Weithredwr blaenorol daliad terfynu o £95,000 cyn y dyddiad talu cytunedig a oedd wedi'i nodi yn y Cytundeb Setlo 64

Ni chafodd aelodau anweithredol y Cyngor y cyfle i adolygu a phenderfynu a ddylai'r Prif Weithredwr gael taliad terfynu 65

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Ar 2 Medi 2020, cyhoeddodd Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) y byddai ei Brif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor trwy gydsyniad rhwng y ddwy ochr. Yn ddiweddarach y mis hwnnw, fe wnaeth y Cyngor daliad terfynu o £95,000 i'r Prif Weithredwr ar y pryd dan delerau Cytundeb Setlo a lofnodwyd gan Arweinydd y Cyngor a'i Brif Weithredwr ar 27 Awst 2020. Ar 30 Tachwedd 2020, daeth cyflogaeth y Prif Weithredwr i ben.

2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn unigol ar daliadau terfynu a wnaed i brif swyddogion yn ei gyfrifon blynyddol. Felly mae'n ofynnol bod y taliad i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae fy archwiliad o gyfrifon y Cyngor yn cynnwys archwilio'r holl daliadau terfynu a wnaed i brif swyddogion i gadarnhau eu bod wedi cael eu datgelu'n briodol a'u bod wedi cael eu gwneud yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chyfansoddiad y Cyngor.

3 Yn fuan wedi i ymadawiad y Prif Weithredwr gael ei gyhoeddi, daeth fy archwilwyr yn ymwybodol ei fod yn mynd i gael taliad terfynu. Fe gododd fy archwilwyr bryderon gyda mi ynghylch y taliad hwn am nad oedd yn glir iddynt ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth; am ba reswm yr oedd yn mynd i gael taliad o £95,000; a sut y cafodd penderfyniadau ynghylch y materion hynny eu gwneud gan y Cyngor.

4 O dan amgylchiadau arferol, ni fyddai fy archwilwyr yn archwilio taliad terfynu a wnaed i brif swyddog cyngor nes bod y taliad hwnnw wedi cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol drafft y Cyngor. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan fy archwilwyr, gofynnais iddynt gychwyn archwiliad ar unwaith i ganfod:

- ar ba sail yr ymrwymodd y Cyngor i Gytundeb Setlo gyda'i Brif Weithredwr ar y pryd a arweiniodd at derfynu ei gyflogaeth ac at roi taliad o £95,000 iddo.
- pa un a ddilynodd y Cyngor broses briodol a thryloyw wrth benderfynu gwneud taliad terfynu i'r Prif Weithredwr ar y pryd.
- pa un a gydymffurfiodd y Cyngor â deddfwriaeth a'i Gyfansoddiad a'i bolisi tâl ei hun yn y ffordd yr ymdriniodd â'r mater hwn.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad.

# Fy ngwaith archwilio a'i gwmpas

6 Yn ystod yr archwiliad, fe wnaeth fy archwilwyr gyfweld â nifer o unigolion a chwaraeodd ran mewn rhyw ffordd yn y digwyddiadau a arweiniodd at ymadawiad Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor â'i gyflogaeth gyda thaliad terfynu o £95,000. Fe wnaeth fy archwilwyr ystyried nifer fawr o ddogfennau cydoesol hefyd. Fe wnaeth y gwaith archwilio a wnaed gan fy archwilwyr ysgogi pryderon ynghylch cyfreithlondeb y broses benderfynu a ddilynwyd gan y Cyngor a chyfreithlondeb y taliad ei hun. Fe geisiais gyngor cyfreithiol allanol ynghylch y materion hyn, ac mae'r canfyddiadau a'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn gyson â'r cyngor cyfreithiol a gefais.

7 Mae'r archwiliad wedi bod yn gymhleth, ac fe'i gwnaed yn anos gan fethiant y Cyngor i ddogfennu'n gyfamserol ar ba sail y gwnaed penderfyniadau. Ar ben hynny, roedd gan y rhai y cyfwelwyd â hwy atgofion gwahanol iawn weithiau o'r un digwyddiadau.

8 Ceir rhai materion yn yr adroddiad hwn nad wyf wedi gallu dod i gasgliad pendant yn eu cylch. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchiadau a arweiniodd at gynnig taliad terfynu i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd pe bai'n penderfynu gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor. Clywodd fy archwilwyr farn nifer o unigolion ynghylch y mater hwn.

9 Roedd consensws mai un o'r ffactorau a arweiniodd at ymadawiad y Prif Weithredwr oedd bod perthnasoedd rhyngddo ef a rhai aelodau o Gabinet y Cyngor dan straen o leiaf. Dywedodd rhai swyddogion a'r Prif Weithredwr blaenorol wrth fy archwilwyr fod ei berthnasoedd gyda rhai aelodau Cabinet wedi pallu i'r graddau nad oedd modd eu hadfer. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn ymhlith y rhai y cyfwelwyd â hwy ynglŷn â'r rheswm dros y problemau gyda pherthnasoedd. Dywedodd rhai, gan gynnwys y Prif Weithredwr blaenorol, wrth fy archwilwyr fod yr anawsterau wedi cael eu hachosi gan ymddygiad gwael gan aelodau tuag ato dros gyfnod parhaus, a'r ymddygiad hwnnw'n gyfystyr â bwlio a dychrynu. Mae eraill gan gynnwys Arweinydd y Cyngor yn taeru, er bod aelodau Cabinet wedi bod yn rymus wrth herio a chraffu ar y ffordd yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn cyflawni ei rôl, na chafodd ei fwlio. Rwy'n nodi bod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi codi pryderon gydag Arweinydd y Cyngor ynghylch ei driniaeth yn 2019.

10 Fodd bynnag, ni wnaeth y Prif Weithredwr blaenorol godi ei bryderon dan bolisïau Adnoddau Dynol y Cyngor na thrwy gyfleu cwyn bod aelodau wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau. Felly nid ymchwiliwyd erioed i bryderon y Prif Weithredwr. O ganlyniad, ni phenderfynwyd a oedd sylwedd i'w bryderon ai peidio.

11 Nid yw fy rôl i fel archwilydd statudol y Cyngor yn ymestyn i ymchwilio i faterion cyflogaeth. Fodd bynnag, o ystyried arwyddocâd y mater hwn, rwy'n ystyried y dylai'r Cyngor gynnal adolygiad i ganfod a yw ei

fframwaith ar gyfer rheoli perthnasoedd rhwng aelodau ac uwch swyddogion yn gadarn a pha un a gydymffurfir ag ef. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys sicrhau bod eglurder ynghylch priod rolau aelodau a swyddogion ac egluro sut y dylid hysbysu am bryderon ynghylch perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion a mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

# Casgliad ar y cyfan

12 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r digwyddiadau a'r amgylchiadau sy'n ymwneud ag ymadawiad Prif Weithredwr y Cyngor gyda thaliad terfynu o £95,000. Fy nghasgliad ar y cyfan yw bod y broses a ddilynwyd gan y Cyngor ac a arweiniodd at y taliad yn enghraifft o fethiant difrifol mewn trefniadau llywodraethu. Mae'r adroddiad yn amlygu methiant i fynd i'r afael ag anawsterau a datrys anawsterau mewn perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion, diffyg eglurder ynghylch priod rolau a chyfrifoldebau, enghreifftiau o swyddogion yn methu â chyflawni eu dyletswyddau proffesiynol yn briodol, diystyru cyngor cyfreithiol allanol, methiant i ddilyn polisïau a gweithdrefnau mewnol, prosesau penderfynu gwael ac anhryloyw, methiant i ddogfennu ac adrodd ar y rhesymau dros benderfyniadau, aelodau'r Cyngor yn peidio â chael y cyfle i adolygu a chraffu ar y cynnig, a methiant i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

13 Yn fy marn i, mae gan y Cyngor lawer o waith i'w wneud i'w argyhoeddi ei hun bod ganddo drefniadau llywodraethu cadarn ac y cydymffurfir â'r trefniadau hyn. Nododd fy archwiliad hefyd bryderon diwylliannol ac ymddygiadol yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd ag ymadawiad y cyn Brif Weithredwr. Mae angen i'r Cyngor fodloni ei hun nad yw'r pryderon hyn yn symptomatig o broblem ehangach.

14 Rwyf wedi cael fy nghalonogi bod uwch swyddogion y Cyngor wedi cydnabod natur ddifrifol y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Rwyf hefyd yn cydnabod, ers Her Adolygu Corfforaethol dan arweiniad y Gymdeithas Llywodraeth Leol y cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor arno yn 2020, a ganfu agweddau cadarnhaol ar y Cyngor ac ystod o ystyriaethau a phryderon allweddol, bod y Cyngor wedi gweithredu i wella'i drefniadau llywodraethu a phenderfynu. Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen wella eang a pharhaus, ac mae hyn yn rhoi hyder i mi y bydd y Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir isod.

# Casgliadau manwl

- Daeth Arweinydd y Cyngor a'i Brif Weithredwr ar y pryd i gytundeb y byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth gyda thaliad o £95,000, ond ni chofnodwyd yn iawn ar ba sail yr oedd yn gadael nac am ba reswm yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu.
- Rhoddodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyfarwyddyd i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol ddrafftio Cytundeb Setlo mewn perthynas

ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu a oedd wedi'i negodi, ond nid oedd y cyfarwyddiadau'n seiliedig ar ffeithiau cadarn.

- Fe wnaeth ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor gynghori Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor i egluro a dogfennu ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth ac am ba reswm y byddai'n cael taliad terfynu o £95,000, ond ni weithredodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ar y cyngor hwn.
- Fe wnaeth ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor baratoi Cytundeb Setlo drafft yn seiliedig ar gyfarwyddiadau llafar y Pennaeth Adnoddau Dynol, ond fe newidiwyd y geiriad wedyn ar gyfarwyddiadau'r Arweinydd gan achosi i'r Cyngor fod yn agored i rwymedigaeth bosibl o ran treth.
- Roedd diffyg eglurder cyffredinol ynghylch pwy oedd yn cynghori pwy yn y negodiadau cyfreithiol ynglŷn â'r Cytundeb Setlo, a chafodd hyn ei waethygu am bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhannu cyngor cyfreithiol allanol y Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd gydag ef.
- Cafodd y penderfyniad i wneud taliad terfynu o £95,000 i Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor ei wneud fel penderfyniad gweithredol, a oedd yn anghywir, ac yn fy marn i roedd y taliad yn erbyn y gyfraith.
- Fe gododd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor bryder gyda Swyddog Monitro'r Cyngor efallai nad oedd y taliad arfaethedig i Brif Weithredwr y Cyngor yn cydymffurfio â datganiad ar bolisi tâl statudol y Cyngor. Ond nid ymdriniwyd â'r pryder hwn ac ymddengys fod y Cyngor wedi gwyro oddi wrth ei ddatganiad ar bolisi tâl heb allu dangos rheswm da dros fod wedi gwneud hynny.
- Roedd proses benderfynu'r Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad ei Brif Weithredwr gyda thaliad terfynu'n sylfaenol ddiffygiol ac ni chydymffurfiodd â gofynion deddfwriaethol.
- Cafodd y Prif Weithredwr blaenorol daliad terfynu o £95,000 cyn y dyddiad talu cytunedig a oedd wedi'i nodi yn y Cytundeb Setlo.
- Ni chafodd aelodau anweithredol y Cyngor y cyfle i adolygu a phenderfynu a ddylai'r Prif Weithredwr gael taliad terfynu.

# Argymhellion

**Argymhellion**

**Rolau a chyfrifoldebau**

A1 Dylai'r Cyngor sicrhau:

- bod priod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi cael eu diffinio'n glir.
- bod aelodau a swyddogion yn gallu dangos dealltwriaeth glir am eu priod rolau a chyfrifoldebau.
- bod perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion yn adeiladol ac yn seiliedig ar barch.

**Perthnasoedd rhwng Aelodau a Swyddogion**

A2 Dylai'r Cyngor adolygu pa un a yw ei drefniadau cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud ag aelodau/swyddogion yn addas ar gyfer y diben. Dylai hyn gynnwys:

- sicrhau bod ganddo fecanweithiau anffurfiol effeithiol i geisio datrysiad cynnar i anghydfodau ac osgoi sefyllfa lle maent yn cael eu huwchgyfeirio'n ddiangen trwy brosesau ffurfiol; a
- chryfhau'r adran o gyfansoddiad y Cyngor sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion fel ei bod yn cynnwys mecanwaith anffurfiol clir y gall swyddogion ei ddefnyddio i geisio datrys anawsterau o ran perthnasoedd ag aelodau.

**Gwneud penderfyniadau**

A3 Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod ei weithdrefnau penderfynu wedi'u nodi'n glir, yn cael eu deall ac yr ymlynir wrthynt, gan aelodau a swyddogion fel ei gilydd.
- sicrhau, wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio symiau sylweddol o arian cyhoeddus (fel a ddiffinnir gan y Cyngor), bod ystyriaethau gwerth am arian yn cael sylw priodol ac yn cael eu dogfennu'n iawn.
- sicrhau bod ei drefniadau penderfynu dirprwyedig yn addas ar gyfer y diben, a bod aelodau a swyddogion yn ymlynu wrth lefelau eu hawdurdod dirprwyedig.
- atgoffa aelodau a swyddogion na ddylai penderfyniadau arwyddocaol a/neu ddadleuol gael eu gwneud gan swyddogion gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig.

**Argymhellion**

- sicrhau atebolrwydd clir a chysondeb wrth sicrhau darpariaeth cyngor llywodraethu.

**Taliadau Terfynu**

A4 Dylai'r Cyngor sicrhau'r canlynol mewn perthynas â'r holl daliadau terfynu a wneir i Brif Swyddogion yn y dyfodol:

- eu bod yn cael eu hategu gan achosion busnes priodol.
- eu bod yn cael eu penderfynu yn unol â gofynion deddfwriaethol, cyfansoddiadol a datganiad cymeradwy'r Cyngor ar bolisi tâl.
- yr hysbysir yn eu cylch mewn ffordd dryloyw.

**Datganiad ar Bolisi Tâl**

A5 Dylai'r Cyngor adolygu a diweddaru ei ddatganiad ar bolisi tâl i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn darparu digon o hyblygrwydd mewn perthynas â thaliadau ymadael wrth derfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

**Caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol**

A6 Dylai'r Cyngor adolygu a gweithredu rhaglen o ymwybyddiaeth a hyfforddiant i swyddogion er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer caffael a defnyddio ymgynghorwyr allanol yn cael eu sefydlu'n llawn a'u bod yn cynnwys:

- rhoi sylw i ystyriaethau wrth benderfynu penodi ymgynghorwyr allanol ai peidio; a
- darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer ymgynghorwyr allanol.

**Cyfansoddiad y Cyngor**

A7 Dylai'r Cyngor adolygu ac ailysgrifennu ei Gyfansoddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol, bod ei gynnwys yn gyson drwyddo ac

**Argymhellion**

yn gyson ag unrhyw bolisïau a gweithdrefnau arwyddocaol sydd gan y Cyngor, ei fod yn hawdd ymgodymu ag ef a'i fod yn dilyn arfer da.

**Ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus**[1]

A8 Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod swyddogion ac aelodau'n deall eu rhwymedigaethau sylfaenol fel gweision cyhoeddus i ymlynu wrth Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).
- sicrhau bod staff yn ymwybodol sut y gallant godi pryderon pan ydynt yn dod ar draws ymddygiad sy'n mynd yn groes i Egwyddorion Nolan ac mewn perthynas ag aelodau, y Cod Ymddygiad Aelodau.

# Y camau nesaf

15 Yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor erbyn **14 Chwefror 2022** h.y. o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

16 O leiaf saith niwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned gan nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.

17 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau gweithredu (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

18 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol.

[1] Yn 2015, fe wnaeth y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus nodi saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a adwaenir hefyd fel Egwyddorion Nolan) sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb a etholir neu a benodir i swydd gyhoeddus

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

19 Ar 30 Tachwedd 2020, fe wnaeth Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig blaenorol[2] Cyngor Sir Penfro adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor dan delerau Cytundeb Setlo a lofnodwyd ar 27 Awst 2020[3]. Fe wnaeth y Prif Weithredwr blaenorol lofnodi'r Cytundeb Setlo fel y parti yr oedd y Cytundeb yn ymwneud ag ef, ac fe wnaeth Arweinydd y Cyngor[4] lofnodi'r Cytundeb ar ran y Cyngor.

20 O dan delerau'r Cytundeb Setlo, cafodd y Prif Weithredwr blaenorol daliad o £95,000. Talwyd y £30,000 cyntaf yn ddi-dreth.

21 Ar 2 Medi 2020, fe gyhoeddodd y Cyngor 'hysbysiad o benderfyniad' dyddiedig 1 Medi 2020 ar ei wefan. Roedd yr hysbysiad yn nodi bod Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor[5] wedi gwneud penderfyniad i "gymeradwyo swm o £95k yn unol â'r Cytundeb Setlo" ac yn cyfeirio at "gytundeb setlo y cytunwyd arno rhwng y Cyngor a phrif swyddog". Mae'r hysbysiad yn nodi mai'r rheswm dros y penderfyniad oedd "cyflawni cydnabyddiaeth ariannol deg a chyfiawn i ategu Cytundeb Setlo". Nid yw'r hysbysiad yn nodi mai Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd oedd y prif swyddog dan sylw, ond felly yr oedd hi.

22 Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad byr yn y cyfryngau a oedd yn dweud: "mae Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro ... wedi cyhoeddi heddiw ei fod yn bwriadu gadael y swydd trwy gydsyniad rhwng y ddwy ochr, yn amodol ar Gytundeb Setlo, yn dilyn ymgynghori rhwng yr Arweinydd a'r Cabinet. Mae penderfyniad mewn perthynas â'r Cytundeb Setlo wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor."

[2] Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at 'Brif Weithredwr blaenorol' y Cyngor neu 'Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd', mae'r cyfeiriadau hynny'n ymwneud â Mr Ian Westley a adawodd ei gyflogaeth gyda'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2020.

[3] Contract sy'n rhwymo mewn cyfraith yr ymrwymir iddo'n wirfoddol rhwng cyflogai a'i gyflogwr yw cytundeb setlo. Pan fo'r cyflogai'n ymrwymo i'r cytundeb, mae'r cyflogai'n ildio'i hawl i gyflwyno unrhyw hawliadau cyflogaeth a allai fod wedi bod ganddo yn erbyn ei gyflogwr gerbron tribiwnlys cyflogaeth.

[4] Mae cyfeiriadau at Arweinydd y Cyngor yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r Cynghorydd David Simpson, a weithredodd fel Arweinydd y Cyngor trwy gydol 2020, ac sy'n dal i fod yn y swydd honno.

[5] Mae cyfeiriadau at Gyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 y Cyngor yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Mr Jon Haswell a oedd yn dal y swydd hon trwy gydol 2020 ac sy'n dal i fod yn y swydd. Mae rôl Swyddog A151 yn rôl statudol. O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a rhaid iddynt sicrhau bod gan un o'u swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny'n briodol.

23 Lle mae un o brif swyddogion awdurdod lleol yn gadael ei gyflogaeth ac yn cael taliad terfynu, mae'n ofynnol hysbysu ynghylch y taliad hwnnw yn y nodyn datgelu cydnabyddiaeth ariannol sy'n rhan o gyfrifon blynyddol y Cyngor. Felly, rhaid i'r taliad i'r Prif Weithredwr blaenorol gael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2021-22. Mae fy archwilwyr yn archwilio'r holl daliadau a ddatgelir yn y nodyn cydnabyddiaeth ariannol i gadarnhau eu cywirdeb a'u bod wedi cael eu gwneud yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chyfansoddiad y Cyngor.

24 O dan amgylchiadau arferol ni fyddai fy archwilwyr yn archwilio taliad terfynu a wnaed i un o brif swyddogion y Cyngor nes bod y taliad hwnnw wedi cael ei ddatgelu yn natganiadau ariannol drafft y Cyngor. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roedd fy archwilwyr yn ystyried bod angen cynnal archwiliad cynnar o'r mater hwn am y rhesymau canlynol:

- ni roddodd y Cyngor unrhyw ragrybudd i'm harchwilwyr bod negodiadau'n mynd rhagddynt gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch ei ymadawiad posibl. Byddwn wedi disgwyl i'r Cyngor wneud fy archwilwyr yn ymwybodol o'r mater hwn.
- roedd diffyg eglurder yn ôl pob golwg wrth ystyried ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei swydd, pam yr oedd yn mynd i fod yn cael taliad terfynu, a sut y cyfrifwyd y taliad hwnnw.
- nid oedd fy archwilwyr yn ymwybodol sut yr oedd penderfyniadau ynghylch y mater hwn wedi cael eu gwneud. Lle mae un o brif swyddogion awdurdod lleol yn gadael ei swydd gyda thaliad terfynu, byddwn yn disgwyl i aelodau'r Cyngor, a hwythau'n cwrdd naill ai fel Cyngor llawn neu fel pwyllgor, fod wedi bod yn rhan o'r broses benderfynu. Yn yr achos hwn, nid oedd yn ymddangos bod y penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn na chan un o bwyllgorau'r Cyngor.
- Mae'n ofynnol cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau'r Cyngor pan fo'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud, naill ai yng nghofnodion y cyfarfod lle gwnaed y penderfyniad, neu fel adroddiad penderfynu pan wneir y penderfyniad gan aelod Cabinet unigol neu gan un o swyddogion y Cyngor dan bwerau wedi'u dirprwyo. Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi adroddiad penderfynu yn enw ei Gyfarwyddwr Adnoddau yn cymeradwyo'r arian, a oedd eisoes wedi cael ei gytuno dan y Cytundeb Setlo o £95,000 (gweler **paragraff 21**), ni chofnodwyd y penderfyniad i ymrwymo i Gytundeb Setlo a'r rhesymau dros wneud hynny.

25 Yng ngoleuni'r pryderon a nodir uchod, gofynnais i'm harchwilwyr gynnal archwiliad i gadarnhau:

- ar ba sail yr ymrwymodd y Cyngor i Gytundeb Setlo gyda'i Brif Weithredwr ar y pryd gan arwain at derfynu ei gyflogaeth ac at dalu £95,000 iddo;
- pa un a ddilynodd y Cyngor broses briodol a thryloyw wrth benderfynu gwneud taliad terfynu i'w Brif Weithredwr ar y pryd; a

- pha un a gydymffurfiodd y Cyngor â deddfwriaeth ac â'i Gyfansoddiad a pholisi tâl ei hun yn y ffordd yr ymdriniodd â'r mater hwn.

26 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n codi o'm harchwiliad.

## Daeth Arweinydd y Cyngor a'i Brif Weithredwr ar y pryd i gytundeb y byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth gyda thaliad o £95,000, ond ni chofnodwyd yn iawn ar ba sail yr oedd yn gadael nac am ba reswm yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu

### Yn erbyn cefnlen o adolygiad parhaus o strwythur uwch reolwyr y Cyngor a dirywiad yn y berthynas weithio rhwng y Prif Weithredwr ar y pryd a rhai aelodau Cabinet, ym mis Gorffennaf 2020 gofynnodd Arweinydd y Cyngor i swyddogion o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol drafod cytundeb ymadael gwirfoddol posibl gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd neu ei gynrychiolydd

27 Yn ystod 2019, fe ddechreuodd y Cyngor ystyried symleiddio'i strwythur uwch reolwyr am ei fod yn disgwyl y byddai hynny'n dwyn arbedion effeithlonrwydd. Roedd adolygiad mewnol wedi cael ei gynnal gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor ac wedi canfod rhai opsiynau ailstrwythuro. Fodd bynnag, nid oedd aelodau'r Cabinet yn gallu cytuno ar ffordd ymlaen.

28 Dywedodd y Prif Weithredwr blaenorol wrthym ei fod, yn ystod 2019, wedi cael llawer o sgyrsiau ynghylch "materion a oedd yn effeithio ar fy nghyflogaeth", ac fe hysbysodd yr Arweinydd tuag at ddiwedd 2019 ei fod wedi cael trafodaethau gyda'i gynrychiolydd Undeb Llafur ynghylch y materion hyn. Ym mis Ionawr 2020, gofynnodd Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd i Arweinydd y Cyngor gwrdd â'i gynrychiolydd Undeb Llafur i drafod materion a oedd yn ymwneud â'i gyflogaeth gyda'r Cyngor. Gofynnodd hefyd i Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd[6] a

[6] Mae cyfeiriadau at Swyddog Monitro'r Cyngor yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Ms Claire Jones a oedd yn dal y swydd hon trwy gydol 2020 a than ddiwedd mis Medi 2021 pan adawodd ei chyflogaeth gyda'r Cyngor. Mae swydd Swyddog Monitro'n swydd

Phennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor[7] fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Pan gafodd y cais hwn, fe gysylltodd yr Arweinydd â Thîm Cyflogaeth Arbenigol y Gymdeithas Llywodraeth Leol[8] (LGA) i geisio'u cymorth mewn perthynas â'r cyfarfod arfaethedig.

29 Mae e-bost at yr Arweinydd oddi wrth aelod o Dîm y Gymdeithas Llywodraeth Leol dyddiedig 28 Ionawr 2020 yn dynodi bod yr Arweinydd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn disgwyl mai diben y cyfarfod y gofynnwyd amdano oedd trafod y posibilrwydd o drefniant diswyddo a oedd yn dderbyniol i'r naill ochr a'r llall: "fe ddwedasoch chi [yr Arweinydd] fod y Prif Weithredwr a'i gynrychiolydd wedi gofyn am gyfarfod gyda chi a Phenaethiaid yr Adran Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol; ar yr wyneb mae hyn yn swnio'n addawol i'r graddau y gall y Prif Weithredwr fod yn dymuno dod i delerau y gall y ddwy ochr gytuno arnynt ar gyfer ei ymadawiad. Gelwir y drafodaeth hon yn 'sgwrs warchodedig'". Gofynnodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol i'r Arweinydd ddarparu copi ar ei gyfer o bolisi diswyddo'r Cyngor. Fe wnaeth hefyd bwysleisio ei bod yn bwysig bod Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn rhan o unrhyw drafodaethau. Dywedodd Swyddog Monitro blaenorol y Cyngor wrth fy archwilwyr ei bod hi'n bresennol mewn cyfarfod trwy gynhadledd ffôn a oedd yn cynnwys yr Arweinydd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn ystod neu oddeutu mis Chwefror 2020 i drafod negodiadau posibl gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd. Mae hi'n haeru ei bod wedi cynghori'r Arweinydd yn y cyfarfod hwn y byddai angen iddo gynnwys Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd[9] a'i Gyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 pe bai negodiadau'n mynd rhagddynt.

statudol. Mae'n ofynnol dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 bod pob prif awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr yn dynodi un o'u swyddogion (a gaiff ei adnabod fel "y swyddog monitro") fel y swyddog sy'n gyfrifol am ddyletswyddau penodol sy'n cynnwys adrodd ar faterion y mae ef/hi o'r farn eu bod yn, neu'n debygol o fod yn, anghyfreithlon neu'n gyfystyr â chamweinyddu. Mae Cyngor Sir Penfro hefyd wedi dynodi bod ei Swyddog Monitro'n gyfrifol am benderfynu sut i ddehongli a chymhwyso Cyfansoddiad y Cyngor ac am ddiweddaru'r Cyfansoddiad.

[7] Mae cyfeiriadau at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Mr Ceri Davies a oedd yn dal y swydd hon trwy gydol 2020 ac sy'n dal i fod yn y swydd.

[8] Y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol sydd, ar ran cynghorau sy'n aelodau, yn ceisio cefnogi, hyrwyddo a gwella llywodraeth leol.

[9] Mae cyfeiriadau at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Ms Claire Incledon a gynhaliodd y swydd hon drwy gydol 2020 ac a adawodd gyflogaeth y Cyngor ym mis Rhagfyr 2021. Mae swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn swydd statudol. O dan Adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) rhaid i awdurdodau lleol ddynodi un o'i swyddogion i gyflawni'r swyddogaethau gwasanaethau democrataidd yn Adran 9 o'r Mesur.

30 Dywedodd y Prif Weithredwr blaenorol wrth fy archwilwyr ei fod wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Arweinydd am ei fod yn ystyried bod y perthnasoedd rhyngddo ef a rhai aelodau o'r Cabinet wedi pallu. Mae'n haeru ei fod wedi cael ei fwlio a'i ddychrynu ac fe gododd ei bryderon mewn llythyr at yr Arweinydd dyddiedig 5 Tachwedd 2019. Yn y llythyr mae'n dweud: "fel a nodwyd yn ein trafodaeth gychwynnol, nid oes gennyf unrhyw ddewis ond rhoi fy ystyriaeth fwyaf dwys i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer trafod gyda chi a byddaf yn awdurdodi fy nghynrychiolydd Undeb Llafur i gael trafodaethau 'heb ragfarnu' gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Monitro er mwyn goleuo'r drafodaeth hon". Dywedodd y Prif Weithredwr blaenorol nad ymdriniwyd â'r pryderon yr oedd wedi'u codi gyda'r Arweinydd, a'i fod wedi dod i'r casgliad, er yn gyndyn, bod ei swydd fel Prif Weithredwr y Cyngor wedi dod yn annaliadwy.

31 Mae safbwynt yr Arweinydd ar y mater hwn yn wahanol. Dywedodd wrth fy archwilwyr, er bod perthnasoedd rhwng y Prif Weithredwr ar y pryd a rhai aelodau yn anodd, ac y gallai aelodau fod yn rymus weithiau wrth herio swyddogion, nad oedd ef yn ystyried bod lefel yr her yn afresymol, ac nad oedd yn ystyried bod perthnasoedd wedi pallu mewn modd di-droi'n-ôl. Cydnabu'r Arweinydd fod y Prif Weithredwr blaenorol wedi ei hysbysu bod ganddo ffeiliau a oedd yn dogfennu enghreifftiau o ymddygiad gwael gan aelodau ond ni rannodd gynnwys y ffeiliau hyn gydag ef. Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr, yn ei farn ef, nad oedd gan y Prif Weithredwr ar y pryd unrhyw seiliau i ddwyn hawliad cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

32 Nid yw fy nghylch gwaith statudol yn ymestyn i ddod i gasgliad pa un a oedd gan y Prif Weithredwr blaenorol seiliau i ddwyn hawliad cyflogaeth yn erbyn y Cyngor. Fodd bynnag, er mwyn ystyried pa broses y dylai'r Cyngor fod wedi ei dilyn wrth benderfynu gwneud y taliad terfynu, rwyf wedi gorfod ffurfio barn ar ôl ystyried pa un ai setlo hawliad cyflogaeth posibl y gallai fod wedi'i ddwyn yn erbyn y Cyngor oedd diben taliad y Cyngor o £95,000 i'w Brif Weithredwr ar y pryd.

33 Fel a nodir ym **mharagraff 30**, fe ysgrifennodd y Prif Weithredwr blaenorol at yr Arweinydd ar 5 Tachwedd 2019 yn nodi ei bryderon ynghylch ymddygiad un aelod Cabinet. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor unrhyw gofnod bod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi codi ei bryderon yn ffurfiol dan bolisïau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisïau cwynion cyflogaeth a bwlio. Ni wnaeth atgyfeirio achosion posibl o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau at y Pwyllgor Safonau nac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar ben hynny, ni roddodd rybudd i'r Cyngor o'i fwriad i ddwyn hawliad cyflogaeth yn erbyn y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr blaenorol wrth fy archwilwyr na chymerodd gamau gweithredu o'r fath am nad oedd yn dymuno niweidio enw da'r Cyngor.

34 Nid wyf wedi diystyru'r posibilrwydd bod gan y Prif Weithredwr blaenorol seiliau i ddwyn hawliad yn erbyn y Cyngor o bosibl. Rwy'n nodi bod Adolygiad Cymheiriaid

Corfforaethol o'r Cyngor[10] y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Chwefror 2020 wedi codi pryderon ynghylch materion o ran diwylliant, ymddygiad a pherthnasoedd o fewn y Cyngor. Fe argymhellodd y dylai'r Cyngor gydnabod bod "ymddygiad rhai aelodau etholedig yn gwbl amhriodol a dangos ar lefel uwch arweinwyr y penderfynoldeb ar y cyd sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r mater". Ar ben hynny, canfu adolygiad o strwythur uwch reolwyr y Cyngor a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[11] (CLILC), y cyhoeddwyd adroddiad arno ym mis Mehefin 2020, fod consensws eang ymhlith aelodau'r Cabinet bod "angen mynd ati ar y cyd i ddatblygu perthnasoedd gweithio rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ymhellach". Fodd bynnag, ni wnaeth y Cyngor ystyried a oedd tystiolaeth ar gael i ategu hawliad cyflogaeth posibl mewn perthynas â'r modd y cafodd ei Brif Weithredwr ar y pryd ei drin, nac i bennu bod £95,000 yn ddigolledaid priodol ar gyfer unrhyw hawliad o'r fath.

35 Rwyf felly'n ystyried ei bod yn annhebygol mai setlo hawliad posibl oedd diben y taliad a wnaed i'r Prif Weithredwr blaenorol ym mis Medi 2020. Os wyf yn anghywir ar y pwynt yma, methodd y Cyngor â dilyn ei bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol mewnol ei hun ar gyfer ymdrin â hawliadau cyflogaeth posibl a gwirioneddol.

36 Fe gytunodd yr Arweinydd i gwrdd â chynrychiolydd Undeb Llafur y Prif Weithredwr ar y pryd ar 4 Mawrth 2020 yn swyddfeydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn Llundain. Fe wnaeth dau swyddog o Dîm Cyflogaeth Arbenigol y Gymdeithas Llywodraeth Leol gefnogi'r Arweinydd yn y cyfarfod hwn, ac roedd Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd a'i Bennaeth Adnoddau Dynol yn bresennol hefyd. Nid oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn bresennol.

37 Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth fy archwilwyr fod cynrychiolydd y Prif Weithredwr ar y pryd wedi egluro yn y cyfarfod fod y Prif Weithredwr yn dymuno gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor naill ai ar sail ymddeoliad cynnar neu ar sail diswyddo gwirfoddol dan delerau polisïau diswyddo'r Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr ei fod, yn dilyn cael ei hysbysu ynghylch cost ymadawiad ar y telerau hyn i'r Cyngor, yn amharod i gytuno â'r ceisiadau hyn. Mae'n haeru ei fod wedi egluro wrth gynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol, er nad oedd cytundeb yn bosibl ar yr adeg honno, y gallai'r ymarfer maes o law i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli ddarparu cyfleoedd i'r Prif Weithredwr ar y pryd ymadael â'r Cyngor gyda phecyn terfynu y cytunwyd arno.

38 Dywedodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wrth fy archwilwyr fod "yr Arweinydd wedi cadarnhau yn y cyfarfod yn swyddfeydd y Gymdeithas

[10] Her Cymheiriaid Corfforaethol y Gymdeithas Llywodraeth Leol yng Nghyngor Sir Penfro, Adroddiad Adborth, Chwefror 2020

[11] Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ceisio cynrychioli buddiannau llywodraeth leol a hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hybu llywodraeth leol well, hybu ei henw da a chynorthwyo awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Llywodraeth Leol ar 4 Mawrth bod perthnasoedd wedi pallu" a'i fod "yn dymuno mynd ar drywydd trefniant ymadael a fyddai'n dderbyniol i'r ddwy ochr er mwyn osgoi unrhyw hawliad posibl neu gyhoeddusrwydd gwael ac wedi ailadrodd y ffaith honno pan ofynnodd [iddo] gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol allanol parthed: cytundeb setlo". Darparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nodiadau ar gyfer fy archwilwyr a oedd, yn ei ôl ef, yn nodiadau cyfamserol a wnaed ganddo o'r cyfarfod ar 4 Mawrth 2020. Mae gennyf reswm dros amau a oedd y nodiadau hyn yn gyfamserol mewn gwirionedd.

39 Ar wahân i'm pryder ynghylch y nodiadau a ddarparwyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol, nid yw'r nodiadau hyn yn gwbl gyson â'r ymateb a anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol at fy archwilwyr pan ofynnwyd iddo wneud sylwadau am gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Ar 13 Gorffennaf 2021, fe ysgrifennodd at fy archwilwyr gan ddweud, "roedd yr Arweinydd wedi cadarnhau yn y cyfarfod yn swyddfeydd y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar 4 Mawrth bod perthnasoedd wedi pallu". Fodd bynnag, mae nodiadau'r Pennaeth Adnoddau Dynol o'r cyfarfod ar 4 Mawrth 2020 yn nodi bod yr Arweinydd wedi dweud yn y cyfarfod hwnnw bod "dim problemau rhwng aelodau/ swyddogion" a bod "dim materion penodol rhwng [y Prif Weithredwr ar y pryd] ac aelodau Cabinet/yr Arweinydd ychwaith. Dywedodd [yr Arweinydd] hefyd ei fod yn hapus i [y Prif Weithredwr] barhau yn ei rôl a bod yr aelodau hwythau'n fodlon hefyd".

40 Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr, er bod perthnasoedd yn anodd, nad oedd yn ystyried bod perthnasoedd wedi pallu mewn modd di-droi'n-ôl ar adeg y cyfarfod ar 4 Mawrth 2020. Mae hyn yn gyson â'r nodiadau a gadwyd o'r cyfarfod ar 4 Mawrth gan gynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol (gweler **paragraff 42**). Mae'r Arweinydd hefyd yn haeru bod ei safbwynt wedi aros yn ddigyfnewid ar ôl y cyfarfod ar 4 Mawrth, a'i fod wedi cael sgyrsiau gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd pan y'i gwnaeth yn glir ei fod ef a'i gydweithwyr ar y Cabinet yn fodlon gweithio trwy unrhyw faterion gyda pherthnasoedd a oedd yn bodoli.

41 Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr hefyd na chytunodd i fynd ar drywydd "ymadawiad a fyddai'n dderbyniol i'r ddwy ochr" yn y cyfarfod ar 4 Mawrth, ond ei fod wedi dweud y gallai'r ymarfer i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli ddarparu cyfleoedd i'r Prif Weithredwr ar y pryd ymadael â'r Cyngor gyda phecyn diswyddo y cytunwyd arno. Nid oedd yn ystyried bod gan y Prif Weithredwr seiliau i ddwyn hawliad yn erbyn y Cyngor ac nid ofynnodd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol allanol i baratoi cytundeb setlo. Rwy'n nodi na wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol allanol i baratoi cytundeb setlo ar gais yr Arweinydd tan 12 Awst 2012 (gweler **paragraffau 82 i 86).**

42 Fe wnaeth cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol ddarparu nodiadau a gymerodd o'r cyfarfod ar gyfer fy archwilwyr. Mae'r nodiadau hyn yn nodi ei fod wedi codi pryderon ynghylch y ffordd yr oedd rhai aelodau o'r Cyngor wedi trin y Prif Weithredwr ar y pryd, ond bod yr Arweinydd wedi ymateb gan ddweud nad oedd yn credu bod problem fawr, a'i fod ef ac aelodau blaenllaw eraill yn hapus i barhau i weithio gydag ef. Mae'r nodiadau hefyd yn nodi'r canlynol:

- tynnodd cynrychiolydd y Prif Weithredwr ar y pryd sylw at y ffaith y gallai'r Prif Weithredwr ymgeisio am ddiswyddiad gwirfoddol dan gynllun diswyddo gwirfoddol y Cyngor, ond nad oedd yr Arweinydd yn "hoffi'r awgrym hwn" gan y byddai'n anodd iawn i'w gyflawni'n wleidyddol, gan y byddai angen iddo gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac y byddai ar y Cyngor angen Prif Weithredwr o hyd.
- tynnodd cynrychiolydd y Prif Weithredwr ar y pryd sylw at y ffaith y gallai ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli arwain at ddileu swydd y Prif Weithredwr gydag un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a fyddai'n weddill yn cael ei benodi'n Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig yn ychwanegol at ei brif rôl, neu fe allai rôl un o'r Cyfarwyddwr gael ei hailwampio i greu rôl 'Rheolwr Gyfarwyddwr'. Byddai hyn yn darparu'r cyfle i'r Prif Weithredwr ar y pryd adael "o ganlyniad i ailstrwythuro" a "chyda digolledìad priodol a heb yr angen am gymeradwyaeth yr aelodau".
- fe wnaeth yr Arweinydd gytuno ar y ffordd ymlaen, fel a nodir ym mhwynt bwled 2 uchod, ar y sail y gallai hyn fod yn dderbyniol yn wleidyddol, ond byddai angen i'r adolygiad i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli gael ei gynnal gan gorff allanol "i osgoi'r cyhuddiad bod unrhyw un o swyddogion y Cyngor wedi meddwl am gynnig y byddent yn elwa'n ariannol ohono". Mae'r nodiadau'n nodi bod cynrychiolydd y Prif Weithredwr ar y pryd wedi awgrymu bod y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cynnal yr adolygiad i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli.

43 Pe bai'r Arweinydd wedi cytuno y dylai'r adolygiad i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli gael ei ddefnyddio fel cyfrwng i sicrhau bod y Prif Weithredwr yn cael taliad terfynu sylweddol heb yr angen i geisio cymeradwyaeth y Cyngor llawn, fel y gellid ei gasglu o nodiadau cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol, yna byddai hynny'n fater difrifol iawn a byddai'n adlewyrchu'n wael iawn ar bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Fodd bynnag, yn y broses o wirio detholiadau o'r adroddiad hwn o ran cywirdeb ffeithiol, dywedodd cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol wrth fy archwilwyr na chafodd y senario y cyfeirir ato ym **mharagraff 42**; pwynt bwled 2 ei gynnig na'i drafod yn y geiriau a nodir uchod. Dywedodd fod y senario wedi cael ei gynnig fel un "opsiwn sy'n dderbyniol i mi ac a gymeradwyir gan ymgynghorwyr y Gymdeithas Llywodraeth Leol, i ganiatáu i'r Prif Weithredwr adael y sefydliad am gost resymol i'r Cyngor gan y byddai gostyngiad o ganlyniad yn niferoedd y staff ar yr [Uwch Dîm Rheoli]".

44 Rwyf hefyd yn nodi bod yr hyn a ddisgrifir yn nodiadau cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol o'r cyfarfod ar 4 Mawrth 2020 yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd. Fel a nodir ym **mharagraffau 46 i 49**, er bod ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol â'r Cyngor yn gysylltiedig â'r broses i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli, fe adawodd cyn cwblhau'r adolygiad. Ni chafodd ei ymadawiad unrhyw ddylanwad ar strwythur yr uwch dîm rheoli yn y dyfodol, ac ni chafodd y taliad a gafodd ym mis Medi 2020 ei bennu dan gynlluniau colli swyddi neu ddiswyddo gwirfoddol y Cyngor, ond ar sail negodi unigol. Serch hynny, mewn dwy ffordd

allweddol, ceir tebygrwydd rhwng y cynnig a nodir yn nodiadau cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol a'r hyn a ddigwyddodd:

- gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda pheth mewnbwn gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, gynnal adolygiad allanol, annibynnol o strwythur uwch dîm rheoli'r Cyngor; ac
- ni ofynnwyd i aelodau'r Cyngor gymeradwyo'r taliad terfynu o £95,000 a wnaed i'w Brif Weithredwr ar y pryd ym mis Medi 2020.

45 Mae Swyddog Monitro blaenorol y Cyngor yn haeru, yn dilyn y cyfarfod ar 4 Mawrth 2020, ei bod hi wedi cynghori'r Arweinydd unwaith eto y byddai angen iddo gynnwys Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd a'i Gyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151 pe bai negodiadau gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, mae hi'n haeru bod yr Arweinydd wedi dynodi mai dim ond cyngor Adnoddau Dynol a chyfreithiol allanol yr oedd arno ef eisiau ei gael mewn perthynas ag unrhyw negodiadau parhaus.

## Yn dilyn argymhelliad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fe gytunodd yr Arweinydd y byddai negodi'n digwydd ynghylch ymadawiad posibl y Prif Weithredwr ar y pryd â'r Cyngor gyda thaliad terfynu

46 Ar ryw adeg ar ddechrau mis Ebrill 2020, cafodd CLlLC, gyda mewnbwn gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, gomisiwn gan Arweinydd y Cyngor a'r aelod Cabinet dros Gyllid i "gwblhau [ymarfer Adolygu Uwch Reolwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor] er mwyn darparu cynnig gwrthrychol i'r Cabinet ei ystyried. Bydd angen i ganlyniad yr ymarfer hwn fod yn gynnig sy'n fodel uwch reolwyr cynaliadwy ar gyfer y dyfodol er mwyn gwarantu bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd effeithiol". Fe wnaed y trefniadau ar gyfer adolygiad CLlLC gan Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor.

47 Ar 20 Mai 2020, fe wnaeth Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Strategol CLlLC (Swyddog CLlLC) a oedd yn arwain y prosiect anfon neges e-bost at Arweinydd y Cyngor a oedd yn nodi manylion trafodaethau yr oedd ef wedi'u cael gyda'r Arweinydd ynghylch opsiynau ailstrwythuro. Roedd yr e-bost yn nodi'r canlynol:

- "efallai y bydd [y Prif Weithredwr] yn fodlon gadael ar sail diswyddiad gwirfoddol – os cefnogir hynny gan y Cabinet, a byddai'n ofynnol cael trafodaeth gyfrinachol gyda'r [Prif Weithredwr]
- pe bai'r [Prif Weithredwr] yn gadael – gellir hysbysebu'r swydd wag sy'n deillio o hynny yn genedlaethol a gwneud penodiad; gall ymgeiswyr mewnol ymgeisio, wrth gwrs – ni fydd unrhyw arbedion yn deillio
- os caiff yr opsiwn yma ei ffafrio, dylid ystyried gohirio'r adolygiad [o'r Uwch Reolwyr] nes bod y [Prif Weithredwr] newydd yn ei swydd".

48 Ar 24 Mehefin 2020, fe anfonodd Swyddog CLlLC gopi o'i adroddiad drafft 'Adolygiad Cyngor Sir Penfro o'r Strwythur Uwch Reolwyr' at Bennaeth Adnoddau

Dynol y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad bod Cabinet y Cyngor yn trafod gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd a oedd arno eisiau defnyddio'r Adolygiad fel cyfle i "ddatblygu capasiti strategol ei uwch dîm rheoli mewn ffordd sy'n ei alluogi ef i barhau i arwain y gwaith o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor" ynteu a oedd arno eisiau archwilio opsiynau eraill gan gynnwys diswyddiad gwirfoddol. Mae'r testun llawn sy'n ategu'r argymhelliad wedi'i gynnwys yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: adroddiad ar y strwythur uwch reolwyr a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Detholiad yn argymell trafodaeth 'heb ragfarnu' gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch trefniant diswyddiad gwirfoddol.

10.16 Cyn belled ag y mae'r Prif Weithredwr cyfredol yn y cwestiwn, gan ystyried -
(a) ei rôl o ran sefydlogi gweithrediad y Cyngor dros y pum mlynedd ddiwethaf fwy neu lai, a
(b) y dirwedd wahanol a mwy trawsnewidiol sy'n dod i'r amlwg yn glir mewn perthynas â'r cyfnod sydd i ddod, … mae cyfle'n bodoli i drafod gyda deiliad y swydd ar hyn o bryd – ar sail heb ragfarnu – a yw'n dymuno parhau i arwain y Cyngor a'i agenda drawsnewidiol ynteu a yw'n dymuno archwilio opsiynau eraill. Mae hwn yn fater o arwyddocâd personol mawr i'r Prif Weithredwr, a allai fod yn gwbl hapus i barhau yn ei rôl gyfredol, ond fe allai peidio â chael sgwrs o'r fath gydag ef ar y cam hwn fel rhan o'r adolygiad hwn brofi'n gyfle wedi'i golli i'r ddau barti.

10.17 Pe bai'r Cabinet yn ystyried bod hon yn adeg fanteisiol i archwilio opsiynau o ran swydd y Prif Weithredwr, ARGYMHELLIR bod trafodaeth gyfrinachol yn cael ei chynnal gyda'r Prif Weithredwr i ganfod a yw'n ystyried bod yr adolygiad hwn yn gyfle i ddatblygu capasiti strategol ei uwch dîm rheoli mewn ffordd sy'n ei alluogi i barhau i arwain y gwaith o gyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor, o fewn y cyd-destun a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ynteu a yw'n dymuno archwilio opsiynau eraill, yn gysylltiedig o bosibl â threfniant ymadael yn wirfoddol.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Cofnodion y Cyngor

49 Ar 17 Gorffennaf 2020, fe anfonodd Swyddog CLILC e-bost at Arweinydd y Cyngor yn dweud y byddai aelod o Dîm Cyflogaeth Arbenigol y Gymdeithas Llywodraeth Leol, ar gais yr Arweinydd, yn cael trafodaeth gyfrinachol gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd a/neu ei gynrychiolydd Undeb Llafur ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 10.17 o'r adroddiad ar ailstrwythuro uwch reolwyr (gweler **Arddangosyn 1**). Roedd yr e-bost yn nodi hefyd y byddai aelod o Dîm Cyflogaeth Arbenigol y Gymdeithas Llywodraeth Leol (Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol) yn cysylltu ag Arweinydd y Cyngor i gael cyfarwyddiadau'r Arweinydd.

## Daeth yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd i gytundeb mewn egwyddor y byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth ac y byddai'n cael taliad terfynu o £95,000, ond ni chofnodwyd yn iawn ar ba sail yr oedd yn gadael nac am ba reswm yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu

50 Ar 12 Awst 2020, cafwyd cyfarfod ar gais yr Arweinydd rhwng cynrychiolydd Undeb Llafur y Prif Weithredwr ar y pryd a Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Nid oedd unrhyw un o swyddogion nac aelodau'r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod.

51 Fel a nodir ym **mharagraffau 46 i 49**, dywedodd mai diben y cyfarfod oedd canfod a fyddai gan y Prif Weithredwr ar y pryd ddiddordeb mewn ymadael yn wirfoddol â'r Cyngor gyda thaliad terfynu ac, os felly, negodi cytundeb a oedd yn dderbyniol i'r naill ochr a'r llall (gweler **Arddangosyn 1**). Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr mai ei farn ef oedd y gallai trefniant o'r fath fod er lles y Cyngor yng ngoleuni'r ffaith bod y Prif Weithredwr wedi ei gwneud yn glir yr hoffai adael ei gyflogaeth, a bod y perthnasoedd rhyngddo ef a rhai aelodau dan straen. Fodd bynnag, roedd yn haeru, pe na bai cytundeb wedi bod yn bosibl, ei fod yn barod i weithio'n adeiladol gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd ar sail barhaus.

52 Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr nad oedd yn fodlon cefnogi taliad uwch na £95,000 am mai dyma oedd y cap deddfwriaethol a gynigir ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus. Felly nid oedd yn fodlon cefnogi cynnig i'r Prif Weithredwr ar y pryd gael ymddeoliad cynnar gwirfoddol neu ddiswyddiad gwirfoddol dan bolisïau diswyddo'r Cyngor. O dan y polisïau hynny, byddai'r gost i'r Cyngor wedi bod yn sylweddol uwch na £95,000, ac roedd yn ystyried na allai gyfiawnhau costau o'r fath, yn enwedig gan y byddai angen Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ar y Cyngor o hyd ac y byddai'n dal yn angenrheidiol cyflawni'r swyddogaethau a oedd yn cael eu cyflawni gan y Prif Weithredwr ar y pryd. Felly nid oedd y negodiadau gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd yn seiliedig ar delerau polisïau diswyddo cytunedig y Cyngor ond yn hytrach negodiadau pwrpasol ar sail unigol oeddent.

53 Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol wrth fy archwilwyr fod yr Arweinydd wedi ei gwneud yn glir iddo "na fyddai'n cefnogi taliad uwch na £95k gan nad oedd arno eisiau cyflwyno cynnig gerbron y Cyngor Llawn". Mae'r Arweinydd yn taeru na ddywedodd hynny. Mae'n haeru nad oedd yn fodlon cefnogi unrhyw gynnig bod y Cyngor yn gwneud taliad yr oedd ef ei hun yn ystyried ei fod yn ormodol ac, nes y byddai'n cael cyngor gan y Swyddog Monitro ar y pryd, mai ei dybiaeth ef oedd y byddai angen i unrhyw gynnig i roi taliad terfynu i'r Prif Weithredwr, beth bynnag fo'r swm, gael ei gyflwyno i'r Cyngor "i'w gymeradwyo mewn rhyw ffordd". Fel a nodir ym **mharagraffau 142 i 148**, rhoddodd Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd gyngor yn ddiweddarach bod yr Arweinydd yn gallu cymeradwyo taliad terfynu i'r Prif Weithredwr ar y pryd ar y sail bod y taliad yn llai na £100,000.

54 Dywedodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth fy archwilwyr na wnaeth yr Arweinydd ei gyfarwyddo i drafod na negodi setliad mewn perthynas â hawliadau cyflogaeth posibl gyda chynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol, ac yn ei gyfarfod gyda chynrychiolydd y Prif Weithredwr ar 12 Awst 2020, ni chyflwynwyd ac ni thrafodwyd unrhyw hawliad(au). Dywedodd wrth fy archwilwyr mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod y Prif Weithredwr yn awyddus i adael y Cyngor, ac nad oedd gan rai aelodau o'r Cabinet hyder llawn ynddo. Felly roedd yn ceisio, ar gyfarwyddiadau'r Arweinydd, negodi ymadawiad gwirfoddol "er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth".

55 Dywedodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth fy archwilwyr hefyd mai ei ddealltwriaeth ef oedd y gall fod dau reswm pam fod y cytundeb hwn er lles y Cyngor:

- "nid oedd y Cyngor yn teimlo bod y Prif Weithredwr yn meddu ar y sgiliau a chymwyseddau cywir i symud y Cyngor yn ei flaen ar ei thaith wella", ac
- roedd cynrychiolydd y Prif Weithredwr ar y pryd yn haeru "bod y Prif Weithredwr wedi dioddef bwlio gan nifer o uwch aelodau etholedig a'i fod yn barod i ganlyn arni â chŵyn cyflogaeth yn y cyd-destun hwn". Dywedodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth fy archwilwyr yr ystyrid felly bod ymadawiad y Prif Weithredwr "er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth".

56 Dywedodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth fy archwilwyr, er bod y negodiadau wedi'u bwriadu i gytuno ar delerau a oedd yn dderbyniol i'r ddwy ochr ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr, mai "canlyniad pwysig i'r Cyngor oedd cytuno ar gytundeb setlo lle'r oedd y Prif Weithredwr yn ildio'i hawl i ddwyn unrhyw hawliadau yn erbyn y Cyngor yn y dyfodol a oedd yn deillio o'i gyflogaeth".

57 Mae'r Prif Weithredwr blaenorol wedi dweud wrth fy archwilwyr mai diben y taliad o £95,000 oedd setlo hawliad cyflogaeth y gallai fod wedi'i ddwyn yn erbyn y Cyngor. Fel a nodir ym **mharagraffau 27 i 35**, nid wyf yn gallu cadarnhau a oedd gan y Prif Weithredwr blaenorol seiliau i ddwyn hawliad yn erbyn y Cyngor Fodd bynnag, rwyf wedi fy argyhoeddi nad oedd y Cyngor wedi ystyried a oedd tystiolaeth ar gael i ategu hawliad cyflogaeth posibl mewn perthynas â'r Prif Weithredwr ar y pryd nac i benderfynu bod £95,000 yn ddigollediad priodol ar gyfer unrhyw hawliad o'r fath. Mae felly'n ymddangos yn annhebygol i mi bod y taliad a wnaed i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn gysylltiedig â hawliad cyflogaeth posibl. Rwyf hefyd yn nodi:

- bod y cyfarfod ar 12 Awst 2020 wedi cael ei gynnal mewn ymateb i argymhelliad yn yr adolygiad allanol o ailstrwythuro uwch reolwyr y Cyngor (**Arddangosyn 1**). Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â'r broses ailstrwythuro ac nid oedd yn cyfeirio at hawliad cyflogaeth posibl o gwbl.
- fel a nodir ym **mharagraff 54**, bod swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd yn cynnal y negodiadau ar ran y Cyngor yn haeru na wnaeth yr Arweinydd ei gyfarwyddo i drafod na negodi setliad mewn perthynas â hawliadau cyflogaeth posibl gyda chynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol, ac yn ei gyfarfod gyda chynrychiolydd y Prif Weithredwr, ni chyflwynwyd ac ni thrafodwyd unrhyw hawliadau o'r fath.

- nad oedd yr hawliad o £95,000 yn gysylltiedig â gwerth hawliad posibl ond ei fod yn seiliedig ar y cam deddfwriaethol a gynigir ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus.

58 Ar 12 Awst 2020, ar ôl ei gyfarfod gyda chynrychiolydd y Prif Weithredwr, anfonodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol e-bost at Arweinydd y Cyngor yn nodi ei fod wedi "cyflwyno'r cynnig i [gynrychiolydd Undeb Llafur y Prif Weithredwr] fel y gorau y gellir ei gyflawni". Yn ddiweddarach yr un diwrnod, fe ysgrifennodd Swyddog CLlLC a oedd wedi cynnal yr adolygiad o'r strwythur uwch reolwyr at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyda nifer o fân ymholiadau mewn perthynas â thelerau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr ar y pryd yr oedd angen eu hegluro i benderfynu ar y cynnig terfynol. Hefyd, roedd yr e-bost yn gofyn i'r Pennaeth Adnoddau Dynol:

- "i adael i mi gael manylion dogfennol polisi'r Cyngor sy'n awdurdodi [Arweinydd y Cyngor] i gymeradwyo'r taliad digolledu arfaethedig o £95,000 i'r Prif Weithredwr; wrth reswm mae ar [yr Arweinydd] angen sicrwydd bod ganddo ganiatâd i awdurdodi'r taliad arfaethedig hwn.
- yn ychwanegol at y cais blaenorol, a hefyd mewn ystyr ehangach, a wnewch chi geisio cyngor cyfreithiol os gwelwch yn dda ynghylch pa adroddiad ffurfiol – os o gwbl – y bydd angen ei gyflwyno i Aelodau mewn perthynas â'r taliad digolledu, neu unrhyw fater arall mewn perthynas ag ymadawiad posibl y Prif Weithredwr â'r Cyngor.
- a wnewch chi siarad gyda'r Swyddog Cyfreithiol perthnasol i ddechrau drafftio Cytundeb Setlo cyn gynted â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd angen cytuno ar Eirda a Datganiad i'r Wasg rhwng y ddwy ochr, felly mae angen cyfeirio at hyn yn y Cytundeb Setlo os gwelwch yn dda."

59 Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod hefyd wedi cael galwad ffôn gan yr Arweinydd ar 12 Awst 2020 yn gofyn iddo gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol i baratoi cytundeb setlo, (ac fe gyfarwyddodd ymgynghorwyr cyfreithiol y prynhawn hwnnw). Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn haeru, yn y sgwrs ffôn honno:

- ei fod wedi gofyn i'r Arweinydd a oedd yn dymuno i'r Cytundeb Setlo gael ei ddrafftio o fewn y Cyngor ynteu'n allanol, a bod yr Arweinydd wedi cadarnhau bod arno eisiau i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol ei baratoi.
- bod yr Arweinydd wedi dweud wrtho bod "perthnasoedd wedi methu a bod angen i ni wneud rhywbeth am y peth".
- ei fod wedi gofyn i'r Arweinydd sut y pennwyd y taliad o £95,000, a bod yr Arweinydd wedi dweud wrtho "ei fod yn gyfwerth â'r cap o £95k a gynigir ar gyfer y sector cyhoeddus ac na fyddai'n ofynnol iddo gyflwyno'r cynnig gerbron y Cyngor llawn gan nad oedd yn barod i wneud hynny".

60 Mae'r Arweinydd yn herio'r hyn a ddywedwyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. Mae'n haeru nad oedd ef na'i gydweithwyr ar y Cabinet yn ystyried bod

perthnasoedd wedi pallu, a'u bod yn barod i weithio trwy unrhyw faterion a oedd gan y Prif Weithredwr ar y pryd, ond ei bod wedi dod yn glir iddo ef nad oedd y Prif Weithredwr yn dymuno parhau i fod yn gyflogedig gan y Cyngor mwyach.

61 Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd yn haeru, yn y sgwrs ffôn ar 12 Awst 2020, bod yr Arweinydd wedi dweud wrtho "na fyddai'n ofyniad ei fod yn cyflwyno'r cynnig gerbron y Cyngor llawn". Fel a nodir ym **mharagraff 58**, ar 12 Awst 2020, fe anfonodd Swyddog CLILC e-bost at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn gofyn am gadarnhad pa un a oedd gan yr Arweinydd yr awdurdod gofynnol i awdurdodi taliad o £95,000 i'w Brif Weithredwr ar y pryd. Fe wnaeth Swyddog CLILC y cais hwn am gyngor oherwydd wrth reswm mae ar yr Arweinydd "angen sicrwydd bod ganddo ganiatâd i awdurdodi'r taliad arfaethedig hwn". Fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y cais ymlaen at y Swyddog Monitro yr un diwrnod. Nid anfonodd y Swyddog Monitro ei chyngor ynghylch y mater hwn at y Pennaeth Adnoddau Dynol tan 23:02 ar 12 Awst 2020. Mae felly'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r Arweinydd wedi hysbysu'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn gynharach y diwrnod hwnnw na fyddai angen cyflwyno'r cynnig gerbron y Cyngor llawn, o ystyried nad oedd cyngor y Swyddog Monitro ynghylch sut y dylid cymeradwyo'r taliad wedi dod i law eto.

62 Darparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nodiadau y mae ef yn haeru eu bod yn nodiadau cyfamserol a gymerwyd ganddo ef o'r sgwrs ffôn sy'n ategu ei gyfrif ef o'r sgwrs ffôn ar 12 Awst 2020. Mae gennyf reswm dros amau a oedd y nodiadau hyn yn gyfamserol mewn gwirionedd.

63 Yr un prynhawn, 12 Awst 2020, rhoddodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyfarwyddiadau ar lafar i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol ddrafftio cytundeb setlo. Rwy'n cyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn ym **mharagraffau 81 i 91**.

64 Am 15:32 ar 12 Awst 2020, anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol e-bost at Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd yn gofyn am gyngor ynghylch y ddau bwynt bwled cyntaf ym **mharagraff 58**. Fe ymatebodd y Swyddog Monitro i'r Pennaeth Adnoddau Dynol yr un diwrnod gan roi cyngor wedi'i gyfamodi bod yr Arweinydd yn gallu awdurdodi taliad o £95,000 ac, os oedd yr Arweinydd yn mynd i fod yn gwneud y penderfyniad hwnnw, y byddai angen iddo'i gofnodi fel penderfyniad gan Aelod Cabinet Unigol gan ddefnyddio Adroddiad ar Benderfyniad gan Aelod Cabinet Unigol (Adroddiad ICM). Caiff y cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro blaenorol ei ystyried ym **mharagraffau 142 i 162**.

65 Ar 13 Awst 2020, anfonodd Swyddog CLILC e-bost at yr Arweinydd, gyda chopi at y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, yn nodi bod y cynnig wedi cael ei drafod gan Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol gyda chynrychiolydd Undeb Llafur y Prif Weithredwr y diwrnod blaenorol. Caiff manylion y cynnig hwn eu nodi yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: crynodeb o'r cynnig a gyflwynwyd i'r Prif Weithredwr blaenorol gan Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol**

- "Mae Swyddog Monitro'r Cyngor wedi cadarnhau yn ysgrifenedig bod gennych chi'r awdurdod – fel Arweinydd y Cyngor – i gytuno ar daliad digolledu o £95,000
- Bydd angen adroddiad ICM (Aelod Cabinet Unigol) safonol, y bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ei baratoi ar eich rhan
- Mae'r Prif Weithredwr wedi dynodi y bydd yn cyflwyno'i hysbysiad (dros dro) i chi'n fuan, ar yr amod bod Cytundeb Setlo'n cael ei gytuno a'i lofnodi yn dilyn hyn
- Mae [cwmni] cyfreithwyr wedi cael comisiwn i fynd ati'n annibynnol i baratoi Cytundeb Setlo; bydd hwn ar gael yn gynnar wythnos nesaf
- 32 diwrnod yw hawl y Prif Weithredwr i wyliau blynyddol ar gyfer blwyddyn galendr 2020; mae 5 diwrnod wedi'u cario ymlaen o'r llynedd
- Diwrnod olaf cyflogaeth y Prif Weithredwr fydd 3 mis o'r dyddiad y cyflwynir rhybudd, h.y. tua diwedd mis Tachwedd 2020; bydd y Prif Weithredwr yn dal i fod yn ei waith hyd at ddyddiad y byddir yn cytuno arno (tua diwedd mis Medi), gyda gwyliau blynyddol sydd heb ei gymryd eto'n cael ei gymryd yn ystod gweddill cyfnod y rhybudd
- Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu hymgorffori yn y Cytundeb Setlo arfaethedig."

Ffynhonnell yr arddangosyn: E-bost dyddiedig 13 Awst 2020 oddi wrth Swyddog CLILC at Arweinydd y Cyngor

66 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi bod y Prif Weithredwr blaenorol yn fodlon rhoi rhybudd dros dro o'i ymddiswyddiad, yn amodol ar nodi telerau'r cynnig mewn Cytundeb Setlo y cytunwyd arno ac a lofnodwyd. Rwy'n nodi bod ymddiswyddiad y Prif Weithredwr yn amodol, h.y. dim ond os byddai'r cynnig a negodwyd, a oedd yn cynnwys taliad iddo ef o £95,000, yn cael ei gynnwys mewn cytundeb a oedd yn rhwymo mewn cyfraith y byddai'n ymddiswyddo. Mae'r e-bost hefyd yn dynodi bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ill dau wedi cael eu hysbysu ynghylch cyngor y Swyddog Monitro bod gan yr Arweinydd awdurdod i gytuno ar y taliad i'r Prif Weithredwr ar y pryd, ac y byddai'n rhaid i benderfyniad yr Arweinydd gael ei gofnodi mewn Adroddiad ICM. Nid yw'r e-bost yn nodi cyfamodau a gafodd eu cynnwys gan y Swyddog Monitro ar y pryd yn y cyngor a e-bostiwyd ganddi ar 12 Awst 2020 (**paragraff 145**).

67 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, 13 Awst 2020, cyfarfu Arweinydd y Cyngor â'r Prif Weithredwr ar y pryd i gael eglurder ynghylch nifer fach o bwyntiau o fanylder yn y cytundeb arfaethedig. Yn dilyn y cyfarfod hwn, fe anfonodd y Prif Weithredwr nodyn o'r cyfarfod a oedd yn disgrifio'r hyn y cytunwyd arno at yr Arweinydd, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Swyddog CLILC a oedd wedi cynnal yr adolygiad ailstrwythuro uwch reolwyr. Fe ymatebodd yr Arweinydd gan gadarnhau ei fod yn cytuno â'r cynnwys. Roedd yr e-bost yn cadarnhau y daethpwyd i gytundeb yn amodol ar lofnodi Cytundeb Setlo.

68 Mae gennyf bryderon ynghylch y broses a arweiniodd at gytundeb mewn egwyddor rhwng yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr y byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor gyda thaliad terfynu.

69 Rwy'n derbyn bod gan yr Arweinydd hawl i weithredu ar yr argymhelliad bod trafodaeth heb ragfarnu'n cael ei chynnal gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd ynglŷn â'i ddyfodol gyda'r Cyngor. Roedd yr argymhelliad hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ailstrwythuro uwch reolwyr a baratowyd gan CLILC, a ddaeth i law'r Arweinydd ar 24 Mehefin 2020 (gweler **Arddangosyn 1**). Dywedodd yr Arweinydd wrth fy archwilwyr ei fod wedi trafod yr argymhelliad gyda'i gydweithwyr ar y Cabinet a gytunodd i archwilio pa un a oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn dymuno parhau yn ei rôl, ynteu a fyddai'n well ganddo adael ei gyflogaeth gyda thaliad ymadael.

70 Rwyf hefyd yn derbyn bod manteision i'w cael o ddefnyddio sefydliad trydydd parti annibynnol fel y Gymdeithas Llywodraeth Leol i gefnogi'r Cyngor yn y trafodaethau hyn oherwydd sensitifrwydd y drafodaeth, ac am bod canlyniad y trafodaethau'n dwyn goblygiadau posibl ar gyfer y broses ailstrwythuro'r uwch reolwyr a oedd ar fin cael ei chynnal.

71 Fodd bynnag, yn fy marn i, fe wnaeth Arweinydd y Cyngor gamfarnu pan benderfynodd beidio â chynnwys swyddogion yn y Cyngor oedd ag arbenigedd proffesiynol perthnasol yn y negodiadau a ddigwyddodd. Er nad oes gennyf unrhyw reswm dros gwestiynu arbenigedd swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol a gynhaliodd y negodiadau, ni allai gynghori ynghylch prosesau penderfynu mewnol y Cyngor, ac nid oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor wedi dogfennu'r canlynol yn iawn:

- yr amgylchiadau a arweiniodd at y negodiadau gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd;
- yr achos dros ganiatáu i'r Prif Weithredwr ar y pryd adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor gyda thaliad terfynu;
- diben y taliad arfaethedig a sut y cafodd ei gyfrifo; a
- sut yr oedd y taliad arfaethedig yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.

72 Byddai darparu trywydd archwilio wedi'i ddogfennu o drefniant diswyddo arfaethedig, dan amgylchiadau arferol, wedi bod yn swyddogaeth a gyflawnir gan swyddogion y Cyngor i oleuo'r broses benderfynu fewnol ac i sicrhau ei bod yn glir pa ystyriaethau y rhoddwyd sylw iddynt wrth ddod i benderfyniad i ganiatáu pecyn diswyddo i brif swyddog.

73 Roedd y ffaith bod swyddogion y Cyngor yn absennol o'r negodiadau'n golygu, erbyn yr adeg yr oedd cytundeb mewn egwyddor wedi cael ei lunio, nad oedd y ddogfennaeth a oedd yn angenrheidiol i oleuo'r broses benderfynu fewnol a'r cyfarwyddiadau cyfreithiol i baratoi Cytundeb Setlo wedi cael ei sefydlu.

74 Roedd methu â dogfennu'r materion hyn yn amryfusedd difrifol a arweiniodd at ansicrwydd ynghylch:

- y sail ar gyfer ymadawiad a thaliad y Prif Weithredwr blaenorol. Mae'r Prif Weithredwr blaenorol yn haeru mai setlo hawliad cyflogaeth posibl oedd diben y taliad. Fodd bynnag, mae'r Arweinydd yn haeru nad dyma oedd diben y taliad. Mae negeseuon e-bost mewnol rhwng swyddogion a fu'n rhan o gynghori ynghylch y broses benderfynu fewnol yn dynodi eu bod yn dal heb weld y rheswm dros y taliad ar ôl i'r Cytundeb Setlo gael ei lofnodi.
- y broses benderfynu fewnol briodol. Dylai natur y taliad fod wedi pennu'r broses gymeradwyo y byddai'[r Cyngor yn ei dilyn. Mae gan y Cyngor brosesau ar wahân ar gyfer setlo hawliadau cyflogaeth posibl a phenderfynu ar becynnau diswyddo mewn perthynas â phrif swyddogion. Fel y digwyddodd hi, ni ddilynodd y Cyngor y naill broses na'r llall yn iawn.

75 Rwy'n ystyried y dylai swyddogion y Cyngor fod wedi cael eu cynnwys yn y negodiadau o'r dechrau un i sicrhau bod dealltwriaeth lawn am y sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol â'i gyflogaeth, y rheswm pam yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu, a sut y cyfrifwyd y taliad hwnnw. Dylai'r materion hyn fod wedi cael eu dogfennu'n iawn. Gallai'r methiant i ddogfennu'r materion a nodir ym **mharagraff 74** fod wedi cael ei unioni ar ôl dod i gytundeb mewn egwyddor, oherwydd nid oedd y broses benderfynu fewnol ffurfiol wedi dechrau ar y cam hwnnw ac nid oedd y Cyngor yn ymrwymedig i wneud taliad terfynu i'w Brif Weithredwr ar y pryd. Fodd bynnag, ni chafodd ei unioni.

76 Fel a nodir ym **mharagraff 58**, fe ysgrifennodd swyddog CLlLC at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn ceisio cyngor ynghylch y broses benderfynu fewnol y byddai angen ei dilyn, a gofynnodd am ddrafftio Cytundeb Setlo. Byddai'r Cytundeb Setlo a fyddai'n cael ei lofnodi'n gontract cyfreithiol rhwng y Cyngor a'i Brif Weithredwr ar y pryd. Fe wnaeth Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol allanol i ddrafftio Cytundeb Setlo a gofyn i Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd i gynghori ynghylch y broses benderfynu fewnol.

77 Cyn gweithredu ar y ceisiadau hyn, rwy'n ystyried y dylai'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Monitro ar y pryd fod wedi ceisio rhagor o wybodaeth i ganfod ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr yn mynd i fod yn gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor, y rheswm dros y taliad, a'r achos busnes i ategu'r cynnig. Roedd yr wybodaeth hon yn hanfodol i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniad gwybodus pa un a ddylid cymeradwyo'r cynnig.

78 Yn fy marn i, ni wnaeth y Swyddog Monitro blaenorol na'r Pennaeth Adnoddau Dynol ddigon o ymdrech i gael eglurder ynghylch y materion hyn. Pe baent wedi gwneud hynny, byddai wedi dod yn amlwg nad oedd y materion hyn wedi cael eu dogfennu. Nid yw'n glir i mi ychwaith sut, yn niffyg yr wybodaeth hon, yr oedd y Swyddog Monitro blaenorol yn gallu sicrhau bod ei chyngor ynghylch y broses benderfynu briodol yn gywir, ac yr oedd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn gallu rhoi cyfarwyddiadau cywir i'r ymgynghorwyr cyfreithiol a gafodd orchwyl i ddrafftio'r Cytundeb Setlo.

79 Rwy'n nodi bod ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor, ar 12 Awst 2020, wedi cynghori'r Pennaeth Adnoddau Dynol ynghylch yr angen i ddogfennu'r rheswm dros derfynu a'r sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad terfynu (gweler **paragraffau 118 i 137**). Ni weithredwyd ar y cyngor hwn.

80 Dywedodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wrth fy archwilwyr ei fod yn ystyried nad rôl swyddogion y Cyngor, ond yn hytrach rôl swyddogion y Gymdeithas Llywodraeth Leol a CLILC oedd dogfennu "yr holl wybodaeth angenrheidiol a bod yn glir beth oedd y rhesymeg dros gytuno ar setliad o £95k". Rwy'n anghytuno â'r Pennaeth Adnoddau Dynol. Mae gan y Cyngor swyddogion penodedig sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod gofynion prosesau penderfynu mewnol y Cyngor wedi cael eu dilyn, a bod tystiolaeth ddogfennol ddigonol ar gael i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus.

## Rhoddodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyfarwyddyd i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol ddrafftio Cytundeb Setlo mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu a oedd wedi'i negodi, ond nid oedd y cyfarwyddiadau'n seiliedig ar ffeithiau cadarn

81 Fel a nodir ym **mharagraff 58**, ar 12 Awst 2020, cafodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gais trwy Swyddog CLILC i ddrafftio Cytundeb Setlo a fyddai'n rhwymo mewn cyfraith i ffurfioli'r cytundeb a negodwyd y byddai'r Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor gyda thaliad terfynu o £95,000.

82 Yn ddiweddarach yr un diwrnod, rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gyfarwyddyd ar lafar i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol lunio Cytundeb Setlo. Y prynhawn hwnnw, anfonodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor e-bost at y Pennaeth Adnoddau Dynol yn nodi'r cyfarwyddiadau yr oeddent wedi'u cael ganddo: "mae [y Prif Weithredwr] yn ystyried gadael a chymryd ei bensiwn, er y byddai hynny ar sail ychydig yn is. Canlyniad trafodaethau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt am beth amser yw hyn, o ystyried anawsterau y mae wedi bod yn eu hwynebu gan rai aelodau o'r Cyngor, gan gynnwys aelodau Cabinet. Yn wir, fe egluroch chi fod y driniaeth y mae [y Prif Weithredwr ar y pryd] wedi bod yn ei dioddef, mewn rhai achosion, yn driniaeth y gellid ystyried ei bod yn gyfystyr â bwlio".

83 Ymddengys o'r neges e-bost hon fod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhoi cyfarwyddyd ar lafar i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor mai'r rheswm yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth oedd bod anghydfod cyflogaeth ac y gallai fod wedi dioddef ymddygiad a oedd yn gyfystyr â bwlio. Mae neges e-bost bellach at y Pennaeth Adnoddau Dynol oddi wrth ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ar 19 Awst 2020 yn nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi dweud

wrthynt bod y taliad terfynu'n "daliad digolledu diledryw o ystyried y gallai [y Prif Weithredwr ar y pryd], er enghraifft, ddwyn achos am ddiswyddo deongliadol yng ngoleuni trafodaethau sydd wedi digwydd".

84 Dywedodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor wrth fy archwilwyr eu bod wedi drafftio'r Cytundeb Setlo yn seiliedig ar y cyfarwyddiadau ar lafar a ddarparwyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'u bod yn deall o'r cyfarwyddiadau hynny mai diben y Cytundeb Setlo oedd setlo anghydfod cyflogaeth. Dywedasant wrth fy archwilwyr na wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol eu cyfarwyddo i gynghori pa un a oedd gan y Prif Weithredwr ar y pryd hawliad posibl ai peidio, ac na chawsant unrhyw dystiolaeth ychwaith bod ganddo seiliau i ddwyn hawliad yn erbyn y Cyngor.

85 Rwy'n cydnabod mai diben cytundeb setlo yw setlo'r holl hawliadau, yn rhai posibl neu wirioneddol, y gallai cyflogai eu dwyn yn erbyn ei g/chyflogwr, ac felly bod y Prif Weithredwr ar y pryd yn ildio'i hawl i ddwyn hawliadau yn erbyn y Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, ymddengys fod Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ar lafar mai setlo anghydfod cyflogaeth penodol a allai fod yn sail i'r Prif Weithredwr "ddwyn achos am ddiswyddo deongliadol yng ngoleuni trafodaethau sydd wedi digwydd" (gweler **paragraff 83**).

86 Dywedodd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wrth fy archwilwyr fod y cyfarwyddiadau ar lafar a roddodd i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â'r Cytundeb Setlo wedi cael eu rhoi iddo ef gan yr Arweinydd mewn sgwrs ffôn ar 12 Awst 2020 (**paragraffau 59 i 62**). Darparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nodiadau ar gyfer fy archwilwyr a oedd yn ei ôl ef yn nodiadau cyfamserol a gymerwyd ganddo o'r sgwrs ffôn. Mae'r nodiadau hyn yn nodi bod yr Arweinydd wedi dweud wrth y Pennaeth Adnoddau Dynol: "perthnasoedd wedi methu – mor wael, allwn ni ddim parhau fel hyn, rhaid gwneud rhywbeth am y peth". Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi bod yr Arweinydd wedi dweud wrth y Pennaeth Adnoddau Dynol mai setlo hawliad posibl y gallai'r Prif Weithredwr ar y pryd ei ddwyn yn erbyn y Cyngor oedd diben y taliad arfaethedig.

87 Dywedodd yr Arweinydd a Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol a gynhaliodd y negodiadau ar ran y Cyngor wrth fy archwilwyr mai diben y negodiadau oedd pennu a ellid llunio trefniant ar gyfer diswyddiad gwirfoddol y gallai'r naill ochr a'r llall gytuno ag ef, a bod hyn wedi dilyn o argymhelliad a wnaed yn adroddiad CLILC ar y strwythur uwch reolwyr (**paragraffau 50 i 56**).

88 Dywedodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth fy archwilwyr hefyd ei fod yn ymwybodol bod cynrychiolydd y Prif Weithredwr blaenorol yn ystyried ei fod wedi cael ei fwlio. Roedd felly'n ganlyniad pwysig i'r Cyngor, wrth gytuno ar ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda thaliad terfynu, y byddai angen iddo ildio'i hawl i ddwyn hawliadau yn erbyn y Cyngor trwy lofnodi cytundeb setlo. Fodd bynnag, mae Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn haeru, yn ystod y negodiadau, na thrafodwyd unrhyw hawliadau cyflogaeth posibl, ac nad oedd y taliad wedi'i fwriadu i fod yn setliad mewn perthynas â hawliad posibl penodol.

89 Yn fy marn i, hyd yn oed os oedd gan y Prif Weithredwr ar y pryd seiliau i ddwyn hawliad cyflogaeth yn erbyn y Cyngor, nid oedd gan y Cyngor ddigon o wybodaeth i setlo hawliad, o ystyried nad oedd wedi gweld y dystiolaeth ategol ac nad oedd wedi gwerthuso gwerth ariannol hawliad o'r fath na'r tebygolrwydd y byddai'n llwyddo. Os oedd y taliad yn un i setlo hawliad cyflogaeth penodol, yna nid ymlynwyd wrth weithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor ei hun, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol gwerthuso hawliadau posibl yn iawn cyn y gellid cytuno ar unrhyw setliad.

90 Gofynnodd fy archwilwyr i Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor pam ei fod wedi rhoi cyfarwyddyd ar lafar i ymgynghorwr cyfreithiol allanol y Cyngor y gallai'r Prif Weithredwr ar y pryd ddwyn achos am ddiswyddo deongliadol yn erbyn y Cyngor. Dywedodd wrth fy archwilwyr ei fod yn tybio mai setlo hawliad oedd diben y taliad ond ei fod yn cydnabod nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ategu ei dybiaeth.

91 Yn fy marn i, dylai'r Pennaeth Adnoddau Dynol fod wedi cyflwyno'i gyfarwyddiadau cyfreithiol yn ysgrifenedig i sicrhau bod eglurder llwyr ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth, y rheswm dros y taliad, a sut y cafodd ei gyfrifo. Pe bai wedi gwneud hynny, byddai wedi galluogi'r rhai a oedd yn cynnal y negodiadau ar ran y Cyngor i gadarnhau bod y cyfarwyddiadau'n ffeithiol gywir cyn eu hanfon at ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor. Ni chyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ei gyfarwyddiadau'n ysgrifenedig, ac rwyf fi'n ystyried nad oedd y cyfarwyddiadau ar lafar a roddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor yn seiliedig ar ffeithiau cadarn.

## Fe wnaeth methiant i egluro a dogfennu'r rheswm pam y gadawodd y Prif Weithredwr ei gyflogaeth, a pham yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu adael y Cyngor yn agored i rwymedigaeth bosibl o ran treth

### Fe baratôdd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor Gytundeb Setlo drafft, a oedd yn rhoi rheswm pam fod y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth, ond oherwydd anghytundeb cafodd y rheswm hwn ei dynnu allan o'r cytundeb gan olygu nad oedd gan y Cyngor unrhyw reswm wedi'i ddogfennu dros ymadawiad y Prif Weithredwr

92 Ar 12 Awst 2020, fe ysgrifennodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor. Fe nodon nhw fod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi siarad gyda hwy'n gynharach y diwrnod hwnnw ac wedi gofyn iddynt

ddrafftio cytundeb setlo mewn perthynas ag ymadawiad posibl y Prif Weithredwr ar y pryd yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Mae'r e-bost yn nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi egluro yn eu trafodaeth bod y Prif Weithredwr "yn ystyried gadael a chymryd ei bensiwn er y byddai hynny ar sail ychydig yn is. Canlyniad trafodaethau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt am beth amser yw hyn, o ystyried anawsterau y mae wedi bod yn eu hwynebu gan rai aelodau o'r Cyngor, gan gynnwys aelodau Cabinet. Yn wir, fe egluroch chi fod y driniaeth y mae [y Prif Weithredwr ar y pryd] wedi bod yn ei dioddef, mewn rhai achosion, yn driniaeth y gellid ystyried ei bod yn gyfystyr â bwlio". Mae'r e-bost oddi wrth yr ymgynghorwyr cyfreithiol allanol yn awgrymu nad oedd cyfarwyddiadau'r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn gwbl glir yn yr ystyr, er bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi dynodi bod ymadawiad y Prif Weithredwr yn gysylltiedig ag anghydfod cyflogaeth, ei fod hefyd wedi nodi bod y Prif Weithredwr yn ystyried cymryd ymddeoliad cynnar.

93 Yn eu neges e-bost dyddiedig 12 Awst 2020, fe wnaeth ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor gynghori'r Pennaeth Adnoddau Dynol ar bwysigrwydd cael eglurder ynghylch y sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr. Fe wnaethant egluro bod hyn yn bwysig am bod y rheswm dros ymadawiad y Prif Weithredwr yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn pa un a allai'r £30,000 cyntaf o'r taliad terfynu arfaethedig gael ei dalu i'r Prif Weithredwr yn ddi-dreth. Roedd y neges e-bost yn nodi, os oedd y Prif Weithredwr "yn ystyried ymddeol ... bod risg y gallai unrhyw swm a delir iddo wrth derfynu ei gyflogaeth fod yn drethadwy dan adrannau 393 a 394 [Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003] ac, felly, na fyddai'n cael budd o'r eithriad o £30,000 sy'n aml ar gael wrth derfynu cyflogaeth", ond oedd y Prif Weithredwr yn "gadael dan amgylchiadau a allai fod yn gyfystyr â diswyddiad deongliadol, yna hyd yn oed pe gellid dweud ei fod yn ymddeol neu ei fod yn cymryd ei bensiwn un syth ar ôl gadael, byddai dadl gref bod unrhyw daliad diswyddo'n cael ei wneud am reswm sy'n ymwneud â'r diswyddiad deongliadol posibl ac y byddai felly wedi'i eithrio o drethiant dan adran 394 [Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003] gan fod yn gymwys felly ar gyfer trethiant dan adran 401 (eithriad treth mewn perthynas â'r £30,000 cyntaf)".

94 Cynghorodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor hefyd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau'r driniaeth gywir o ran trethiant ar gyfer y taliad, ei bod yn "bwysig bod yn glir pam y gwneir taliad penodol, er enghraifft, trwy ddangos bod y taliad yn adlewyrchu'r digolledu tebygol os ceir hawliadau cyflogaeth llwyddiannus". Fe gynghoron nhw'r Pennaeth Adnoddau Dynol ynghylch yr angen "i fod â rhesymeg glir dros derfynu'r gyflogaeth, ac eglurhad ynghylch sut y cyfrifwyd y taliad, a bod rhaid i'r sail resymegol gael ei dogfennu. Gallwch ddisgwyl i CaThEM ofyn am gopïau o'r holl ddogfennaeth berthnasol (gan gynnwys gohebiaeth gyda'r cyflogai), felly mae'n bwysig sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn disgrifio'r sefyllfa'n gywir, yn hytrach nag 'ymddeoliad cynnar', os yw hyn yn gywir [fy mhwyslais i]".

95 Dywedodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor wrth fy archwilwyr fod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhoi cyfarwyddyd ar lafar mai'r rheswm pam fod y

Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael gyda thaliad o £95,000 oedd er mwyn setlo hawliad posibl am ddiswyddo deongliadol. Mewn e-bost dyddiedig 19 Awst 2020 at y Pennaeth Adnoddau Dynol, dywedodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor, “fe egluroch chi mai eich barn oedd bod hwn yn daliad digolledu diledryw o ystyried y gallai [y Prif Weithredwr ar y pryd], er enghraifft, ddwyn achos am ddiswyddo deongliadol yng ngoleuni trafodaethau sydd wedi digwydd”.

96 Nid yw’n glir i mi sut y gwnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol ffurfio’r farn mai diben y taliad i’r Prif Weithredwr ar y pryd oedd datrys anghydfod cyflogaeth posibl/ hawliad am ddiswyddo deongliadol o ystyried ei fod wedi dweud wrth fy archwilwyr nad oedd wedi gweld tystiolaeth i ategu hawliad posibl. Felly nid oedd ganddo unrhyw wybodaeth uniongyrchol:

- pa un a oedd gan y Prif Weithredwr blaenorol seiliau cyfreithlon i ddwyn hawliad.
- pa rwymedigaeth ariannol bosibl fyddai’r Cyngor yn ei hwynebu pe bai gan y Prif Weithredwr blaenorol seiliau cyfreithlon i ddwyn hawliad, a phe bai’n dwyn hawliad. Yn wir, nid oedd y taliad arfaethedig o £95,000 yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â gwerth hawliad posibl y gallai’r Prif Weithredwr fod wedi ei ddwyn yn erbyn y Cyngor. Fel a nodir ym **mharagraff 52**, cafodd y swm ei bennu gan Arweinydd y Cyngor ar lefel y cap deddfwriaethol a gynigir ar daliadau ymadael yn y sector preifat, sef £95,000. Nid oedd yn gysylltiedig â gwerth unrhyw hawliad posibl. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol wrth fy archwilwyr fod yr Arweinydd wedi ei hysbysu mewn sgwrs ffôn ar 12 Awst 2020 bod y taliad wedi cael ei bennu ar lefel y cap deddfwriaethol a gynigir. Felly roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ymwybodol nad oedd swm y taliad yn gysylltiedig â’r digollediad tebygol pe ceid hawliadau cyflogaeth llwyddiannus (gweler **paragraff 94**).

97 Ar 18 Awst 2020, anfonodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ddrafft cyntaf o’r Cytundeb Setlo at y Pennaeth Adnoddau Dynol iddo’i ystyried.

98 Mae **Arddangosyn 3** yn darparu detholiad o’r Cytundeb Setlo drafft sy’n nodi’r sail ar gyfer gwneud y taliad terfynu arfaethedig.

**Arddangosyn 3: detholiad o’r Cytundeb Setlo drafft a anfonwyd at y Pennaeth Adnoddau Dynol ar 18 Awst 2020**

3.1 Mae anghydfod wedi codi rhwng y ddwy ochr yng ngoleuni pryderon a godwyd gennych chi ynghylch eich perthynas weithio ag aelodau o Gabinet y Cyflogwr, i’r perwyl bod rhai o’r perthnasoedd hyn wedi pallu. Mae’r ddwy ochr yn cydnabod bod yr angen am berthynas weithio gref rhwng Prif Weithredwr y Cyflogwr a’i Arweinydd/Cabinet yn rhan annatod o unrhyw gyngor ac yn hanfodol i unrhyw gyngor a gaiff ei redeg yn effeithiol.

3.2 Ar y sail hon mae’r ddwy ochr wedi ymrwymo i’r Cytundeb hwn i gofnodi a gweithredu’r telerau ar gyfer cytuno i setlo pob hawliad sydd gennych yn

> weddill neu a all fod gennych yn weddill yn erbyn y Cyflogwr neu ei briod swyddogion, aelodau neu gyflogeion sy'n deillio o neu mewn perthynas â neu o ganlyniad i'r materion yr ydych wedi'u codi y cyfeirir atynt uchod yn 3.1, eich cyflogaeth yn gyffredinol a/neu ei therfynu a'ch swydd fel Prif Weithredwr a/neu ei diwedd. Y telerau a nodir yn y Cytundeb hwn yw'r Cytundeb cyflawn rhwng y ddwy ochr ac nid ydynt yn golygu bod y Cyflogwr yn addef atebolrwydd.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Cofnodion y Cyngor

99 Roedd y Cytundeb Setlo drafft yn cyfeirio at y taliad o £95,000 a fyddai'n cael ei dalu i'r Prif Weithredwr ar y pryd fel 'taliad terfynu' a fyddai'n cael ei dalu 'ar sail ex gratia'.

100 Roedd y Cytundeb Setlo hefyd yn nodi mai diben y taliad o £95,000 oedd "setlo pob hawliad [a oedd gan y Prif Weithredwr] yn weddill neu a all fod ganddo'n weddill yn erbyn y Cyflogwr neu ei briod swyddogion, aelodau neu gyflogeion sy'n deillio o neu mewn perthynas â neu o ganlyniad i'r [anghydfod]". Gan bod y Cytundeb yn nodi bod y taliad yn gysylltiedig â setlo hawliadau mewn perthynas ag anghydfod penodol, ystyriwyd fod y £30,000 cynaf o'r taliad yn gymwys i gael ei dalu'n ddi-dreth dan ddarpariaethau Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (ITEPA 2003). Fodd bynnag, roedd yn cynnwys cymal lle byddai'r Prif Weithredwr yn darparu indemniad yn erbyn unrhyw rwymedigaeth bosibl yn y dyfodol o ran treth a allai ddeillio o'r Cytundeb Setlo, h.y. pe bai CaThEM yn ystyried na ddylai'r £30,000 cyntaf o'r taliad fod wedi cael ei dalu'n ddi-dreth, byddai'r Prif Weithredwr yn cwrdd ag unrhyw rwymedigaeth o ran treth a fyddai'n deillio o hynny.

101 Yn dilyn cael y ddogfen ddrafft, fe ymatebodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor gan ddweud, "Rwy'n meddwl bod angen i ni ddefnyddio'r term 'taliad digolledu' yn hytrach na thaliad terfynu yn y [Cytundeb Setlo]". Fe ymatebodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor gan ddweud, "gallwn gyfeirio at daliad digolledu yn hytrach na thaliad terfynu felly fe newidiaf hynny. Maent i bob pwrpas yn gyfystyr â'r un peth yn ôl y gyfraith". Fel y digwyddodd hi, ni chafodd y disgrifiad o'r taliad ei newid.

102 Yn ddiweddarach yr un diwrnod, 18 Awst 2020, fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y Cytundeb Setlo drafft at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ar y pryd gan ofyn iddynt gadarnhau eu bod yn hapus gyda'r cynnwys. Wedyn fe anfonodd yr Arweinydd y ddogfen ddrafft ymlaen at Swyddog CLILC a oedd wedi cynnal yr adolygiad o ailstrwythuro uwch reolwyr, gan ofyn iddo'i hanfon ymlaen at y Swyddog yn y Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd wedi negodi ymadawiad y Prif Weithredwr ar y pryd gyda thaliad terfynu. Dywedodd yr Arweinydd yn ei e-bost ei fod yn anhapus gyda pharagraff 3.1 yn y Cytundeb Setlo (gweler **Arddangosyn 3**) a gofynnodd i swyddogion y Gymdeithas Llywodraeth Leol a CLILC am eu barn ynglŷn â'r testun drafft.

103 Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth fy archwilwyr nad oedd y geiriad drafft yn nodi'n gywir ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth a'r rheswm iddo gael taliad terfynu. Roedd yn ystyried mai diben y negodiadau oedd nid setlo anghydfod cyflogaeth, ond cytuno ar drefniant a oedd yn dderbyniol i'r naill ochr a'r llall ar gyfer ymadawiad gwirfoddol "er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth". Ar ben hynny, daethpwyd i'r cytundeb y byddai'r Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael gyda thaliad terfynu mewn ymateb i argymhelliad penodol a oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad ar ailstrwythuro uwch reolwyr a gynhyrchwyd gan CLlLC (gweler **Arddangosyn 1**). Felly nid oedd yn ystyried bod y geiriad ym mharagraffau 3.1 a 3.2 o'r Cytundeb Setlo drafft yn ddatganiad cywir o'r sail ar gyfer rhoi taliad terfynu i'r Prif Weithredwr ar y pryd.

104 Fe ymatebodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol i e-bost yr Arweinydd gan ddweud: "Rwyf wedi darllen cymal 3.1 ac rwyf mewn ychydig o benbleth pam ei fod yn cael ei gynnwys. Nid yw'n gymal safonol felly rwy'n tybio ei fod wedi cael ei ddrafftio gan eich cyflogwyr yn benodol ar gyfer y cytundeb hwn. Nid wyf yn meddwl bod angen iddo fod yn y cytundeb felly byddwn yn gofyn am eglurhad clir iawn dros ei gynnwys. Fel arfer rydym yn cyfeirio dim ond at derfynu/ymddeol yn gynnar trwy gytundeb er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth. Nid ydym fel arfer yn manylu ar yr amgylchiadau a ddaeth â'r ddwy ochr i'r fan yma ... Yn y pen draw, eich cyfreithwyr sydd i'ch cynghori ond rwy'n meddwl eich bod yn iawn i ofyn y cwestiwn a herio'r geiriad/y ffaith bod y ddau baragraff yma wedi'u cynnwys". Yn ddiweddarach yr un diwrnod, fe ysgrifennodd Swyddog CLlLC at Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol gan ddweud "os caiff y geiriad ei dynnu allan yn gyfan gwbl, bydd yn rhoi'r rhyddhad treth o £30k ar gyfer [y Prif Weithredwr ar y pryd] mewn perygl. Os digwydd hynny, deallaf na fydd [y Prif Weithredwr] yn llofnodi'r Cytundeb. Felly, gofynnwyd i [ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor] ddiwygio'r geiriad i geisio diwallu anghenion y ddau barti. Byddaf yn ôl mewn cysylltiad cyn gynted ag y bydd gennyf ragor o newyddion er mwyn gallu datrys y mater yma heddiw.".

105 Yn hwyr gyda'r nos ar 18 Awst 2020, fe ysgrifennodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd at y Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddweud, "Deallaf fod yr Arweinydd yn awyddus bod y rhesymau y tu ôl i ymddeoliad cynnar y [Prif Weithredwr ar y pryd] yn peidio â chael eu gwneud yn gyhoeddus boed trwy ddadl neu mewn ffordd arall, a bod y [Prif Weithredwr] yn dymuno cael rhywfaint o gyfrinachedd mewn perthynas â thelerau'r [Cytundeb Setlo]". Mae'r neges e-bost hon sy'n cyfeirio at y Prif Weithredwr yn cymryd ymddeoliad cynnar yn dynodi'r dryswch ac ansicrwydd parhaus o ran y cwestiwn ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth.

106 Fe wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol anfon e-bost y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ymlaen at ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor, a ymatebodd y diwrnod canlynol gan fynegi pryder ynghylch ei gynnwys: "mae hyn yn dod yn ôl at gyngor blaenorol a roddwyd ynghylch statws treth y taliad. Os yw'r trefniant yn un 'ymddeol yn gynnar' yna mae'r taliad cyfan yn debygol o fod yn drethadwy – dim ond os yw'r taliad wir yn daliad i ddigolledu am golli cyflogaeth am

ryw reswm heblaw ymadawiad gwirfoddol cyflogai y bydd hwn yn dod o dan adran 401 o [Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003] (ac y bydd £30k ohono wedi'i eithrio rhag treth). Mae'n ddigon posibl y bydd CaThEM yn dymuno gweld yr holl ddogfennaeth mewn perthynas â'r negodiadau ynghylch y mater hwn felly mae'n bwysig sicrhau bod eich trywydd archwilio ar gyfer hyn, yn ogystal â'ch safbwynt yn gyffredinol, yn glir".

107 Ar 19 Awst 2020, fe ysgrifennodd y Pennaeth Adnoddau Dynol at ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor gan ddweud "ers i ni siarad ddiwethaf, rwyf wedi cael neges ... yn cadarnhau bod yr Arweinydd yn dymuno fy mod yn dileu para 3.1 o'r cytundeb ac nid yw'n fodlon negodi ymhellach ar y pwynt hwnnw". Fe ymatebodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor i'r Pennaeth Adnoddau Dynol gan fynegi pryderon ynghylch penderfyniad yr Arweinydd i ddileu'r testun yn y Cytundeb Setlo a oedd yn cyfeirio at y rheswm pam fod y Prif Weithredwr yn gadael a'r rheswm pam fod y Cyngor yn rhoi taliad terfynu iddo. Roeddent yn pryderu'n arbennig ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar y driniaeth drethadwy arfaethedig ar gyfer y taliad. Mae'r e-bost yn nodi:

- bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi dweud wrthynt yn flaenorol mai ei farn ef oedd bod y taliad arfaethedig i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn "daliad digolledu diledryw o ystyried y gallai [y Prif Weithredwr ar y pryd], er enghraifft, ddwyn achos am ddiswyddo deongliadol yng ngoleuni trafodaethau sydd wedi digwydd".
- eu bod wedi ei gynghori'n flaenorol fel a ganlyn: "byddai'n synhwyrol nodi rhesymeg eglur yn y cytundeb setlo sy'n dogfennu'r rheswm dros derfynu, ac eglurhad i ddynodi sut y cyfrifwyd y taliad, o ystyried bod gan CaThEM y gallu i ofyn am gopïau o'r holl ddogfennaeth berthnasol (gan gynnwys gohebiaeth gyda'r cyflogai). Ar y sail hon, mae'n bwysig sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn disgrifio'r sefyllfa'n gywir, yn hytrach nag 'ymddeol yn gynnar', os yw hyn yn gywir".
- "Os yw'r Cyngor yn dymuno dileu'r ddarpariaeth hon, yna'n amlwg gall wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r risg y bydd CaThEM yn ystyried bod y taliad yn drethadwy fel taliad mewn perthynas ag ymddeoliad yn cynyddu yn fy marn i. Wedi dweud hyn, os oes dogfennau eraill yn bodoli sy'n nodi mai pecyn 'ymddeol yn gynnar' yw hwn, yna fe allai hyn danseilio cynnwys y cymal hwn beth bynnag, ac mae'n ei gwneud yn fwy tebygol byth y bydd y taliad cyfan yn cael ei drethu."
- "Fel Cyngor, yn ddi-os bydd arnoch eisiau sicrhau eich bod yn trin yr holl daliadau a wneir i unigolion yn briodol at ddibenion treth, gan bod gan CaThEM yr hawl i adfer unrhyw dandaliadau treth gennych; hyd yn oed os oes indemniad wedi'i gynnwys gennych yn y cytundeb (h.y. gan yr unigolyn dan sylw) bydd CaThEM yn dal i ddisgwyl i chi wneud y taliad, gan eich gadael mewn sefyllfa lle gall fod yn rhaid i chi weithredu i orfodi'r indemniad yn erbyn cyn-gyflogai os nad yw hyn yn dod. Y dull pwyllog os nad ydych wedi'ch argyhoeddi bod yr eithriad dan a.401 yn gymwys fyddai trethu'r swm

cyfan dan y cytundeb ar y sail hon, rhywbeth yr wyf yn deall y gallai olygu na fydd [y Prif Weithredwr ar y pryd] yn derbyn y swm a gynigir."

108 Yn dilyn cael y cyngor hwn, fe ymatebodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddweud, “Rwyf newydd gael fy hysbysu bod ar yr Arweinydd eisiau i 3.1 gael ei ddileu. Allech chi ddiwygio’r adroddiad os gwelwch yn dda a hefyd newid y darn cyntaf o baragraff 3.2 ar hyn o bryd fel a awgrymwyd gennych yn gynharach heddiw?”. Ar 19 Awst 2020, fe anfonodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor fersiwn wedi’i diweddaru o’r Cytundeb Setlo at y Pennaeth Adnoddau Dynol. Roedd y paragraffau 3.1 a 3.2 blaenorol yn y Cytundeb Setlo (gweler **Arddangosyn 3**) wedi cael eu disodli â’r testun yn **Arddangosyn 4**.

109 Ar 21 Awst 2020, fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd at y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddweud, "Os nad yn y [Cytundeb Setlo], rhywle mae arnom angen geiriad i sicrhau bod y taliad yn cael ei drin yn gywir fel digollediad ac nid swm sydd wedi’i fwriadu i gefnogi ymadawiad gwirfoddol. Fel pan siaradom ni ddiwethaf, yn fy marn i, er mwyn cyflawni hyn bydd arnoch angen ‘rhesymeg glir dros derfynu’r gyflogaeth, ac eglurhad ynghylch sut y cyfrifwyd y taliad’. Yr unig ffordd arall yw bod yr Awdurdod yn derbyn na fydd yn ceisio cymryd unrhyw gamau yn erbyn [y Prif Weithredwr ar y pryd] pe bai CaThEM yn herio’r taliad ac yn derbyn bod yr Awdurdod yn talu unrhyw a phob rhwymedigaeth o ran treth ar y £95k. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymdrin â’r ‘rhesymau’ dros derfynu ac wrth edrych tua’r dyfodol mae’n anodd deall pa neges y mae’r Arweinydd yn bwriadu dibynnu arni i hysbysu Aelodau a’r cyhoedd pam fod [y Prif Weithredwr] wedi gadael ei swydd”.

110 Roedd cyfeiriad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn ei neges e-bost dyddiedig 21 Awst 2020 at yr angen am ‘resymeg glir dros derfynu’r gyflogaeth, ac eglurhad ynghylch sut y cyfrifwyd y taliad’ yn ddyfyniad a gymerwyd o’r cyngor cyfreithiol allanol a ddarparwyd ar gyfer y Pennaeth Adnoddau Dynol ar 12 Awst 2020 (gweler **paragraff 94**). Er bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cydnabod pwysigrwydd y cyngor hwn, ni chymerwyd unrhyw gamau i fynd i’r afael â hynny.

111 Ar 27 Awst 2020, fe lofnododd yr Arweinydd a’r Prif Weithredwr ar y pryd fersiwn derfynol o’r Cytundeb Setlo a oedd wedi cael ei ddiwygio i ddileu’r paragraff 3.1 gwreiddiol a’r rhan gyntaf o baragraff 3.2 a oedd yn cyfeirio at anghydfod cyflogaeth a setlo pob hawliad a oedd gan y Prif Weithredwr ar y pryd yn weddill neu a allai fod ganddo’n weddill mewn perthynas â’r anghydfod hwn. Felly nid oedd y Cytundeb Setlo diwygiedig yn manylu ar y rheswm dros ymadawiad y Prif Weithredwr a’r rheswm pam ei fod yn mynd i gael taliad o £95,000. Caiff y geiriad diwygiedig ei nodi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: detholiad o’r Cytundeb Setlo terfynol**

3.1 “Mae’r ddwy ochr wedi ymrwymo i’r Cytundeb hwn i gofnodi a gweithredu’r telerau ar gyfer cytuno i setlo pob hawliad sydd gennych yn weddill neu a all fod gennych yn weddill yn erbyn y Cyflogwr neu ei briod swyddogion, aelodau neu gyflogeion sy’n deillio o neu mewn perthynas â’ch cyflogaeth yn gyffredinol a/neu ei therfynu a’ch swydd fel Prif Weithredwr a/neu ei diwedd. Y telerau a nodir yn y Cytundeb hwn yw’r Cytundeb cyflawn rhwng y ddwy ochr ac nid ydynt yn golygu bod y Cyflogwr yn addef atebolrwydd”.

Ffynhonnell yr arddangosyn: Cofnodion y Cyngor

112 Hyd yn oed ar ôl llofnodi’r Cytundeb Setlo roedd diffyg eglurder o hyd ynghylch y sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr a’r rheswm yr oedd yn mynd i gael taliad terfynu o £95,000. Ar 3 Medi 2020, mewn ymateb i e-bost oddi wrth Arweinydd y Cyngor yn ceisio cymorth gyda geiriad datganiad drafft i’r wasg, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd, “Nid oeddwn yn rhan o negodiadau ar y Cytundeb Setlo, nac ar y datganiad i’r wasg, ac efallai y gallai’r rhai a gynorthwyodd roi cyngor pellach? Bydd arnoch angen cymorth pellach i ddod o hyd i eiriad sy’n egluro pam fod [y Prif Weithredwr] wedi gadael a’r rheswm dros y £95k. Ymddengys y gallai Aelodau yn wir ofyn am graffu ar hyn trwy’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol”.

113 Rwy’n ei ystyried yn achos pryder bod y Cyngor wedi cyrraedd sefyllfa lle ymrwymodd i gytundeb cyfreithiol i’r Prif Weithredwr adael ei gyflogaeth gyda thaliad terfynu heb fod ag unrhyw resymeg y cytunwyd arni a oedd yn nodi’r rheswm dros ei ymadawiad, pam oedd yn talu £95,000 iddo, a pham y gallai’r £30,000 cyntaf o’r taliad gael ei wneud yn ddi-dreth.

114 Fel a nodir uchod, fe gynghorodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ar fwy nag un achlysur ynghylch yr angen i fod â ‘rhesymeg glir dros derfynu’r gyflogaeth, ac eglurhad ynghylch sut y cyfrifwyd y taliad’ ac y dylai’r rhesymeg hon a’r eglurhad gael eu cyfleu’n ysgrifenedig. Roedd hyn yn bwysig er mwyn ategu’r driniaeth dreth arfaethedig ar gyfer y taliad, ond yn bwysicach byth mae gallu dangos tystiolaeth glir o’r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau’n elfen sylfaenol o lywodraethu da. Yn fy marn i, nid oedd penderfyniad yr Arweinydd i ofyn am ddiwygio’r Cytundeb Setlo i ddileu testun a oedd yn cyfeirio at anghydfod cyflogaeth a oedd yn ffeithiol anghywir yn ei ôl ef yn afresymol. Fodd bynnag, ar y pwynt hwnnw dylai camau fod wedi cael eu cymryd i gadarnhau a dogfennu’r sail yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth arni a’r rheswm dros y taliad naill ai yn y Cytundeb Setlo neu mewn dogfen arall. Yn fy marn i, ni ddylai’r Cytundeb Setlo fod wedi cael ei lofnodi nes y cytunwyd ar y rhesymeg ysgrifenedig honno.

115 Gofynnodd fy archwilwyr i Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor pam na weithredodd ar y cyngor cyfreithiol allanol a gafodd. Dywedodd wrth fy archwilwyr nad oedd yn ystyried mai ei gyfrifoldeb ef oedd gweithredu ar y materion hyn a’i fod o’r farn mai ei rôl ef mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr ar y pryd

gyda thaliad terfynu oedd “hwyluso geiriad terfynol y cytundeb ei hun” a gweithredu fel y ‘cyfryngwr’ ar gyfer y ddwy ochr yn hynny o beth. Dyna ble’r oedd fy rôl i’n gorffen”.

116 Yn fy marn i, pan fo’r Cyngor yn cael cyngor cyfreithiol allanol dylai allu dangos sut y mae wedi ymdrin â’r cyngor hwnnw. Os yw’n penderfynu peidio â dilyn y cyngor hwnnw dylai allu dangos bod ganddo reswm da dros ddiystyru’r cyngor. Yn yr achos hwn, nid oedd y cyngor i ddogfennu’r sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr a’r rheswm dros roi taliad terfynu iddo’n ddadleuol. Roedd y Cyngor yn cael ei gynghori i gydymffurfio ag egwyddor llywodraethu sy’n berthnasol i bob corff cyhoeddus, h.y. dogfennu’r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ni allaf weld unrhyw reswm da pam y dewisodd y Cyngor ddiystyru’r cyngor hwn.

117 Mae methu â dilyn y cyngor cyfreithiol a nodir uchod wedi golygu bod y Cyngor yn methu â dangos bod gan y Prif Weithredwr hawl i gael y £30,000 cyntaf o’r taliad terfynu yn ddi-dreth fel a nodir ym **mharagraffau 118 i 141**.

## Mae methiant y Cyngor i fod â rhesymeg ysgrifenedig glir o ran y sail y gadawodd y Prif Weithredwr arni a’r rheswm pam y cafodd daliad terfynu wedi gadael y Cyngor yn agored i rwymedigaeth bosibl o ran treth

118 Fe dalodd y Cyngor y £30,000 cyntaf o’r taliad terfynu o £95,000 i’w Brif Weithredwr ar y pryd yn ddi-dreth.

119 Pan fo sefydliadau’n gwneud taliadau i gyflogeion wrth derfynu eu cyflogaeth, mae’n bwysig sicrhau bod y modd y caiff y taliad ei drin ar gyfer treth yn cydymffurfio â rheoliadau treth perthnasol, yn yr achos hwn Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003, (ITEPA 2003). O dan amgylchiadau penodol, mae ITEPA 2003 yn caniatáu i gyflogwyr dalu’r £30,000 cyntaf o daliad terfynu’n ddi-dreth. Wrth benderfynu a ellir gwneud taliad di-dreth, mae hynny’n dibynnu ar natur y terfyniad a’r rheswm dros y taliad. Mae felly’n hollbwysig, cyn gwneud taliadau di-dreth, bod cyflogwyr yn ystyried fesul achos unigol a yw ITEPA 2003 yn caniatáu taliad o’r fath. Dylent hefyd ddogfennu eu hystyriaethau oherwydd os gwneir taliad di-dreth, efallai y bydd CaThEM yn dymuno archwilio’r rhesymeg a ddogfennwyd gan y sefydliad i ategu’r driniaeth ar gyfer treth.

120 Roedd felly’n hanfodol, er mwyn penderfynu a allai’r taliad terfynu arfaethedig i’w Brif Weithredwr gael ei roi’n ddi-dreth dan ITEPA 2003, bod y Cyngor yn penderfynu:

- y rheswm pam fod y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth gyda’r Cyngor;
- am beth yr oedd y taliad yn cael ei wneud;
- sut y cyfrifwyd y taliad; a
- dogfennu’r materion hynny ar ôl eu hystyried.

121 Fel a nodir ym **mharagraffau 92 i 117**, fe gynghorodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ar fwy nag un achlysur ynghylch yr angen am eglurder o ran y materion hyn.

122 Roedd paragraff 3.1 o'r Cytundeb Setlo drafft a luniwyd gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor ar gyfarwyddiadau llafar y Pennaeth Adnoddau Dynol yn darparu eglurhad o'r rheswm pam fod y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth, h.y. oherwydd bod "anghydfod wedi codi rhwng y ddwy ochr yng ngoleuni pryderon a godwyd gennych chi ynghylch eich perthynas weithio ag aelodau o Gabinet y Cyflogwr, i'r perwyl bod rhai o'r perthnasoedd hyn wedi pallu. Roedd paragraff 3.2 o'r Cytundeb Setlo'n nodi mai diben y taliad oedd "setlo pob hawliad [a oedd gan y Prif Weithredwr] yn weddill neu a all fod [ganddo'n] weddill yn erbyn y Cyflogwr neu ei briod swyddogion, aelodau neu gyflogeion sy'n deillio o neu mewn perthynas â neu o ganlyniad i'r [anghydfod]".

123 Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 107 i 108**, fe wnaeth Arweinydd y Cyngor fynnu bod y Cytundeb Setlo drafft yn cael ei ddiwygio am nad oedd yn cytuno bod paragraffau 3.1 a 3.2 o'r Cytundeb Setlo'n ffeithiol gywir.

124 Ar 19 Awst 2020, a hwythau wedi cael eu hysbysu bod yr Arweinydd yn dymuno dileu'r rheswm a nodwyd dros ymadawiad a thaliad y Prif Weithredwr, fe ysgrifennodd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gan ddweud: "Os yw'r Cyngor yn dymuno dileu'r ddarpariaeth hon, yna'n amlwg gall wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r risg y bydd CaThEM yn ystyried bod y taliad yn drethadwy fel taliad mewn perthynas ag ymddeoliad yn cynyddu yn fy marn i. Wedi dweud hyn, os oes dogfennau eraill yn bodoli sy'n nodi mai pecyn 'ymddeol yn gynnar' yw hwn, yna fe allai hyn danseilio cynnwys y cymal hwn beth bynnag, ac mae'n ei gwneud yn fwy tebygol byth y bydd y taliad cyfan yn cael ei drethu. Fel Cyngor, yn ddi-os bydd arnoch eisiau sicrhau eich bod yn trin yr holl daliadau a wneir i unigolion yn briodol at ddibenion treth ... Y dull pwyllog os nad ydych wedi'ch argyhoeddi bod yr eithriad dan a.401 yn gymwys fyddai trethu'r swm cyfan dan y cytundeb ar y sail hon."

125 Yng ngoleuni'r cyngor hwn, a'r ffaith bod yr Arweinydd yn mynnu na ddylai paragraff 3.1 gael ei gynnwys yn y Cytundeb Setlo, byddwn i wedi disgwyl i swyddogion y Cyngor geisio cadarnhad gan Arweinydd y Cyngor a Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd wedi cynnal y negodiadau ynghylch y sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr, am beth oedd y taliad terfynu, a sut y'i cyfrifwyd. Roedd yr wybodaeth hon yn hanfodol i benderfynu a oedd y £30,000 cyntaf o'r taliad yn gymwys i gael ei drin fel taliad a oedd wedi'i eithrio rhag treth dan ITEPA 2003. Nid yw fy archwilwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod swyddogion y Cyngor wedi gofyn am yr wybodaeth hon, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw ddogfennaeth sy'n nodi safbwynt y Cyngor o ran pam y gadawodd y Prif Weithredwr ei gyflogaeth a'r rheswm y cafodd daliad terfynu.

126 Ar 19 Awst 2020, fe ysgrifennodd Swyddog CLILC at yr Arweinydd a Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol gan ddweud "os caiff y geiriad ei dynnu allan yn gyfan gwbl, bydd yn rhoi'r rhyddhad treth o £30k ar gyfer [y Prif Weithredwr ar y

pryd] mewn perygl. Os digwydd hynny, deallaf na fydd [y Prif Weithredwr] yn llofnodi'r Cytundeb".

127 Ar 19 Awst 2020, fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr ohebiaeth e-bost a nodir uchod sy'n ymwneud â geiriad y Cytundeb Setlo a'r driniaeth treth ar gyfer y taliad arfaethedig ymlaen at Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd. Roedd yr ohebiaeth yn cynnwys y cyngor cyfreithiol allanol cyfrinachol yr oedd y Cyngor wedi'i gael a phenderfyniad yr Arweinydd i ddileu paragraff 3.1 o'r Cytundeb Setlo a oedd yn cyfeirio at anghydfod cyflogaeth.

128 Fe ymatebodd y Prif Weithredwr i'r Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddiolch iddo am rannu'r wybodaeth. Fe nododd y Prif Weithredwr:

- nad oedd yn cymryd ymddeoliad cynnar.
- ei fod yn ystyried gadael ei gyflogaeth "dim ond o ganlyniad i berthnasoedd a oedd yn dirywio a hynny'n deillio o ymddygiadau amhriodol gan Aelodau nad ymdriniwyd â hwy".
- pe bai paragraff 3.1 o'r Cytundeb Setlo'n cael ei ddileu (y paragraff a oedd yn nodi'r sail arfaethedig yr oedd y Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth arni), na allai "ystyried unrhyw beth sy'n creu risg i mi o ran yr elfen ddi-dreth o'r taliad o 95k. Felly bydd angen i'r cytundeb fod yn gwbl glir i unrhyw un gan gynnwys CaThEM mai taliad digolledu yw'r taliad (am y rhesymau a nodir yng nghymal 3.1 ar hyn o bryd)".
- "Nid oes gennyf unrhyw ddiddordeb mewn indemnio'r Awdurdod yn erbyn y risg yma, yn hytrach mae angen i'r cytundeb ddileu'r risg i mi a darparu tystiolaeth pe bai her gan CaThEM."

129 Ar 20 Awst 2020, fe gynghorodd ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor, yng ngoleuni'r anghytundeb rhwng yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch geiriad y Cytundeb Setlo, fod tri opsiwn posibl:

- bod cymal 3.1 yn aros fel yr oedd wedi'i ddrafftio ar y pryd.
- bod Cymal 3.1 diwygiedig yn cael ei gynnwys – er enghraifft: Mae'r ddwy ochr wedi dod ar draws anawsterau yn eu perthynas weithio, i'r perwyl bod rhai o'r perthnasoedd hyn wedi cael eu niweidio'n sylweddol. Mae'r ddwy ochr yn cydnabod bod yr angen am berthynas weithio gref rhwng Prif Weithredwr y Cyflogwr a'i Gabinet yn rhan annatod o unrhyw gyngor ac yn hanfodol i unrhyw Gyngor a gaiff ei redeg yn effeithiol, ac ar y sail honno maent wedi cytuno i ymrwymo i'r cytundeb hwn.".
- bod cymal 3.1 yn cael ei ddileu – gan gydnabod y risg a achosir, bod cymal 10.3 yn cael ei ddileu hefyd fel nad yw [y Prif Weithredwr] yn rhoi indemniad i'r Cyngor (gweler **paragraff 100**).

130 Fe wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol anfon y cyngor cyfreithiol allanol dyddiedig 20 Awst 2020 ymlaen at y Prif Weithredwr ar y pryd, gyda chopi o'r e-bost at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor, gan awgrymu y gallai'r trydydd opsiwn fod yn ffordd ymlaen a gofyn, "Beth yw eich meddyliau am hynny fel opsiwn?". Fe ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud mai'r opsiwn

cyntaf oedd yr opsiwn yr oedd yn ei ffafrio, bod yr ail opsiwn yn dderbyniol ond gyda newid i'r geiriad a awgrymwyd, ac y byddai'r trydydd opsiwn yn dderbyniol iddo yn amodol ar ei gyngor cyfreithiol ei hun ac ar yr amod ei fod yn cael cadarnhad, bod "y Cyngor yn fodlon mai taliad digolledu yw'r £95k, y bydd y £30k ohono felly'n cael ei dalu'n ddi-dreth".

131 Yn ddiweddarach yr un diwrnod, 20 Awst 2020, fe ysgrifennodd y Prif Weithredwr ar y pryd at y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn awgrymu bod y Cyngor yn cael cyngor cyfreithiol i gadarnhau pa un a oedd yn bosibl newid y disgrifiad o'r taliad o "daliad ex gratia" i "daliad digolledu a wneir am golli swydd er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth". Fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol e-bost y Prif Weithredwr ymlaen at ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor i holi a oedd y newid geiriad hwn yn bosibl. Ymddengys i mi fod y newid geiriad hwn wedi cael ei gynnig oherwydd camddealltwriaeth, pe cyfeirid at y taliad fel "taliad digolledu" yn y Cytundeb Setlo, y byddai'r £30,000 cyntaf yn awtomatig yn gallu cael ei dalu'n ddi-dreth.

132 Fe ymatebodd ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor gan ddweud: "Rwyf wedi ail-wirio'r sefyllfa gyda'n cyfreithwyr treth arbenigol mewnol y prynhawn yma er mwyn sicrhau bod fy nealltwriaeth am y driniaeth treth yn gywir – maent hwy wedi cadarnhau bod fy nghyngor yn gywir. Ymddengys nad yw [y Prif Weithredwr] yn ymwybodol o'r darpariaethau treth wrth ymddeol sydd hefyd yn berthnasol. Gallwn ddefnyddio pa bynnag derm a fynnwch ar gyfer y taliad dan y cytundeb (ex gratia/digollediad a.y.b.), ond mae'r mater o ran treth wrth ymddeol yn dal i fodoli o ystyried bod [y Prif Weithredwr] wedi dynodi ei fod yn ymddeol, er yn gynharach nag oedd wedi'i fwriadu. Nid yw'n gywir pan fo'n dweud bod y £30k yn 'bendant yn daliad nad oes rhaid talu treth ac Yswiriant Gwladol arno' dan yr amgylchiadau hyn[12]. Dyma'r union reswm pam ein bod wedi cynnwys y geiriad hwn yn y lle cyntaf, er mwyn i ni allu 'achub y blaen' ar y mater pe bai CaThEM yn gofyn am gael gweld copïau o'ch holl Gytundebau Setlo pa baent yn cynnal archwiliad TWE. Nid yw'r gallu i wneud taliadau effeithlonrwydd/taliadau colli swydd dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn mynd y tu hwnt i reolau trethiant cyffredinol mewn perthynas â thaliadau terfynu. Dylai eich archwilwyr allu cadarnhau hyn os ydych yn teimlo bod angen barn arall arnoch".

133 Ni wnaeth y Cyngor ymgynghori â'm harchwilwyr ynghylch triniaeth treth arfaethedig y taliad. Rwyf hefyd yn nodi na wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol rannu'r cyngor cyfreithiol gyda Chyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 (Swyddog a151) y Cyngor i'w alluogi i ffurfio barn wybodus ynglŷn â'r cwestiwn pa un a oedd y £30,000 cyntaf o'r taliad yn gymwys i gael ei dalu i'r Prif Weithredwr ar y pryd dan ITEPA 2003.

[12] mewn gwirionedd cafodd y datganiad bod £30k o'r taliad yn 'bendant yn daliad nad oes rhaid talu treth ac Yswiriant Gwladol arno' os oedd y taliad yn un am "golli swydd er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth" ei wneud gan swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol ac nid y Prif Weithredwr blaenorol.

134 Fe ymatebodd y Prif Weithredwr i e-bost y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd, gyda chopi at y Pennaeth Adnoddau Dynol, gan ddweud: “byddai dileu’r cymal ynglŷn ag indemniad yn fy nghysuro o ran cost unrhyw her gan CaThEM yn cael ei thalu wedyn gan [y Cyngor]. A minnau wedi myfyrio ychydig yn fwy ynghylch e-bost cynharach [ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor], nid wyf yn deall pam [eu bod] yn canolbwyntio ar fy mwriad honedig i ymddeol – o ble y daeth hyn, [dydyn nhw ddim wedi] siarad gyda mi ac fel y gwyddom o’r drafodaeth ddoe, [maent] wedi’u hatal rhag gwneud hynny. Fy sefyllfa yw y byddaf o bosibl yn gadael fy nghyflogaeth gyda [y Cyngor] oherwydd methiant di-droi’n-ôl mewn perthnasoedd â rhai Aelodau nad ydynt yn ffafriol i reoli’r Cyngor yn effeithiol ac effeithlon. Byddaf yn cael fy nigolledu am hynny a byddaf yn codi fy mhensiwn o anghenraid. A yw hyn yn gyfystyr ag ymddeol? Byddwn i’n dadlau nad ydyw”.

135 Fe ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i’r e-bost gan ddweud, “Rwy’n cytuno ... A minnau ar y cyrion nid wyf yn siŵr o ble y daw’r negeseuon cymysg, ond mi fentrwn i ddyfalu os oes dryswch ynglŷn â phwy sy’n cynghori pwy y bydd negeseuon hefyd yn cael eu drysu”.

136 Cyfarwyddwyd ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor i ddileu’r paragraff yn y Cytundeb Setlo lle’r oedd y Prif Weithredwr ar y pryd wedi rhoi indemniad i’r Cyngor yn erbyn unrhyw rwymedigaeth treth yn y dyfodol a allai godi o’i ymadawiad a’i daliad. Nid yw’n glir i mi pwy wnaeth y penderfyniad i gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor i ddileu’r cymal ynglŷn ag indemniad.

137 Fe wnaeth y penderfyniad i ddileu paragraff 3.1 a hanner cyntaf paragraff 3.2 o’r Cytundeb Setlo, ar y cyd â’r methiant i ddogfennu’r sail ar gyfer ymadawiad y Prif Weithredwr na’r rheswm dros y taliad y tu allan i’r Cytundeb Setlo, beryglu cymhwystra’r £30,000 cyntaf o’r taliad i gael ei dalu’n ddi-dreth. Fodd bynnag, roedd cynnwys cymal indemniad yn y Cytundeb Setlo lle’r oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn rhoi indemniad i’r Cyngor yn erbyn unrhyw rwymedigaeth treth yn y dyfodol a allai godi o’i ymadawiad yn amddiffyn y Cyngor rywfaint pe bai CaThEM yn ystyried bod y swm cyfan yn drethadwy. Fe wnaeth y penderfyniad i ddileu’r cymal indemniad o’r Cytundeb Setlo adael y Cyngor yn fwy agored i’r risg o ysgwyddo rhwymedigaeth treth.

## Roedd diffyg eglurder cyffredinol ynghylch pwy oedd yn cynghori pwy yn y negodiadau cyfreithiol ynglŷn â'r Cytundeb Setlo ac fe gafodd hyn ei waethygu am bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhannu cyngor cyfreithiol allanol y Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd gydag ef

138 Fe benododd y Cyngor ymgynghorwyr cyfreithiol allanol i gynrychioli ei fuddiannau ei hun mewn negodiadau ynghylch telerau ymadawiad y Prif Weithredwr ar y pryd gyda thaliad terfynu. Gan bod ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor yn cynghori'r Cyngor, ni allent gynghori'r Prif Weithredwr ar y pryd yr oedd ei fuddiannau'n gwrthdaro â rhai'r Cyngor. Felly fe dalodd y Cyngor i'r Prif Weithredwr gael ei ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol ei hun. Yn fy marn i, dylai'r holl gyfathrebu ynghylch telerau'r Cytundeb Setlo fod wedi digwydd trwy ymgynghorydd cyfreithiol y Cyngor a byddai hyn wedi sicrhau bod eglurder ynglŷn â phwy oedd yn cynrychioli pwy yn y negodiadau. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth hwn yn aneglur am bod partïon eraill wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y broses negodi gan ei gwneud yn aneglur pwy oedd yn cynrychioli buddiannau pwy yn y negodiadau. Enghreifftir hyn gan y canlynol:

- er y sicrhawyd gwasanaeth swyddogion y Gymdeithas Llywodraeth Leol a CLILC i gychwyn negodiadau mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr ac i gynnal ymarfer ailstrwythuro uwch reolwyr yn y drefn honno, mae negeseuon e-bost yn dangos eu bod hefyd yn cynghori ynghylch materion a oedd yn ymwneud â geiriad y Cytundeb Setlo drafft, er gwaethaf y ffaith bod ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor yn cynghori ynghylch y Cytundeb Setlo. Nid oedd y cyngor a gafwyd yn gwbl gyson.
- mae negeseuon e-bost a gafodd eu cyfnewid rhwng y Pennaeth Adnoddau Dynol, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch geiriad y Cytundeb Setlo yn cofnodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi dweud wrth y Prif Weithredwr ar y pryd, "fe arhoswn ni i weld beth mae [eich ymgynghorydd cyfreithiol] yn ei gynghori a chymryd pethau o'r fan yna. Y tebyg yw na allwn wneud mwy tan hynny. Byddaf ar gael ar y ffôn symudol os oes angen i ni siarad cyn dydd Mawrth nesaf". Yn fy marn i, ni ddylai swyddogion y Cyngor fod wedi bod â rhan uniongyrchol mewn trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr ynghylch telerau'r setliad. Roedd y rhain yn faterion a ddylai fod wedi cael eu cyfleu trwy eu priod gynrychiolwyr cyfreithiol.
- neges oddi wrth y Pennaeth Adnoddau Dynol at yr Arweinydd dyddiedig 20 Awst 2020, lle mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn cyfeirio at Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel ymgynghorydd yr Arweinydd (nid y

Cyngor). Hefyd, mae'n amlwg bod Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cynghori'r Arweinydd ynghylch newidiadau posibl i'r Cytundeb Setlo drafft a thriniaeth drethadwy ar gyfer y taliad terfynu. Roedd y rhain yn faterion yr oedd ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor eisoes yn cynghori yn eu cylch.

- negeseuon e-bost a gyfnewidiwyd rhwng y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol ar 20 Awst 2020. Nododd y Prif Weithredwr bryderon ynghylch geiriad y Cytundeb Setlo drafft ac, yn arbennig, penderfyniad yr Arweinydd i ddileu paragraff 3.1 yn y Cytundeb hwnnw. Fe ymatebodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddweud bod penderfyniad yr Arweinydd yn "anffodus" ac awgrymodd fod y Prif Weithredwr ar y pryd yn ffonio ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor i drafod "y pwynt hwnnw ymhellach ... ac os oes angen gwneud unrhyw newid pellach yna gellir ei wneud heddiw cyn llofnodi'r Cytundeb". Fe wnaeth ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor ystyried ei bod yn angenrheidiol anfon e-bost at y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ei atgoffa, "gan nad yw [y Prif Weithredwr] yn gleient i mi a'i fod, yn wir, ar ochr arall y cytundeb – yn foesegol byddai hyn yn torri rheolau ymddygiad cyfreithwyr. Allech chi roi gwybod [i'r Prif Weithredwr] os gwelwch yn dda. Rwy'n edrych ar y pwyntiau isod a byddaf yn ôl mewn cysylltiad", ac mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol "deall yn iawn ... dylwn i fod wedi sylweddoli".

139 Rwyf hefyd yn nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi rhannu cyngor cyfreithiol allanol breintiedig y Cyngor gyda'r Prif Weithredwr ar y pryd, yn ogystal â negeseuon e-bost mewnol a oedd yn cynnwys cyngor cyfreithiol mewnol ynghylch y broses benderfynu ar gyfer cymeradwyo taliad terfynu'r Prif Weithredwr.

140 Roedd gan y Cyngor hawl, mewn egwyddor, i ildio'i fraint dros ei gyngor cyfreithiol allanol mewn perthynas â'r Cytundeb Setlo, ac ymddengys ei fod wedi ildio'r fraint hon pan ddarparodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gopïau o'r cyngor ar gyfer y Prif Weithredwr ar y pryd. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gallai hyn fod er lles y Cyngor gan bod gwrthdaro buddiannau amlwg rhwng y Prif Weithredwr a'r Cyngor. Er enghraifft, roedd er lles y Prif Weithredwr ei fod yn cael y taliad diswyddo mwyaf posibl, gan gynnwys negodi'r setliad i sicrhau bod cymaint â phosibl yn ddi-dreth ond, ar y llaw arall, roedd dyletswydd ar y Cyngor tuag at drethdalwyr i sicrhau bod y setliad yn un am swm priodol.

141 Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol wrth fy archwilwyr ei fod wedi cael awdurdod i ddatgelu'r wybodaeth hon gan ymgynghorydd cyfreithiol allanol y Cyngor, ond nid yw fy archwilwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ategu hyn. Roedd y cyngor cyfreithiol o natur gyfrinachol, ac fe'i darparwyd er budd y Cyngor. Roedd potensial y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn niweidio'r Cyngor (trwy roi mantais i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn y negodiadau, gan ei bod o fudd iddo wybod beth oedd cyngor cyfreithiol y Cyngor ynghylch rhai pwyntiau penodol, tra nad oedd y gwrthwyneb yn wir).

# Cafodd y penderfyniad i wneud taliad terfynu o £95,000 i Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor ei wneud fel penderfyniad gweithredol, a oedd yn anghywir, ac yn fy marn i roedd y taliad erbyn y gyfraith

## Darparodd Swyddog Monitro blaenorol y Cyngor gyngor wedi'i gyfamodi ar gyfer y Pennaeth Adnoddau Dynol bod Arweinydd y Cyngor yn meddu ar yr awdurdod cyfreithiol angenrheidiol i gymeradwyo taliad terfynu o £95,000 i'w Brif Weithredwr ar y pryd, ond yn fy marn i roedd y cyngor hwn yn anghywir

142 Fel a nodir ym **mharagraffau 50 i 58**, yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Awst 2020 rhwng un o swyddogion y Gymdeithas Llywodraeth Leol a chynrychiolydd Undeb Llafur y Prif Weithredwr ar y pryd, daethpwyd i gytundeb mewn egwyddor lle byddai'r Prif Weithredwr yn gadael ei gyflogaeth ac yn cael taliad o £95,000. Fe ysgrifennodd Swyddog y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yr un diwrnod a gofynnodd iddo ddarparu "manylion dogfennol polisi'r Cyngor sy'n awdurdodi [Arweinydd y Cyngor] i gymeradwyo'r taliad digolledu arfaethedig o £95,000 i'r Prif Weithredwr; wrth reswm mae ar [yr Arweinydd] angen sicrwydd bod ganddo ganiatâd i awdurdodi'r taliad arfaethedig hwn". Fe wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol drosglwyddo'r cais hwn at Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd i roi cyngor ynghylch y mater.

143 Fe ymatebodd y Swyddog Monitro i'r Pennaeth Adnoddau Dynol yr un diwrnod gan nodi'r canlynol:

- mae adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011 (Deddf 2011) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Datganiadau ar Bolisi Tâl blynyddol sy'n nodi eu polisïau ar gydnabyddiaeth ariannol i'w prif swyddogion. Mae'r diffiniad o gydnabyddiaeth ariannol yn Neddf 2011 yn nodi ei bod yn cynnwys taliadau i brif swyddogion pan ydynt yn rhoi'r gorau i ddal swydd dan yr awdurdod neu i gael eu cyflogi gan yr awdurdod.
- rhaid i gynnwys Datganiad blynyddol ar Bolisi Tâl roi sylw i ganllawiau statudol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 dan a40 Deddf 2011 gan Weinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar y pryd dan y teitl 'Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru'. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chynnwys Datganiad blynyddol ar Bolisi Tâl a'r egwyddorion sy'n ei danategu.
- Mae Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru'n nodi fel a ganlyn: "Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau roi cyfle i

gyngor llawn ... bleidleisio cyn i becynnau diswyddo mawr sydd y tu hwnt i drothwy penodol gael eu cymeradwyo ar gyfer prif swyddogion sy'n gadael y sefydliad. Fel gyda chyflogau adeg penodi, £100,000 yw'r lefel gywir ar gyfer y trothwy hwnnw ym marn Gweinidogion Cymru".

- mae Datganiad ar Bolisi Tâl y Cyngor, a fabwysiadwyd ar 27 Chwefror 2020, yn nodi y "Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru y dylai'r Cyngor llawn gael y cyfle i bleidleisio cyn i; "becynnau diswyddo mawr (a ddiffinnir fel y rhai â gwerth o £100,000 neu fwy) gael eu cymeradwyo ar gyfer staff sy'n gadael y sefydliad …."
- "Gan bod y taliad digolledu arfaethedig o £95,000 islaw'r trothwy a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, y casgliad rhesymegol yw bod Llywodraeth Cymru wedi dehongli bod y ddeddfwriaeth yn golygu bod swm digolledu is na £100,000 yn swyddogaeth weithredol yn rhinwedd y darpariaethau diofyn yn Adran 13(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000".
- yn unol ag Adran 15(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymdrin â'r trefniadau gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd, "gan nad yw'r Arweinydd wedi dyrannu'r swyddogaeth hon yn benodol [cymeradwyo pecynnau diswyddo mewn perthynas â Phrif Swyddogion sydd islaw £95,000] ... gall yr arweinydd gweithredol gyflawni unrhyw swyddogaethau o blith y rheiny [nas dyrannwyd]…."

144 Daeth y Swyddog Monitro ar y pryd i'r casgliad mai: "Fy nghyngor i felly yw bod unrhyw benderfyniad i roi taliad digolledu o £95,000 i'r Prif Weithredwr yn un y gall yr Arweinydd ei hun ei wneud" ac y byddai angen i benderfyniad yr Arweinydd, fel un a wnaed gan aelod Cabinet unigol, gael ei gofnodi mewn Adroddiad ICM a fyddai'n "cael ei ddrafftio gan Swyddog Adnoddau Dynol ac y byddai angen rhoi'r ystyriaethau arferol pa un a fyddai'r cyfan neu ran o'r Adroddiad wedi'i esemptio. Byddai angen y mewnbwn arferol gan y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Gwasanaeth Cyfreithiol mewn perthynas â'r Adroddiad hwnnw".

145 Fe wnaeth y Swyddog Monitro gynnwys y cyfamodau yn ei chyngor. Nododd fod y cyngor yn cael ei roi i'r Arweinydd ar y ddealltwriaeth:

- "bod [y cyngor] wedi cael ei lunio o fewn ffrâm amser gyfyngedig iawn a'i fod o anghenraid yn fyr ac yn seiliedig ar ymchwil gyflym, gan bod ei angen fel mater o frys ar gyfer cyfarfod a fydd yn cael ei gynnal bore yfory."
- "ei fod wedi cael ei lunio yn absenoldeb y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol [ar y pryd] a Democrataidd sydd ar wyliau blynyddol ar hyn o bryd ac a fyddai fel arfer yn cynghori'r Arweinydd ynghylch materion cyfreithiol ac iddynt arwyddocâd a sensitifrwydd."
- ei bod hi'n "un o'r tri Swyddog a nodwyd ar gyfer colli eu swyddi o bosibl yn yr Adolygiad o Ailstrwythuro Uwch Reolwyr, ac er bod yr uchod yn gyfystyr â chyngor gweithdrefnol yn unig, y byddai angen i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd [ar y pryd] gymeradwyo unrhyw gyngor terfynol mewn perthynas â llywodraethu".

146 Y bore canlynol, 13 Awst 2020, fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gyngor y Swyddog Monitro ymlaen at Swyddog CLILC gyda'r neges eglurhaol ganlynol: "isod ceir cyngor y Swyddog Monitro fel a ofynnwyd sy'n cadarnhau bod yr Arweinydd yn gallu awdurdodi'r taliad y cyfeirir ato. Nid wyf wedi trafod y mater hwn gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol gan ei bod hi i ffwrdd ar wyliau blynyddol ac felly gyda'r disgresiwn hwnnw ... mae'r Swyddog Monitro wedi darparu'r cyngor er mwyn i chi allu ymdrin â materion heddiw".

147 Ar brynhawn 13 Awst 2020, fe ysgrifennodd Swyddog CLILC at Arweinydd y Cyngor, gyda chopi at y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, gan ddweud:

- "Mae Swyddog Monitro'r Cyngor wedi cadarnhau yn ysgrifenedig bod gennych chi'r awdurdod – fel Arweinydd y Cyngor – i gytuno ar daliad digolledu o £95,000."
- "Bydd angen adroddiad ICM (Aelod Cabinet Unigol) safonol, y bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ei baratoi ar eich rhan."

148 Ni wnaeth Swyddog CLILC rannu testun llawn cyngor y Swyddog Monitro gyda'r Arweinydd, ac felly nid yw'n ymddangos bod yr Arweinydd wedi cael ei wneud yn ymwybodol bod cyngor y Swyddog Monitro wedi'i gyfamodi'n helaeth, a bod y cyngor hwnnw wedi nodi'n benodol "byddai angen i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gymeradwyo unrhyw gyngor terfynol mewn perthynas â llywodraethu". Yn fy marn i, dylai'r ffaith bod cyngor y Swyddog Monitro wedi'i amodi fod wedi cael ei gwneud yn glir i'r Arweinydd, ond rwyf hefyd yn nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi gweld testun llawn y cyngor.

149 Rwyf wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro blaenorol ac wedi ceisio fy nghyngor cyfreithiol allanol fy hun ynghylch y cwestiwn a oedd yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod cyfreithlon i gytuno i roi taliad terfynu i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd. Rwyf wedi dod i'r casgliad nad oedd yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i gymeradwyo'r taliad digolledu a bod cyngor y Swyddog Monitro blaenorol yn anghywir.

150 Mae Adran 42 Deddf Lleoliaeth 2011 yn nodi mewn perthynas â swyddogaethau a roddir i awdurdod dan Bennod 8, Rhan I Deddf Lleoliaeth 2011 "na ddylent fod yn gyfrifoldeb i un o aelodau gweithredol yr awdurdod dan drefniadau gweithredol".

151 Mae Adran 41, Pennod 8, Deddf Lleoliaeth 2011 yn darparu bod rhaid i awdurdod gydymffurfio â'i ddatganiad ar bolisi tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol wrth wneud penderfyniad sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol un o brif swyddogion yr awdurdod, neu delerau ac amodau eraill sy'n berthnasol iddynt. Fel a nodwyd yn gywir gan y Swyddog Monitro ar y pryd, y diffiniad o gydnabyddiaeth ariannol yw "unrhyw symiau sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r prif swyddog pan fo'r prif swyddog yn rhoi'r gorau i ddal swydd dan yr awdurdod neu gael ei gyflogi gan yr awdurdod, ac eithrio symiau a all fod yn daladwy yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad".

152 Felly, yn fy marn i, mae'r swyddogaethau ym Mhennod 8 Deddf Lleoliaeth 2011 na ddylent fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn cynnwys pennu cydnabyddiaeth

ariannol prif swyddog, y gall rhannau ohoni fod yn gyfystyr â'r symiau sy'n daladwy i'r person hwnnw pan fo'n rhoi'r gorau i ddal swydd neu gael ei gyflogi.

153 Rwy'n cydnabod y gellid dadlau mai'r "swyddogaeth" berthnasol yn adran 41 yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r polisi tâl, yn hytrach na'r pŵer i bennu cydnabyddiaeth ariannol. Fodd bynnag, nid wyf yn ystyried bod y ddadl hon yn berswadiol oherwydd er mwyn cydymffurfio â'r datganiad ar bolisi tâl dan adran 41, rhaid i'r awdurdod wneud penderfyniad, ac mae felly'n dilyn bod penderfyniad hefyd yn swyddogaeth berthnasol. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r datganiad ar bolisi tâl fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod (ac yn benodol nid yn ddyletswydd i'r weithrediaeth) ond y gallai pennu cydnabyddiaeth ariannol fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Ni allai'r awdurdod gyflawni ei dyletswydd mewn modd sy'n gyson â'r ddyletswydd yn peidio â bod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth pe bai'n caniatáu i'r penderfyniad gael ei wneud gan y weithrediaeth.

154 Heblaw am y dehongliad o'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Lleoliaeth 2011, rwy'n ystyried bod Cyfansoddiad y Cyngor yn ategu'r safbwynt na allai dyfarniad ynglŷn â thaliad diswyddo i Brif Swyddog fod yn benderfyniad gan y weithrediaeth. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi, "Rhaid i'r Cyngor bennu lefel, ac unrhyw newid yn lefel, y gydnabyddiaeth ariannol a delir i Brif Swyddog fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006".[13] Felly, mae pennu lefel, ac unrhyw newid yn lefel, y gydnabyddiaeth ariannol a delir i Brif Swyddog dan ddarpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor yn swyddogaeth i'r Cyngor. Rwyf hefyd yn nodi bod y Cyfansoddiad yn nodi mai swyddogaethau i'r Cyngor ac nid swyddogaethau gweithredol yw swyddogaethau mewn perthynas ag arian rhodd. Mae hyn yn ategu'r safbwynt ymhellach mai swyddogaeth i'r Cyngor ac nid swyddogaeth i'r weithrediaeth oedd penderfyniadau ynglŷn â thaliadau diswyddo.

155 Yn ei chyngor, cyfeiriodd y Swyddog Monitro ar y pryd at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011 (ac y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt). Nododd fod y canllawiau'n argymell y dylai awdurdodau gynnig y cyfle i'r cyngor llawn bleidleisio cyn bod pecynnau diswyddo mawr (y rhai sydd dros £100,000) yn cael eu cymeradwyo ar gyfer prif swyddogion sy'n gadael y sefydliad. Nododd mai'r "casgliad rhesymegol" wrth ystyried hyn oedd y gallai pecynnau diswyddo islaw'r trothwy perthnasol fod yn benderfyniadau gweithredol. Nid wyf yn cytuno â barn y Swyddog Monitro blaenorol. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol a nodir uchod yn dynodi penderfyniadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion (gan gynnwys symiau sy'n daladwy wrth roi'r gorau i ddal swydd neu gyflogaeth) fel penderfyniad i'r Cyngor yn hytrach na'r weithrediaeth. Hefyd, mae

[13] Diffinnir cydnabyddiaeth ariannol yn y Rheoliadau hyn yn yr un ffordd ag yn Neddf Lleoliaeth 2011. Mae felly'n cynnwys symiau sy'n daladwy i berson pan fo'n rhoi'r gorau i ddal swydd neu gael ei gyflogi.

darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi nad swyddogaethau gweithredol oedd penderfyniadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion.

156 Dywedodd y Swyddog Monitro blaenorol wrth fy archwilwyr na fu ganddi unrhyw ymwneud â thrafodaethau na negodiadau ynglŷn ag ymadawiad y Prif Weithredwr ar y pryd ar ôl 4 Mawrth 2020, ac rwy'n derbyn mai felly yr oedd hi. Mae hi'n haeru, pan gafodd ei chyfarwyddo ar 12 Awst 2020 am 15:32 i ddarparu cyngor brys i ddynodi pa un a allai'r Arweinydd gymeradwyo'r taliad i'r Prif Weithredwr bod y cyfarwyddyd wedi cyrraedd heb unrhyw rybudd ymlaen llaw. Mae hi'n haeru, ar adeg cael y cyfarwyddiadau, bod ei llwyth gwaith yn arbennig o drwm, a'i bod ar fin cymryd gwyliau blynyddol o 14 Awst 2020. Gofynnwyd iddi ddarparu cyngor ar gyfer cyfarfod ar 13 Awst 2020 a darparodd gyngor wedi'i gyfamodi am 23:02 ar 12 Awst 2020. Mae hi'n haeru, "ar y cam hwn, nid oedd unrhyw arwydd bod y partïon yn amcanu at ddwyn y mater yma i ben o fewn pythefnos a chyn fy nychweliad o wyliau blynyddol". Nid oes gennyf unrhyw reswm dros amau cyfrif y Swyddog Monitro o'r amgylchiadau pan roddodd ei chyngor.

157 Rwy'n derbyn bod y Swyddog Monitro blaenorol wedi cael ei chyfarwyddo i ddarparu cyngor heb rybudd ac o fewn ffrâm amser fer iawn. Gan hynny, rwy'n ystyried y gall y cais fod wedi bod yn afresymol. Rwyf hefyd yn cydnabod bod cyngor y Swyddog Monitro wedi'i gyfamodi fel a nodir ym **mharagraff 145**. Fodd bynnag, roedd gan gyn-Swyddog Monitro'r Cyngor ddyletswydd statudol i adrodd i'r Cyngor ar faterion yr oedd yn credu eu bod yn anghyfreithlon, neu'n debygol o fod yn anghyfreithlon neu'n gyfystyr â chamweinyddu. Byddwn felly wedi disgwyl i'r Swyddog Monitro blaenorol fod wedi sicrhau bod ei chyngor ynghylch y cwestiwn pa un a oedd yr Arweinydd yn meddu ar awdurdod i gymeradwyo'r taliad i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn gadarn. Os oedd hi'n ystyried na allai ddarparu cyngor cadarn o fewn y ffrâm amser a oedd wedi'i nodi yn y cais, byddwn wedi disgwyl iddi wneud hyn yn glir.

158 Rwyf hefyd yn nodi, er bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi gofyn i'r Swyddog Monitro blaenorol gynghori o fewn ffrâm amser fer iawn, ar 8 Rhagfyr 2020 fe ysgrifennodd fy archwilwyr at y Swyddog Monitro ar y pryd yn gofyn iddi nodi yn ysgrifenedig ar ba sail yr oedd hi'n ystyried y gallai'r taliad i'r Prif Weithredwr ar y pryd gael ei wneud yn gyfreithlon fel penderfyniad gan y Weithrediaeth. Fe ymatebodd y Swyddog Monitro ar 23 Rhagfyr 2020 gan haeru, a hithau wedi ailystyried ei chyngor ar 12 Awst 2020, ei bod yn dal i fod o'r farn bod y penderfyniad i roi taliad terfynu o £95,000 i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn benderfyniad a allai gael ei wneud fel penderfyniad gan y Weithrediaeth. Rwyf felly'n ystyried, pe bai'r Swyddog Monitro ar y pryd wedi cael ffrâm amser hwy i ymateb, ei bod yn annhebygol y byddai ei chasgliad ar y cyfan wedi bod yn wahanol.

159 Ar 14 Awst 2020, fe anfonodd Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd ei chyngor dyddiedig 12 Awst 2020 at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd. Fel a nodir ym **mharagraff 145**, yn ei neges e-bost dyddiedig 12 Awst 2020 dywedodd y Swyddog Monitro ar y pryd y "byddai angen i'r Pennaeth

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gymeradwyo unrhyw gyngor terfynol mewn perthynas â llywodraethu”.

160 Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar wyliau blynyddol yn hanner cyntaf mis Awst 2020 tan 17 Awst 2020, ond fe ymatebodd i’r Swyddog Monitro ar y pryd ar ddydd Sul 16 Awst 2020, y diwrnod cyn ei dychweliad. Yn ei hymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei bod yn cytuno â’r “dehongliad o’r sefyllfa dan y Ddeddf Lleoliaeth” gan y Swyddog Monitro. Roedd y Swyddog Monitro wedi hysbysu ar 12 Awst 2020, gan gyfeirio at Ddeddf Lleoliaeth 2011, bod “unrhyw benderfyniad i roi taliad digolledu o £95,000 i’r Prif Weithredwr yn un y gall yr Arweinydd ei hun ei wneud”.

161 Am y rhesymau a nodir ym **mharagraffau 149 i 155**, rwy’n ystyried bod cyngor y Swyddog Monitro blaenorol yn anghywir, a bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd hefyd yn anghywir pan fynegodd ei bod yn cytuno â’r cyngor. Ar sail y cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro ar y pryd yr oedd yr Arweinydd a’r rhai a oedd yn rhan o’r negodiadau wedi’u hargyhoeddi bod y penderfyniad i roi taliad terfynu i’r Prif Weithredwr ar y pryd yn un a allai gael ei wneud gan yr Arweinydd, pan nad oedd yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod cyfreithlon i wneud y penderfyniad yn fy marn i. Ac yntau’n gweithredu ar y cyngor hwn, fe benderfynodd yr Arweinydd roi taliad terfynu o £95,000 i’r Prif Weithredwr. Yn fy marn i, mae’r taliad yn anghyfreithlon am nad oedd yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod i’w awdurdodi.

162 Rwy’n cydnabod mai dim ond llys barn all benderfynu’n derfynol a oedd y taliad i’r Prif Weithredwr blaenorol yn anghyfreithlon ond, yn fy marn i, roedd y taliad yn anghyfreithlon.

## Fe gododd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor bryder gyda Swyddog Monitro’r Cyngor efallai nad oedd y taliad arfaethedig i Brif Weithredwr y Cyngor yn cydymffurfio â datganiad ar bolisi tâl statudol y Cyngor, ond nid ymdriniwyd â’r pryder hwn ac ymddengys fod y Cyngor wedi gwyro oddi wrth ei ddatganiad ar bolisi tâl heb allu dangos rheswm da dros fod wedi gwneud hynny

163 Fel a nodir ym **mharagraff 160**, ar 16 Awst 2020 fe ymatebodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd  i gyngor y Swyddog Monitro ar y pryd a roddwyd ar 12 Awst lle’r oedd y Swyddog Monitro’n dweud, “Fy nghyngor i felly yw bod unrhyw benderfyniad i roi taliad digolledu o £95,000 i’r Prif Weithredwr yn un y gall yr Arweinydd ei hun ei wneud”. Yn ei hymateb, mynegodd

y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei chytundeb â chyngor y Swyddog Monitro ond dywedodd ei bod yn cwestiynu a oedd y taliad arfaethedig i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn unol â Datganiad ar Bolisi Tâl y Cyngor. Mae'n ofynnol dan ddarpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddatganiad ei hun ar bolisi tâl wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag unrhyw symiau sy'n daladwy i brif swyddog pan fo'r prif swyddog hwnnw'n rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan yr awdurdod. Amlygodd nad oedd yn ymddangos bod y taliad arfaethedig i'r Prif Weithredwr ar y pryd wedi'i gynnwys yn natganiad ar bolisi tâl y Cyngor ar gyfer 2020-21 a hefyd, "mae dwy elfen i'm pryder, sef (i) pa baramedrau y mae'r rhai sy'n cynghori ynghylch y setliad yn gweithio oddi mewn iddynt ac a ydynt yn deg a (ii) beth yw'r neges i'r Aelod [sic] mewn perthynas â sut y cyfrifwyd y ffigwr yn niffyg polisi clir".

164 Rwy'n nodi bod datganiad ar bolisi tâl y Cyngor ar gyfer 2020-21 yn nodi fel a ganlyn: "mae dull y Cyngor o ran taliadau statudol ac yn ôl disgresiwn wrth derfynu cyflogaeth prif swyddogion (a'r holl gyflogeion eraill) oherwydd colli swydd neu er lles y gwasanaeth wedi'i nodi yn ei bolisi dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Digolllediad yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006. Cyfeirier at Atodiad D".

165 Mae methiant y Cyngor i ddogfennu'r rheswm pam y rhoddodd daliad terfynu i'w Brif Weithredwr ar y pryd yn golygu nad wyf wedi gallu dod i gasgliad pendant ynglŷn â natur y taliad. Fodd bynnag, yn niffyg tystiolaeth glir mai setlo anghydfod cyflogaeth penodol oedd diben y taliad, rwy'n ystyried ei bod yn fwy tebygol na pheidio mai taliad yn ôl disgresiwn a wnaed i Brif Swyddog wrth derfynu ei gyflogaeth yn wirfoddol oedd y taliad. Rwyf felly'n ystyried, er mwyn cydymffurfio â'i ddatganiad ar bolisi tâl, y dylai'r Cyngor fod wedi cyfrifo'r taliad i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn unol â'i bolisi ar gyfer gwneud taliadau digolledu yn ôl disgresiwn dan Reoliad 6 yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Digolllediad yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (y Rheoliadau).

166 Ni chafodd swm y taliad a roddwyd i'r Prif Weithredwr blaenorol ei bennu yn unol â'r Rheoliadau, ac rwyf felly'n ystyried y gall y Cyngor fod wedi torri adran 41 Deddf Lleoliaeth 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'i ddatganiad ar bolisi tâl.

167 Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrth fy archwilwyr na wnaeth y Swyddog Monitro ar y pryd ymateb i'w neges e-bost dyddiedig 16 Awst 2020. Roedd y Swyddog Monitro ar wyliau blynyddol o 14 Awst 2020 am gyfnod o ddwy wythnos, er ei bod wedi dweud wrth fy archwilwyr ei bod wedi ceisio ymateb i nifer gyfyngedig o eitemau brys yn ystod ei chyfnod o wyliau. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu yr ymdriniwyd â'r pryder a godwyd gyda'r Swyddog Monitro ar y pryd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd.

## Roedd proses benderfynu’r Cyngor mewn perthynas ag ymadawiad ei Brif Weithredwr gyda thaliad terfynu’n sylfaenol ddiffygiol ac ni chydymffurfiodd â gofynion deddfwriaethol

### Fe wnaeth Swyddog Monitro blaenorol y Cyngor gynghori’n gywir, lle’r oedd Aelod Cabinet unigol yn gwneud penderfyniad gweithredol bod angen hysbysu ynghylch y penderfyniad mewn adroddiad ar benderfyniad gan aelod cabinet unigol

168 Fel a nodir ym **mharagraffau 142 i 162**, yn fy marn i roedd y penderfyniad i roi taliad terfynu i Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor yn benderfyniad, dan ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor, na allai gael ei wneud gan Arweinydd y Cyngor fel swyddogaeth weithredol.

169 Yn y cyngor a e-bostiwyd gan y Swyddog Monitro ar y pryd ar 12 Awst 2020 fe gynghorodd, yn anghywir yn fy marn i, y gallai’r Arweinydd wneud y penderfyniad hwn, ond y byddai angen i’r penderfyniad gael ei gofnodi ar ffurf adroddiad Aelod Cabinet Unigol (ICM): “ceir fformat Adroddiad safonol ar gyfer adroddiadau ICM y mae’r holl Aelodau’n gyfarwydd ag ef bellach. Byddwn i’n dychmygu y byddai’r Adroddiad yn cael ei ddrafftio gan Swyddog Adnoddau Dynol ac y byddai angen rhoi’r ystyriaethau arferol pa un a fyddai’r cyfan neu ran o’r Adroddiad wedi’i esemptio. Byddai angen y mewnbwn arferol gan y Cyfarwyddwr Adnoddau a’r Gwasanaeth Cyfreithiol mewn perthynas â’r Adroddiad hwnnw".[14] Roedd y Swyddog Monitro’n cyfeirio at y datganiadau ysgrifenedig sy’n ofynnol dan Reoliad 7 yn y Rheoliadau Penderfyniadau fel adroddiadau Aelod Cabinet Unigol (ICM)

170 Mae Cyfansoddiad y Cyngor, sy’n adlewyrchu rheoliad 7 yn y Rheoliadau Penderfyniadau, yn ei gwneud yn ofynnol llunio adroddiad ICM mewn perthynas â phenderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd neu’r Dirprwy Arweinydd i gael ei

[14] Roedd y Swyddog Monitro ar y pryd yn cyfeirio yn ei neges e-bost at ofynion Rheoliad 7 yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (y Rheoliadau Penderfyniadau) sy’n ei gwneud yn ofynnol llunio datganiad ysgrifenedig cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl penderfyniad gweithredol gan aelod unigol o’r weithrediaeth. Mae’r Rheoliadau Penderfyniadau’n nodi’r wybodaeth sy’n ofynnol dan y datganiadau hynny, gan gynnwys y dyddiad, rhesymau, ac unrhyw fuddiannau a ddatganwyd. Ni ddylai penderfyniadau gweithredol unigol gael eu rhoi ar waith nes bod y datganiad ysgrifenedig wedi cael ei lunio, ac eithrio mewn achosion brys lle ceir cytundeb ynglŷn â natur frys y penderfyniad gan gadeirydd y pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol.

gyflwyno yn y Cyfarfod Cabinet nesaf. Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn nodi fel a ganlyn:

- mae'n ofynnol i swyddog perthnasol sy'n cael cais i lunio adroddiad ICM i gael ei ystyried gan Aelod Cabinet Unigol anfon copi o'r adroddiad hwnnw at yr Aelod Cabinet Unigol, yr Arweinydd, y Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol.
- rhaid i Aelod Cabinet Unigol sy'n bwriadu gwneud penderfyniad Gweithredol ddisgwyl am 3 diwrnod ar ôl cael adroddiad ICM gan swyddog perthnasol i wneud y penderfyniad.
- rhaid i'r Aelod Cabinet Unigol ystyried yr adroddiad ICM cyn gwneud unrhyw benderfyniad a dychwelyd yr adroddiad ICM wedi'i lofnodi at y Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau gyda chopi at y Swyddog perthnasol a baratôdd yr adroddiad.
- rhaid i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau ddarparu copi o'r ffurflen penderfyniad wedi'i llofnodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a rhaid cyhoeddi'r penderfyniad ar wefan y Cyngor a'i anfon at holl Aelodau'r Cyngor.
- ni ellir rhoi'r penderfyniad ar waith nes bod tri diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r penderfyniad ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gall Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, unrhyw bedwar aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, neu unrhyw chwe aelod o'r Cyngor ofyn am 'alw'r penderfyniad i mewn' i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Gall y Pwyllgor ei gwneud yn ofynnol bod penderfyniad a wnaed ond nas rhoddwyd ar waith eto'n cael ei ailystyried.

171 Mae Adran 5, paragraff 6 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn nodi y dylai adroddiad ICM mewn perthynas â phenderfyniad a wneir gan yr Arweinydd gael ei lunio gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd, "cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd wneud unrhyw benderfyniad gweithredol, dylai gyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i lunio datganiad ysgrifenedig o'r penderfyniad gweithredol hwnnw".

172 Er fy mod yn anghytuno â chyngor y Swyddog Monitro blaenorol bod yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i benderfynu ynglŷn â phecyn diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr ar y pryd, rwy'n cytuno, os oedd yr Arweinydd yn meddu ar yr awdurdod i wneud y penderfyniad y byddai wedi bod yn angenrheidiol adrodd ar y penderfyniad hwn a'i gyhoeddi gan ddefnyddio adroddiad ICM er mwyn ateb gofynion y Rheoliadau Penderfyniadau a Chyfansoddiad y Cyngor ei hun.

173 Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 183 i 186**, fe wnaeth Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor gynghori'r Arweinydd yn ddiweddarach y gallai'r penderfyniad gael ei wneud fel penderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Yn fy marn i roedd y cyngor hwn yn anghywir.

174 Ar 17 Awst 2020, fe anfonodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd e-bost at Bennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gan ddweud: “Rwyf wedi ystyried ein sgwrs gynharach ac er gwaethaf fy mrwdfrydedd yn seiliedig ar ddulliau blaenorol lle’r oedd [Cytundebau Setlo] yn y cwestiwn rwy’n cofio bod angen i rywun yn rhywle wneud penderfyniad ... ac fel trafodiad cwbl ariannol byddwn yn awgrymu y dylai’r adroddiad [Aelod Cabinet Unigol] gael ei ysgrifennu gan [y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol] ac y dylai’r penderfyniad yn ei gylch gael ei wneud gan yr Arweinydd. Fe wnaf ddrafftio adroddiad amlinellol i chi lenwi’r bylchau a’i rannu gyda’r [Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol]”. Fel a nodir ym **mharagraff 171**, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi, lle mae’r Arweinydd yn gwneud unrhyw benderfyniad gweithredol, dylai gyfarwyddo’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i lunio datganiad ysgrifenedig o’r penderfyniad gweithredol hwnnw.

175 Fe ymatebodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd gan ddweud, “Deallais o’n sgwrs gynharach nad oedd unrhyw angen am adroddiad [Aelod Cabinet Unigol] – a yw hynny’n gywir? Os felly, nid oes angen i ni boeni ymhellach am y pwynt yma (ac fe allem ni yn syml ofyn i’r Arweinydd hysbysu’r [Cyfarwyddwr Adnoddau] trwy e-bost y bydd elfen ariannol i’r [Cytundeb Setlo] hwn a’i fod wedi cytuno ar hynny). Fe arhosaf i glywed”.

176 Fe ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gan ddweud, “yn gynharach roeddwn yn archwilio gyda chi a oedd unrhyw opsiynau o ran peidio ag adrodd yn ffurfiol yng ngoleuni penderfyniadau blaenorol, gan fod yn ymwybodol o’r potensial i faterion godi o ganlyniad i gyhoeddi’r adroddiad [Aelod Cabinet Unigol]. Fodd bynnag, a minnau wedi ystyried y sefyllfa ymhellach, rwyf wedi dod i’r casgliad nad oes unrhyw ffordd y gellir osgoi cofnodi’r penderfyniad hwn yn briodol ac yn ffurfiol”. Mae’r e-bost hefyd yn nodi, “Rwy’n ymwybodol bod [y Prif Weithredwr] yn arbennig o bryderus ynghylch y mecanwaith adrodd a’r goblygiadau”

177 Mae cynnwys y negeseuon e-bost hyn yn awgrymu i mi bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd a’r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi ystyried a thrafod opsiynau i osgoi’r broses adrodd ffurfiol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd a’r Pennaeth Adnoddau Dynol wrth fy archwilwyr nad felly yr oedd hi ac nad oeddent yn ceisio osgoi adrodd yn ffurfiol ar y penderfyniad. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth fy archwilwyr fod ei sylwadau mewn neges e-bost a nodir ym **mharagraff 176** yn ymwneud â sgwrs gynharach a gafodd gyda’r Pennaeth Adnoddau Dynol lle’r oedd wedi ei hysbysu, “bod nifer o [Gytundebau Setlo] diweddar wedi bod gyda phrif swyddogion a oedd wedi cael eu cymeradwyo a heb gael eu cofnodi”, ac os oedd yr hyn a ddywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol wrthi’n wir, y “gallai penderfyniadau gael gwneud a’u rhoi ar waith heb broses benderfynu ffurfiol, ac yn amlwg ni fyddai hynny’n dderbyniol!”. Fodd bynnag, yr unig benderfyniad yr adroddwyd arno mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu oedd hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd

i swyddog nad oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at y Prif Weithredwr (gan ei fod yn cyfeirio dim ond at Brif Swyddog) nad oedd yn darparu unrhyw reswm dros ymadawiad y Prif Weithredwr nac yn egluro beth oedd diben y taliad terfynu. Beth bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 142 i 162**, yn fy marn i ni chafodd y penderfyniad i roi taliad terfynu i'r Prif Weithredwr ei wneud gan ddilyn proses benderfynu briodol, gyfreithlon.

178 Ar 18 Awst 2020, fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd at y Pennaeth Adnoddau Dynol, gyda chopi at y Swyddog Monitro ar y pryd, gan ddweud, "Rwyf wedi drafftio ICM i chi ei ystyried. Mae angen cyfarwyddyd pellach mewn perthynas â'r darnau mewn cromfachau a'r darnau lle ceir gofynodau. Gan y gall fod ar yr Arweinydd eisiau i chi archwilio'r opsiwn o benderfyniad a ddirprwywyd gyda [y Cyfarwyddwr Adnoddau] fe af ati yn awr i ddrafftio cofnod o benderfyniad a ddirprwywyd ac fe'i hanfonaf ymlaen maes o law ar gyfer sylwadau".

179 Nid yw'n glir o'r adroddiad ICM drafft pa un a oedd y penderfyniad perthnasol yn ymwneud â:

- chytuno i ymrwymo i Gytundeb Setlo (neu gytuno ar swm mewn perthynas â Chytundeb Setlo); ynteu
- cymeradwyo defnydd o arian mewn perthynas â'r Cytundeb Setlo.

180 Mae'r amwysedd hwn yn parhau mewn gohebiaeth fewnol ac fe dynnwyd sylw ato gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor mewn e-bost ar 18 Awst 2020 at y Pennaeth Adnoddau Dynol. Roedd hwn yn nodi y gellid tybio bod y posibilrwydd y byddai'r "penderfyniad" yn cael ei wneud gan yr Arweinydd yn cael ei drafod "ar y sail bod y penderfyniad yn ymwneud â chymeradwyaeth ariannol i'r setliad, yn hytrach na phenderfyniad ynghylch mater cyflogaeth, nad yw'n gallu bod yn benderfyniad gweithredol".

181 Ni wnaeth ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor fynegi barn mewn perthynas â'r penderfyniad blaenorol ynglŷn â chymeradwyaeth ariannol (h.y. pa un a ddylid ymrwymo i Gytundeb Setlo ai peidio ac ar ba delerau) yn eu neges e-bost. Pan welodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd, fe'i gwnaeth yn glir i'r Pennaeth Adnoddau Dynol nad oedd yn ofynnol cael cyngor cyfreithiol allanol ynghylch y broses benderfynu: "Gofynnais yn benodol i'r cyngor gan [ein hymgynghorwyr cyfreithiol] fod mewn perthynas â'r effaith os o gwbl ar y [Cytundeb Setlo] os caiff y Cytundeb Setlo ei herio trwy'r broses benderfynu. Yn hyn o beth nid oeddwn yn gofyn am unrhyw farn ynglŷn â'r broses benderfynu ei hun, mae'r cyngor hwnnw gennych chi ,,, oddi wrthyf fi a'r [Swyddog Monitro ar y pryd]. Nid wyf yn mynd i ddarparu unrhyw farn mewn ymateb i'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan [ein hymgynghorwyr cyfreithiol allanol] ynglŷn â'r broses benderfynu o gwbl".

182 Yn ddiweddarach yr un diwrnod, 18 Awst 2020, fe anfonodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd neges e-bost bellach at y Pennaeth Adnoddau Dynol gyda chopi at y Swyddog Monitro ar y pryd gan ddweud: "wedi'i atodi mae dull a awgrymir ar gyfer adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd os

yw'r Arweinydd a [y Cyfarwyddwr Adnoddau] yn cytuno â'r dull hwn. Mae'r opsiwn hwn yn ddichonadwy fel penderfyniad ar ei ben ei hun gan Gyfarwyddwr gan ddilyn para 5.2, adran 5, rhan 3 y Cyfansoddiad. Wedi'i atodi wrth yr e-bost roedd hysbysiad drafft o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog i gael ei gymeradwyo yn enw'r Cyfarwyddwr Adnoddau, gyda'r penderfyniad wedi'i nodi fel a ganlyn: "bod [swm o ddim mwy na £100k [swm o £95k] [swm setlo] yn cael ei gymeradwyo mewn perthynas â'r Cytundeb Setlo".

183 Ar 1 Medi 2020, fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd at yr Arweinydd, gyda chopi at y Cyfarwyddwr Adnoddau gan atodi'r adroddiad ICM drafft a'r adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yr oedd hi wedi'i baratoi. Roedd yr e-bost yn nodi'r canlynol:

- nid oedd y penderfyniad yn fater yr oedd yn ofynnol cyflwyno adroddiad arno i'r Cyngor gan bod y swm dan sylw'n is na'r trothwy o £100,000 sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn, ac "er bod y cytundeb setlo ei hun wedi cael ei lofnodi bellach ac y gellir dibynnu arno, heb benderfyniad ffurfiol nid oes gan y Cyngor unrhyw gofnod o ddyrannu'r swm o arian i gyflawni'r cytundeb".
- roedd adroddiad ICM drafft ac adroddiad drafft ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog wedi cael eu paratoi i ddarparu dau opsiwn i gofnodi dyrannu'r swm o arian a oedd wedi'i nodi yn y Cytundeb Setlo.
- roedd y Cytundeb Setlo wedi cael ei lofnodi gyda "phenderfyniad unfrydol y Cabinet i dderbyn yr ymddiswyddiad, a dealltwriaeth bod y telerau o ran colli cyflogaeth yn cael eu nodi yn y Cytundeb Setlo gan gynnwys taliad digolledu".
- roedd dau opsiwn ar gael i'r Arweinydd o ran cyflwyno adroddiad:
  - cofnodi'r penderfyniad trwy ICM: "byddai hyn yn dilyn proses safonol, a bydd yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael i unrhyw aelod/y cyhoedd ei weld. Efallai y bydd cwestiynau wedi ynglŷn â beth mae'r penderfyniad yn ei olygu ac efallai y byddwch yn dymuno ystyried defnyddio datganiad i'r wasg ar y cyd rhwng y ddwy ochr ar adeg ei gyhoeddi. Os nad yw'r mater yn cael ei alw i mewn [gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol], daw'r penderfyniad i rym ar y trydydd diwrnod yn dilyn ei gyhoeddi".
  - "bod y Cyfarwyddwr Adnoddau'n llofnodi penderfyniad a ddirprwywyd. Gan bod y penderfyniad yn ymwneud yn bennaf â dyrannu adnoddau ariannol efallai y bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau'n barod i lofnodi penderfyniad a ddirprwywyd a bydd hynny'n osgoi'r angen i fynd trwy broses ICM. Er bod y penderfyniad yn dod i rym unwaith y caiff ei lofnodi, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ac eto byddai'n ddoeth cyhoeddi datganiad i'r wasg ar yr adeg hon."

184 Cafodd yr e-bost a anfonwyd at yr Arweinydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn nodi'r opsiynau ar gyfer cofnodi'r penderfyniad ei anfon ar 1 Medi 2020. Fodd bynnag, roedd y Cytundeb Setlo eisoes wedi cael ei

lofnodi gan yr Arweinydd a’r Prif Weithredwr ar y pryd ar 27 Awst 2020, felly roedd yr Arweinydd eisoes wedi gwneud y penderfyniad i ymrwymo i gytundeb i dalu £95,000 i’r Prif Weithredwr ar adeg terfynu ei gyflogaeth.

185 Ni wnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd anfon yr opsiynau o ran cyflwyno adroddiad ac ICM Drafft at yr Arweinydd tan ar ôl i benderfyniad yr Arweinydd gael ei wneud. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl cydymffurfio â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas ag adroddiadau ICM (gweler **paragraff 170**). Roedd y gofynion hyn yn cynnwys bod “rhaid i Aelod Cabinet Unigol sy’n bwriadu gwneud penderfyniad Gweithredol ddisgwyl am 3 diwrnod ar ôl cael adroddiad ICM gan swyddog priodol i wneud y penderfyniad”.

186 Nid wyf wedi gweld ymateb oddi wrth yr Arweinydd i e-bost y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd dyddiedig 1 Medi 2020 (gweler **paragraff 183**). Fodd bynnag, ar 2 Medi 2020 cafodd hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog dyddiedig 1 Medi 2020 yn enw’r Cyfarwyddwr Adnoddau ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Ni chyhoeddwyd adroddiad ICM. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth fy archwilwyr ei fod wedi cwrdd â’r Arweinydd a’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar 1 Medi 2020, a’i fod yn deall bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn ffafrio’r opsiwn i gofnodi’r penderfyniad fel penderfyniad a ddirprwywyd i swyddog, “i gymeradwyo dyrannu adnoddau i dalu’r £95,000”.

187 Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd wrth fy archwilwyr ei bod hi’n ystyried nad oedd gofyniad i gyhoeddi Adroddiad ICM am mai penderfyniad gan y Cyfarwyddwr Adnoddau i awdurdodi taliad i’r Prif Weithredwr oedd y penderfyniad adroddadwy yn yr achos hwn.

188 Nid wyf yn cytuno â barn Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd. Rwy’n ystyried mai penderfyniad yr Arweinydd i ymrwymo i’r setliad oedd y penderfyniad adroddadwy. Trwy lofnodi’r Cytundeb Setlo, fe grëwyd rhwymedigaeth gyfreithiol i roi taliad o £95,000 i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd ar adeg terfynu ei gyflogaeth. Yr hysbysiad o benderfyniad a wnaed gan y Cyfarwyddwr Adnoddau dyddiedig 1 Medi 2020 oedd “cymeradwyo swm o £95k yn unol â’r Cytundeb Setlo”, a’r rhesymau a roddwyd oedd “cyflawni cydnabyddiaeth ariannol deg a chyfiawn i ategu Cytundeb Setlo”. Mae’r hysbysiad o benderfyniad yn cyfeirio at “Gytundeb Setlo fel a gytunwyd [pwyslais wedi’i ychwanegu] rhwng y Cyngor a phrif swyddog”.

189 Mae’n ymddangos yn weddol glir bod yr hysbysiad hwn o benderfyniad yn cofnodi rhyddhau’r arian a oedd yn ofynnol dan y Cytundeb Setlo, yr oedd ei delerau eisoes wedi cael eu cytuno. Nid oes unrhyw amod yn gysylltiedig ag ef, er enghraifft, “os cytunir ar setliad”, nac unrhyw awgrym mai ymrwymo i Gytundeb Setlo ac ar ba delerau oedd y penderfyniad. Caiff y ffaith bod yr hysbysiad o benderfyniad ar 1 Medi 2020 yn syml yn weithred i gofnodi bod arian wedi’i gymeradwyo, rhywbeth a oedd eisoes wedi cael ei gytuno dan y Cytundeb Setlo, ei

ategu gan y ffaith, fel a nodir ym **mharagraff 19**, bod y Cytundeb Setlo wedi'i lofnodi gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ar 27 Awst 2020.

190 Cydnabyddir hyn mewn e-bost a anfonwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd at yr Arweinydd (gyda chopi at y Cyfarwyddwr Adnoddau) ar 1 Medi 2020, lle nododd fod yr Arweinydd wedi llofnodi'r Cytundeb Setlo, bod y Cabinet wedi derbyn ymddiswyddiad y Prif Weithredwr blaenorol, ac y gellid dibynnu ar y cytundeb.

191 Dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor wrth fy archwilwyr na fu ganddo unrhyw ymwneud â'r penderfyniad i ymrwymo i Gytundeb Setlo a'i fod yn deall bod y Cytundeb Setlo'n cynrychioli rhwymedigaeth gyfrwymol. Ymddengys i mi mai diben bwriadedig penderfyniad y Cyfarwyddwr Adnoddau oedd awdurdodi rhyddhau arian i dalu symiau y cytunwyd arnynt eisoes yn y Cytundeb Setlo, a chofnodi bod y symiau hynny'n cael eu dyrannu. Gan hynny, nid yw'n ymddangos bod y penderfyniad i ymrwymo i Gytundeb Setlo wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Adnoddau.

192 Hyd yn oed os wyf yn anghywir ar y mater hwn, nid wyf yn ystyried bod penderfyniad i gymeradwyo rhoi taliad terfynu i un o brif swyddogion y Cyngor yn un a allai fod wedi cael ei wneud fel penderfyniad a ddirprwywyd i swyddog beth bynnag (gweler **paragraffau 194 i 199**).

193 Yn fy marn i, methodd y Cyngor â llunio datganiad ysgrifenedig o benderfyniad yr Arweinydd i ymrwymo i'r Cytundeb Setlo. Rwyf felly'n ystyried y byddai'r Cyngor wedi torri'r Rheoliadau Penderfyniadau pe bai'r penderfyniad perthnasol yn un y gellid ei wneud fel penderfyniad gweithredol gan Aelod Cabinet Unigol. Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraffau 149 i 162**, rwy'n ystyried nad oedd y penderfyniad yn un a oedd yn gallu cael ei wneud fel penderfyniad gweithredol.

## Yr unig benderfyniad yr adroddwyd arno mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda thaliad terfynu oedd hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yn enw'r Cyfarwyddwr Adnoddau; fodd bynnag, nid oedd Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i swyddogion bennu pecynnau diswyddo mewn perthynas â phrif swyddogion

194 Fel a nodir ym **mharagraff 21**, ar 2 Medi 2020 fe gyhoeddodd y Cyngor hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yn enw'r Cyfarwyddwr Adnoddau a oedd yn ymwneud ag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda thaliad terfynu. Mae'r hysbysiad yn cyfeirio at "Gytundeb Setlo y cytunwyd arno rhwng y Cyngor a phrif swyddog" ac yn cofnodi mai "cymeradwyo swm o £95k yn unol â'r Cytundeb Setlo" oedd y penderfyniad. Dyma'r unig benderfyniad a gofnodwyd mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda thaliad terfynu.

195 Am y rhesymau a nodir ym **mharagraffau 187 i 192**, rwy'n ystyried nad penderfyniad i gymeradwyo taliad terfynu i'r Prif Weithredwr blaenorol oedd y penderfyniad a gofnodwyd yn yr hysbysiad hwn o benderfyniad. Yn syml, cofnod ydoedd o gymeradwyo arian y cytunwyd arno eisoes dan y Cytundeb Setlo.

196 Er hynny, nid wyf yn ystyried bod pennu pecyn diswyddo ar gyfer un o brif swyddogion y Cyngor yn benderfyniad a allai fod wedi cael ei ddirprwyo i un o swyddogion y Cyngor beth bynnag.

197 Fel a nodir ym **mharagraff 154**, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi: "Rhaid i'r Cyngor bennu lefel, ac unrhyw newid yn lefel, y gydnabyddiaeth ariannol a delir i Brif Swyddog fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006". Nodir yn y Rheoliadau Rheolau Sefydlog fod i gydnabyddiaeth ariannol yr un ystyr ag yn Neddf Lleoliaeth 2011, sef ei bod yn cynnwys "unrhyw symiau sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r prif swyddog pan fo'r prif swyddog yn rhoi'r gorau i ddal swydd dan yr awdurdod neu gael ei gyflogi gan yr awdurdod".

198 Lle mae Cyngor wedi ymgorffori'r rheolau sefydlog hynny (h.y. i bennu lefel neu'r newid yn lefel cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddog), fel y mae'r Cyngor wedi'i wneud, mae'r Rheoliadau Rheolau Sefydlog yn glir mai penderfyniadau i'r awdurdod eu gwneud yw'r rheiny. Gan hynny, ni allai'r penderfyniad ynghylch y pecyn diswyddo fod wedi cael ei ddirprwyo'n gyfreithlon i un o swyddogion y Cyngor.

199 Ar ben hynny, nid yw Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i benderfyniad ynglŷn â phecyn diswyddo mewn perthynas â phrif swyddog gael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Adnoddau (o'i gyferbynnu â phenderfyniad i ryddhau arian ar gyfer taliad mewn perthynas â phecyn o'r fath, yn dilyn penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd).

## Ni chymerodd Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog a151 y Cyngor gamau digonol i'w argyhoeddi ei hun bod proses benderfynu briodol wedi cael ei dilyn cyn llofnodi penderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yn cymeradwyo rhoi taliad terfynu i'r Prif Weithredwr blaenorol

200 Ar 18 Awst 2020, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd e-bost at Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd a'i Bennaeth Adnoddau Dynol gyda drafft o e-bost yr oedd yn bwriadu ei anfon at Arweinydd y Cyngor. Roedd yr e-bost drafft yn nodi ei bod yn ysgrifennu i gynghori'r Arweinydd, "ynghylch y broses i fynd ati'n ffurfiol i ddatrys y negodiadau ynghylch ymddeoliad cynnar y Prif Weithredwr a'r setliad canlyniadol". Mae'r e-bost yn nodi y gellid adrodd ar benderfyniad, "i gytuno ar y swm [a fydd yn cael ei dalu i'r Prif Weithredwr] dan gytundeb setlo" ar ffurf Adroddiad ICM ac mai'r "unig opsiwn arall yw bod y Cyfarwyddwr Adnoddau'n llofnodi penderfyniad a ddirprwywyd. Gan bod y penderfyniad yn ymwneud yn bennaf â dyrannu adnoddau ariannol pe bai'r

Cyfarwyddwr Adnoddau'n barod i lofnodi penderfyniad a ddirprwywyd byddai hyn yn osgoi'r angen am fynd trwy'r broses ICM".

201 Rwy'n ystyried bod y cyngor ynghylch yr opsiynau adrodd a gynigiwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd yn anghywir am y rhesymau canlynol:

- nid oedd y mater dan sylw, fel a nodwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn fater a oedd "yn ymwneud yn bennaf â dyrannu adnoddau ariannol". Roedd y mater yn ymwneud â chyflogaeth Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd.
- roedd yn ofynnol i'r penderfyniad i gymeradwyo taliad terfynu i'r Prif Weithredwr blaenorol gael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor. Mater a gedwir yn ôl i'r Cyngor yw'r swyddogaeth i gymeradwyo taliadau terfynu i brif swyddogion ac felly, yn fy marn i, ni all y swyddogaeth honno gael ei harfer yn gyfreithlon gan Weithrediaeth y Cyngor. Nid oedd yr opsiynau a gynigiwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn nodi sut yr oedd y taliad wedi cael na sut y byddai'n cael ei gymeradwyo.
- nodwyd fod yr opsiynau a gynigiwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn ei neges e-bost dyddiedig 18 Awst 2020 yn gysylltiedig â'r angen, "i gytuno ar y swm [a fyddai'n cael ei dalu i'r Prif Weithredwr] dan gytundeb setlo". Ymddengys fod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi anwybyddu'r ffaith bod y swm a oedd yn mynd i gael ei dalu i'r Prif Weithredwr blaenorol wedi cael ei bennu gan benderfyniad blaenorol, sef y penderfyniad i ymrwymo i'r Cytundeb Setlo. Roedd y Cytundeb Setlo'n nodi y byddai'r Prif Weithredwr yn cael taliad terfynu o £95,000. Nid oes gan y Cyngor unrhyw benderfyniad wedi'i gofnodi sy'n dynodi pwy wnaeth y penderfyniad i ymrwymo i'r Cytundeb Setlo a'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Yn fy marn i nid oedd yr Arweinydd na'r Cyfarwyddwr Adnoddau'n meddu ar yr awdurdod cyfreithlon i ymrwymo i'r Cytundeb Setlo.
- nid oedd Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i swyddogion bennu pecynnau diswyddo mewn perthynas â phrif swyddogion.

202 Heblaw am y ffaith nad oedd swyddogion y Cyngor yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i gymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer prif swyddog, rwy'n ystyried ei bod yn syndod yr ystyriwyd mai Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor oedd y swyddog priodol i lofnodi hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yn yr achos hwn. Nid oedd y Cyfarwyddwr Adnoddau wedi bod yn rhan o'r negodiadau ynghylch ymadawiad y Prif Weithredwr ac nid oedd yn llwyr ymwybodol o'r amgylchiadau a oedd wedi arwain at wneud cynnig diswyddo. Er bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd wedi nodi yn ei neges e-bost fod y mater yn un a oedd "yn ymwneud yn bennaf â dyrannu adnoddau ariannol", yn fy marn i nid oedd hyn yn gywir. Roedd ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda phecyn diswyddo'n cynnwys materion cyflogaeth.

203 Ar 27 Awst 2020, llofnodwyd y Cytundeb Setlo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd. Ar yr adeg hon, ni chyhoeddwyd adroddiad ICM nac adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog, ac nid oedd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi anfon ei hopsiynau adrodd arfaethedig at yr Arweinydd. Roedd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor ar wyliau blynyddol pan lofnodwyd y Cytundeb Setlo ac felly nid oedd mewn sefyllfa i lofnodi adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Ni ddychwelodd o'i wyliau tan 1 Medi 2020.

204 Ar 1 Medi 2020, fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd at yr Arweinydd, gyda chopi at y Cyfarwyddwr Adnoddau, gan nodi naill ai y gallai'r Arweinydd lofnodi Adroddiad ICM neu y gallai'r Cyfarwyddwr Adnoddau lofnodi adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Wedi'i atodi wrth yr e-bost roedd adroddiad ICM drafft ac adroddiad drafft ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Nid wyf wedi gweld ymateb gan yr Arweinydd sy'n nodi'r opsiwn yr oedd yn ei ffafrio. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yr un diwrnod fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at y Cyfarwyddwr Adnoddau'n gofyn am ddiweddariad ynghylch yr adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog ac yn awgrymu mân newidiadau i'r drafft. Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau gan ddweud ei fod eisoes wedi llofnodi'r ddogfen ond y byddai'n siarad gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd y diwrnod canlynol i weld a ellid diweddaru'r ddogfen.

205 Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth fy archwilwyr ei fod, ar 1 Medi sef y diwrnod y dychwelodd o'i wyliau, wedi cael sawl cyfarfod ynghylch ymadawiad y Prif Weithredwr ar y pryd gyda thaliad terfynu. Roedd y cyfarfodydd hyn gyda'r canlynol:

- y Prif Weithredwr ar ei ben ei hun;
- Arweinydd y Cyngor ar ei ben ei hun;
- y Prif Weithredwr a'r Arweinydd gyda'i gilydd;
- Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd gyda'i gilydd; ac
- o bosibl y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd gyda'i gilydd.

206 Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth fy archwilwyr ei fod, yn y cyfarfodydd hyn, wedi ceisio a chael sicrwydd er mwyn bodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i weinyddu ei faterion ariannol, bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn rhan o'r broses, ac y gallai lofnodi'r adroddiad ar benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog a baratowyd gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd.

207 Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth fy archwilwyr ei fod wedi cwestiynu'r broses benderfynu gydag Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd am ei fod wedi tybio y byddai rhyw fath o gymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau wedi bod yn ofynnol cyn llofnodi'r Cytundeb

Setlo am £95,000. Mae'n haeru bod Arweinydd y Cyngor wedi dweud wrtho bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r taliad o £95,000, er na ddigwyddodd hynny mewn cyfarfod ffurfiol gan y Cabinet. Mae hefyd yn cofio bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi ei hysbysu ei bod hi a'r Swyddog Monitro ar y pryd wedi cynghori nad oedd yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad ynglŷn â'r taliad y cytunwyd arno am ei fod islaw'r trothwy o £100,000 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan y Cyngor llawn, ond "ei bod yn ofynnol cael penderfyniad mewn perthynas ag agweddau ariannol y cytundeb setlo, sef cymeradwyo dyrannu adnoddau ar gyfer y taliad o £95,000". Dywedodd wrth fy archwilwyr, yn dilyn ei gyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, ei fod yn cofio, "cynnal adolygiad cyflym o elfennau perthnasol o'r Cyfansoddiad, ond heb [ganfod] unrhyw beth a oedd yn amlwg yn gwrthddweud y cyngor a ddarparwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd".

208 Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth fy archwilwyr hefyd, er ei fod yn cofio gwneud nodiadau byr o'r cyfarfodydd ar 1 Medi 2020, nad yw wedi gallu dod o hyd iddynt. Mae'n derbyn y "dylai fod wedi dogfennu a disgrifio [ei] broses feddwl, ystyriaethau a chamau gweithredu yn glir a bod hyn yn rhywbeth y bydd [ef] yn ei ddysgu ar gyfer y dyfodol".

209 Yn niffyg unrhyw gofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Medi 2020, nid wyf yn gallu dod i gasgliad pendant ynglŷn â'r hyn a drafodwyd a pha sicrwydd gafodd y Cyfarwyddwr Adnoddau yn y cyfarfodydd hynny. Nid wyf yn amau ei honiad ei fod wedi ceisio sicrwydd a rwy'n derbyn bod gan y Cyfarwyddwr Adnoddau hawl i ddibynnu rywfaint ar sicrwydd a roddwyd iddo ar lafar gan Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd.

210 Fodd bynnag, o ystyried bod yr hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog yn mynd i fod yn ei enw ef, byddwn wedi disgwyl i'r Cyfarwyddwr Adnoddau wneud mwy na cheisio sicrwydd ar lafar gan yr Arweinydd, y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

211 Pan ofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Adnoddau lofnodi'r hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog (sef yr unig benderfyniad a gofnodwyd mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol gyda thaliad terfynu), yn fy marn i dylai fod wedi gwneud y canlynol cyn llofnodi'r hysbysiad o benderfyniad:

- ceisio cadarnhad ysgrifenedig nad oedd yn ofynnol i'r aelodau, a hwythau'n gweithredu yn y Cyngor llawn neu drwy bwyllgor, gymeradwyo'r taliad.
- mynnu gweld y Cytundeb Setlo ac adolygu'r cynnwys. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau'n haeru ei fod wedi gofyn i'r Prif Weithredwr ar y pryd am gopi o'r Cytundeb Setlo, ond bod y Prif Weithredwr wedi gwrthod ei gais ar y sail bod y Cytundeb Setlo'n cynnwys cymal cyfrinachedd, "a oedd yn caniatáu i [y Prif Weithredwr] ac Arweinydd y Cyngor a neb arall gael copi ac y byddai'n rhaid i'r ddau gytuno ynghylch datgelu unrhyw wybodaeth ynddo". A bod "Arweinydd y Cyngor wedi cadarnhau mai'r hyn ddywedodd y Prif Weithredwr wrthyf oedd ei ddealltwriaeth yntau".

- gofyn am unrhyw gyngor cyfreithiol allanol a mewnol yr oedd y Cyngor wedi ei gael ynghylch y mater hwn ac adolygu'r cyngor hwnnw.
- gofyn am gadarnhad ysgrifenedig a oedd yn nodi ei awdurdod cyfansoddiadol a/neu ddeddfwriaethol i lofnodi hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog ynghylch y mater. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan mai'r hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog fyddai'r unrhyw benderfyniad gan y Cyngor a gofnodwyd mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu.
- gofyn am gopi o'r achos busnes a oedd yn ategu'r cynnig.
- ceisio cadarnhad ysgrifenedig i egluro ar ba sail yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth ac o'r rheswm pam y byddai'n cael taliad terfynu.

212 Yn fy marn i, pe bai'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi cymryd y camau a nodir uchod, yn hytrach na dibynnu ar gael sicrwydd ar lafar, gallai fod wedi dod yn amlwg na ddilynwyd y broses briodol ac nad oedd y taliad terfynu wedi cael ei gymeradwyo'n iawn. Fodd bynnag, rwy'n derbyn na fu gan y Cyfarwyddwr Adnoddau unrhyw ymwneud â'r broses a arweiniodd at lofnodi'r Cytundeb Setlo ar 27 Awst 2020 a, phan lofnododd yr hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog ar 1 Medi 2020, bod y cytundeb cyfreithiol i roi taliad o £95,000 i'r Prif Weithredwr ar y pryd eisoes yn ei le. Felly, hyd yn oed pe bai'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi nodi nad oedd y broses briodol wedi'i dilyn, gallai methu â gwneud y taliad y cytunwyd arno fod wedi arwain at y Cyngor yn wynebu camau cyfreithiol.

## Cafodd y Prif Weithredwr blaenorol daliad terfynu o £95,000 cyn y dyddiad talu cytunedig a oedd wedi'i nodi yn y Cytundeb Setlo

213 Ar 27 Awst 2020 cafodd y Cytundeb Setlo, sy'n nodi y byddai'r Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor gyda thaliad terfynu o £95,000, ei lofnodi gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd.

214 Mae'r Cytundeb Setlo'n nodi y byddai'r taliad o £95,000 yn cael ei wneud i'r Prif Weithredwr ar y pryd, "o fewn 28 diwrnod i'r hwyraf o ddau ddyddiad, sef y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn yn gyfrwymol a'r Dyddiad Terfynu". Pennwyd 30 Tachwedd 2020 fel dyddiad terfynu'r Prif Weithredwr, a daeth y Cytundeb Setlo'n gyfrwymol ar 27 Awst 2020. Roedd hyn yn golygu y dylai'r taliad i'r Prif Weithredwr fod wedi cael ei wneud ar y dyddiad y terfynwyd ei gyflogaeth; 30 Tachwedd 2020. Fodd bynnag, fe wnaed y taliad yn yr wythnos a ddechreuodd ar 21 Medi 2020 tra'r oedd y Prif Weithredwr yn dal i gael ei gyflogi.

215 Dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor wrth fy archwilwyr iddo gael ei hysbysu gan y Prif Weithredwr blaenorol mewn cyfarfod ar 4 Medi 2020, yr oedd Arweinydd y Cyngor yn bresennol ynddo, bod rhaid i'r taliad gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y Cytundeb Setlo. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau

wrthym hefyd nad oedd yn gallu cadarnhau'r dyddiad talu trwy gyfeirio at y Cytundeb Setlo am nad oedd copi o'r Cytundeb Setlo ganddo. Mae'r Arweinydd hefyd yn haeru bod y Prif Weithredwr blaenorol wedi dweud wrth y Cyfarwyddwr Adnoddau yn y cyfarfod ar 4 Medi 2020 bod rhaid trosglwyddo'r taliad o fewn 28 diwrnod. Dywedodd y Prif Weithredwr blaenorol wrth fy archwilwyr na wnaeth hysbysu'r Cyfarwyddwr Adnoddau bod rhaid gwneud y taliad o fewn 28 diwrnod, ac mai'r Cyfarwyddwr Adnoddau a ddywedodd wrtho ef mai felly yr oedd hi.

216 Yn dilyn y cyfarfod ar 4 Medi 2020, fe anfonodd y Cyfarwyddwr Adnoddau e-bost at y Pennaeth Adnoddau Dynol a oedd yn dweud: "bydd angen i ni sicrhau bod y taliad o £95k i [y Prif Weithredwr] yn cael ei wneud cyn y broses talu cyflogau nesaf i sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Cytundeb Setlo, sef o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad llofnodi yn ôl fy nealltwriaeth i. Allwch chi drefnu'r taliad os gwelwch yn dda?".

217 Ar 7 Medi 2020, fe anfonodd y Pennaeth Adnoddau Dynol e-bost at aelod o dîm cyflogres y Cyngor ynghylch cwblhau ffurflen 'Newid mewn Amgylchiadau' mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol â'r Cyngor. Mae'r e-bost esboniadol yn nodi: "pe gallech roi ei fanylion i mewn i mi byddai hynny'n wych – dyddiad ymadael 30/11/20 a thaliad digolledu o 95k i gael ei wneud erbyn 25 Medi fan bellaf (er mwyn cydymffurfio â thelerau'r cytundeb)". Roedd y datganiad hwn yn anghywir oherwydd nid oedd y Cytundeb Setlo'n ei gwneud yn ofynnol trosglwyddo'r taliad tan 30 Tachwedd 2020.

218 Yn ddiweddarach yr un diwrnod, fe ysgrifennodd y Pennaeth Adnoddau Dynol eto at aelod o dîm cyflogres y Cyngor gan ddweud, "Rwyf newydd wirio'r cytundeb setlo eto ac mae arnaf angen i'r taliad o 95k (y 30k cyntaf yn ddi-dreth) gael ei wneud ar 24 Medi er mwyn cydymffurfio â'r cytundeb a wnaed". Mae'n syndod i mi, ac yntau wedi gwirio geiriad y Cytundeb Setlo, nod y Pennaeth Adnoddau Dynol serch hynny wedi cyfarwyddo bod rhaid gwneud y taliad ar 24 Medi 2020, pan nad oedd hyn yn ofynnol yn ôl y Cytundeb Setlo.

# Ni chafodd aelodau anweithredol y Cyngor y cyfle i adolygu a phenderfynu a ddylai'r Prif Weithredwr gael taliad terfynu

## Ni chafodd aelodau'r Cyngor y cyfle i benderfynu a ddylid gwneud taliad terfynu i'w Brif Weithredwr blaenorol

219 Ar 12 Awst 2020 cynghorodd Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd, "mae unrhyw benderfyniad i wneud taliad digolledu o £95,000 i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd yn un y gall yr Arweinydd ei hun ei wneud". Rwy'n anghytuno â'r cyngor hwn am y rhesymau a nodir ym **mharagraff 149 i 162** ac rwy'n ystyried, yn unol â deddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor ei hun, na allai'r penderfyniad fod yn benderfyniad gweithredol. Yn fy marn i, dylai'r penderfyniad fod wedi cael ei wneud

gan gyfarfod y Cyngor llawn, neu fe ellid dadlau y dylai fod wedi cael ei wneud gan Bwyllgor Uwch Staff y Cyngor a oedd yn cynnwys saith aelod o'r Cyngor ac yr oedd eu cylch gwaith yn cynnwys pennu telerau ac amodau gwasanaeth ar gyfer prif swyddogion. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y gellid ystyried bod y trefniant i ddirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Uwch Staff am bennu telerau ac amodau gwasanaeth ar gyfer prif swyddogion yn ymestyn i gytuno ar daliadau terfynu i brif swyddogion.

220 Hyd yn oed pe bai'r Swyddog Monitro blaenorol wedi bod yn gywir gyda'i chyngor ac y gallai'r Arweinydd wneud y penderfyniad i wneud taliad terfynu i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd, nid yw'n golygu bod hyn yn ffordd briodol na thryloyw i wneud penderfyniad mor bwysig.

221 Fel a nodir ym **mharagraff 160**, ar 16 Awst 2020 fe ysgrifennodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd at Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd yn cadarnhau ei bod hi'n cytuno â dehongliad y Swyddog Monitro o'r sefyllfa gyfreithiol. Fodd bynnag, yn yr e-bost hwnnw roedd hi'n cwestiynu, "a yw hwn wir yn fater y gall yr Arweinydd ymdrin ag ef yn briodol gan bod ymadawiad [Prif Weithredwr] does bosib yn fater er lles y cyhoedd ac yn un sy'n cael effaith arwyddocaol ar yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd" ac "rwyf hefyd yn ymwybodol bod gan y swyddogaeth graffu rôl yma a'i bod yn dra thebygol y bydd yn dymuno adolygu'r pecyn diswyddo neu'n galw'r penderfyniad i mewn".

222 Rwy'n cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd. Ni waeth pa un a oedd gan yr Arweinydd y pŵer i wneud penderfyniad o'r fath, roedd cwestiwn ynghylch pa un a oedd yn briodol yn yr amgylchiadau bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Arweinydd. Yn fy marn i, roedd yn amhriodol bod penderfyniad ynglŷn ag ymadawiad y Prif Weithredwr gyda thaliad terfynu, penderfyniad a fyddai'n dwyn goblygiadau arwyddocaol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd, yn cael ei wneud fel penderfyniad gan aelod cabinet unigol.

## Ni chafodd aelodau anweithredol y Cyngor y cyfle i graffu ar unrhyw gynigion i roi taliad terfynu i'w Brif Weithredwr blaenorol

223 Fel a nodir ym **mharagraff 221**, roedd e-bost Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor ar y pryd at Swyddog Monitro'r Cyngor ar y pryd ar 16 Awst 2020 yn nodi: "rwyf hefyd yn ymwybodol bod gan y swyddogaeth graffu rôl yma a'i bod yn dra thebygol y bydd yn dymuno adolygu'r pecyn diswyddo neu'n galw'r penderfyniad i mewn". Rwy'n cytuno â'r farn a fynegwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd ar y pwynt yma. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011 yn argymell "y dylai trefniadau craffu awdurdodau alluogi'r pwyllgor trosolwg a chraffu priodol neu unrhyw banel tâl neu gydnabyddiaeth ariannol arall a arweinir gan aelodau (neu'r

hyn sy'n cyfateb iddo) adolygu'r datganiadau ar bolisïau tâl ac unrhyw becynnau cyflog neu ddiswyddo unigol ar gyfer eu prif swyddogion". Mae'n ofynnol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 bod y Cyngor yn rhoi sylw i'r canllawiau hyn.

224 Llofnodwyd y Cytundeb Setlo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ar 27 Awst 2020. Ni roddwyd y cyfle i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y Cyngor adolygu'r penderfyniad arfaethedig.

225 Fel a nodir ym **mharagraff 183**, yn dilyn llofnodi'r Cytundeb Setlo ar 1 Medi 2020, fe wnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd gynghori'r Arweinydd y gallai'r penderfyniad gael ei gofnodi naill ai trwy adroddiad ICM neu drwy hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Fe wnaed y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad a ddirprwywyd i swyddog. Nid yw Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys unrhyw fecanwaith i alluogi pwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor alw penderfyniadau a ddirprwywyd i swyddogion i mewn. O ganlyniad, gwrthodwyd y cyfle i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y Cyngor alw'r penderfyniad i mewn cyn ei fod yn cael ei roi ar waith. Er fy mod yn derbyn y gallai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y Cyngor fod wedi penderfynu adolygu'r penderfyniad ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, roedd y Cytundeb Setlo a lofnodwyd ar 27 Awst 2020 wedi ffurfio contract rhwng y Cyngor a'r Prif Weithredwr ar y pryd. Byddai unrhyw ymgais i atal taliad dan delerau'r contract hwn wedi gadael y Cyngor yn agored i'r risg o her gyfreithiol.

226 Rwy'n nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol, ar 18 Awst 2020, wedi ysgrifennu at ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor yn gofyn am gadarnhad: "unwaith y bydd wedi'i lofnodi, bod y [Cytundeb Setlo] yn rhwymo mewn cyfraith, ac na fydd y broses o gofnodi'r penderfyniad, gan gynnwys unrhyw faterion craffu, yn effeithio ar y [Cytundeb Setlo] a lofnodwyd, ac allech chi hefyd gynghori ynghylch mater aelodau'n dymuno gweld y [Cytundeb Setlo] yn benodol, a fydd hynny'n gwneud y [Cytundeb Setlo] yn ddi-rym?".

227 Roedd y cyngor a gafodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor fel a ganlyn:

- pe bai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn gan un o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, "ar y pwynt hwnnw fe allai'r mater gael ei atgyfeirio at y Cabinet neu'r Cyngor Llawn a allai orchymyn bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried, pa un a ymrwymwyd i'r cytundeb erbyn hynny ai peidio". Fodd bynnag, gan mai penderfyniad a ddirprwywyd i swyddog i ryddhau arian ar gyfer talu pecyn o'r fath oedd yr unig benderfyniad a gofnodwyd, yn dilyn penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd, a chan nad oedd penderfyniadau a ddirprwywyd i swyddog yn gallu cael eu galw i mewn gan bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor, fe osgowyd y posibilrwydd y byddai'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn yn gorchymyn bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried.
- "Y llwybr mwyaf diogel ar y cyfan yw cytuno ar y Cytundeb Setlo mewn egwyddor". Mewn geiriau eraill, roedd yr ymgynghorydd cyfreithiol allanol yn cynghori byddai buddiannau'r Cyngor yn cael eu gwarchod yn well pe bai

prosesau democrataidd cywir y Cyngor yn cael eu cwblhau cyn ymrwymo i gytundeb cyfreithiol. Fe ddiystyrwyd y cyngor hwn.

- os ystyriwyd nad oedd cyflwyno'r penderfyniad i'r Cyngor llawn yn briodol, gallai opsiynau eraill ar gyfer cymeradwyo fod wedi cael eu hystyried, er enghraifft atgyfeirio'r mater at bwyllgor uwch staff y Cyngor neu bwyllgor brys: "byddai hyn o leiaf yn golygu na fyddai unrhyw benderfyniad gan y pwyllgor yn benderfyniad gweithredol, ac felly na fyddai'n ddarostyngedig i'r un lefel o alw i mewn gan y swyddogaeth graffu".
- pe bai'r aelodau'n mynd i wneud y penderfyniad, ym marn ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor, byddai'r aelodau hynny, "yn gallu gweld y cytundeb pe baent yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol i benderfynu ynglŷn â'r mater".

228 Nid yw'n glir i mi pam fod swyddogion y Cyngor wedi cynghori ynghylch defnyddio proses a oedd yn osgoi unrhyw bosibilrwydd y byddai penderfyniad i roi taliad terfynu i'r Prif Weithredwr ar y pryd yn cael ei alw i mewn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor neu y byddai aelodau'r Cyngor, heblaw am aelodau'r Cabinet, yn ei adolygu ac yn craffu arno.

229 Mae negeseuon e-bost mewnol yn awgrymu i mi y gall nifer o ffactorau fod wedi dylanwadu ar gyngor swyddogion:

- ymddengys fod ofn gwirioneddol y gallai rhannu gwybodaeth gydag aelodau fod wedi arwain at dorri cymal cyfrinachedd a oedd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Setlo. Er gwaethaf y pryder hwnnw rwy'n nodi bod y Pennaeth Adnoddau Dynol, wrth godi'r cwestiwn hwn gydag ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor, wedi cael ei gynghori, lle'r oedd ar aelodau angen gweld y Cytundeb Setlo er mwyn gwneud penderfyniad, y dylent fod wedi cael y cyfle hwnnw.
- roedd swyddogion yn pryderu, unwaith y byddai'r Cytundeb Setlo wedi'i lofnodi, pe bai aelodau'n gwrthdroi'r penderfyniad, y gallai hynny roi'r Cyngor mewn sefyllfa annaliadwy o fod wedi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol ond yn methu â'i roi ar waith, gan arwain at hawliad posibl am dorri contract. Fodd bynnag, roedd ymgynghorwyr cyfreithiol allanol y Cyngor wedi cynghori mai'r llwybr mwyaf diogel yn yr amgylchiadau hyn oedd cytuno ar y Cytundeb Setlo mewn egwyddor a disgwyl i'r broses ddemocrataidd briodol gael ei chwblhau cyn ymrwymo'n derfynol i'r cytundeb. Fodd bynnag, ni ddilynwyd y cyngor hwn.
- mae negeseuon swyddogion mewnol rhwng y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn awgrymu bod ar yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd eisiau osgoi cyhoeddi manylion y cytundeb. Ar 17 Awst 2020 fe ysgrifennodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at y Pennaeth Adnoddau Dynol, gyda chopi at y Swyddog Monitro ar y pryd gan ddweud, "Rwy'n ymwybodol bod [y Prif Weithredwr ar y pryd] yn arbennig o bryderus ynghylch y mecanwaith adrodd a'r goblygiadau". Ar 18 Awst 2020, fe ysgrifennodd y

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at y Pennaeth Adnoddau Dynol gan ddweud, “Rwy’n deall bod yr Arweinydd yn awyddus bod y rhesymau pam fod [y Prif Weithredwr] yn cymryd ymddeoliad cynnar ddim yn cael eu cyhoeddi boed trwy ddadl neu unrhyw ddull arall, a bod [y Prif Weithredwr] yn dymuno cael budd o rywfaint o gyfrinachedd mewn perthynas â thelerau’r [Cytundeb Setlo]”. Er fy mod yn cydnabod y bydd partïon i Gytundeb Setlo wastad yn dymuno cadw rhywfaint o gyfrinachedd o ran yr amgylchiadau a arweiniodd at y cytundeb hwnnw, ni all fod ar draul tryloywder a chynnal busnes cyhoeddus mewn modd priodol.

230 Fel a nodir ym **mharagraff 221**, roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd wedi cydnabod, “bod gan y swyddogaeth graffu rôl yma a’i bod yn dra thebygol y bydd yn dymuno adolygu’r pecyn diswyddo neu’n galw’r penderfyniad i mewn”. Fodd bynnag, fe wnaeth y broses benderfynu a gynghorwyd ac a ddilynwyd arwain at sefyllfa lle na chafwyd unrhyw graffu nac ymwneud gan aelodau anweithredol. Yn fy marn i roedd hyn yn annerbyniol.

231 Trwy fethu â chaniatáu i’r pwyllgor trosolwg a chraffu priodol neu unrhyw banel tâl neu gydnabyddiaeth ariannol arall a arweinir gan aelodau (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) adolygu'r cynnig i roi taliad terfynu i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd cyn bod y penderfyniad wedi cael ei wneud, ni wnaeth y Cyngor ymlynu wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011 (gweler **paragraff 223**). Dim ond os ydynt yn rhoi rhesymau eglur (yn yr ystyr eu bod yn wrthrychol, yn briodol, ac yn ddilys) dros wneud hynny y gall awdurdodau lleol wyro oddi wrth y canllawiau. Nid wyf wedi gweld unrhyw reswm eglur pam y byddai’r Cyngor wedi gwyro oddi wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru, ac rwyf felly’n ystyried y gall y Cyngor fod wedi torri darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Website: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.